Rhif Ymchwil Gymdeithasol:
67/2022
Dyddiad cyhoeddi:
26/10/2022

# Asesiad Gwerthusadwyedd ar gyfer Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru a'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru

This document is also available in English.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80391-933-1

Teitl: Asesiad Gwerthusadwyedd ar gyfer Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru a'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru

Awdur(on): Liz Puntan, Kelly Lock, a Helen Hodges

Puntan, L., Lock, K., a Hodges, H. (2022). *Asesiad Gwerthusadwyedd ar gyfer Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru a'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 67/2022

Ar gael yn: https://llyw.cymru/asesiad-gwerthusadwyedd-ar-gyfer-glasbrint-cyfiawnder-i-fenywod-cymru-ar-glasbrint-ar-gyfer-cyfiawnder-ieuenctid-yng-nghymru

Safbwyntiau'r ymchwilwyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Merisha Weeks

Polisi Cyfiawnder

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays 2

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 628345

E-bost: PSLGResearchTeam@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau....2
Geirfa ....3
1. Cefndir....1
2. Proses yr Asesiad Gwerthusadwyedd....3
4. Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru ....17
5. Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru ....57
6. Modelau gwerthuso....101
Cyfeiriadau....155

**Rhestr o dablau**

Tabl 1: Modelau posibl o werthuso Glasbrint ........ 104
Tabl 2: Mesurau canlyniadau ar gyfer gwerthuso'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid ........ 115
Tabl 3: Mesurau canlyniad ar gyfer gwerthuso'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod ........ 137

## Geirfa

| Acronym / gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| ACE | Profiad niweidiol yn ystod plentyndod (PNYP) |
| APVA | Trais gan Berson Ifanc yn y Glasoed tuag at Riant |
| BOLD | Gwell Canlyniadau drwy Ddata Cysylltiol (rhaglen) |
| CJS | System Cyfiawnder Troseddol |
| CMS | System Rheoli Achosion |
| CRL | Trwydded Ailsefydlu Gofal Plant |
| DfE | Adran Addysg |
| AG | Asesiad Gwerthusadwyedd |
| ECM | Rheoli Achosion Uwch |
| ETE | Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth |
| FTE | Pobl sy'n dechrau yn y system am y tro cyntaf (i'r system cyfiawnder ieuenctid) |
| HMPPS | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi[1] |
| IOM | Rheoli Integredig Troseddwyr |
| MAPPA | Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd |
| MoJ | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| NRC | Pwyllgor Ymchwil Cenedlaethol |
| OASys | System Asesu Troseddwyr |
| ONS | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| ORS | Opinion Research Services |
| PCC | Comisiynwyr Heddlu a Throseddu |
| PNC | Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu |
| PSR | Adroddiad Cyn Dedfrydu |
| ROTL | Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro |
| RRI | Mynegai Cyfradd Cymharol |

[1] Pan gynhaliwyd gwaith maes y prosiect hwn, “HMPPS” oedd “Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi”. Cyfeirir ato felly fel hyn drwy gydol yr adroddiad. Mae HMPPS bellach wedi newid i “Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi”, i adlewyrchu bod y Brenin Siarl bellach yn teyrnasu.

| | |
|---|---|
| SMDS | Set Ddata Camddefnyddio Sylweddau |
| VAWDASV | Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| WJAP | Panel Cynghori Cyfiawnder Cymru |
| WYJI | Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru |
| YJAF | Fframwaith Cymhwyso Cyfiawnder Ieuenctid |
| YJB | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid |
| YJS | System Cyfiawnder Ieuenctid |
| YOI | Sefydliad Troseddwyr Ifanc |
| YOS | Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid |
| YOT | Tîm Troseddwyr Ifanc |

## 1. Cefndir

1.1 Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a’r Weinyddiaeth Gyfiawnder Lasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru[2] a'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru[3] i wella'r partneriaethau rhwng gwasanaethau datganoledig a gwasanaethau heb eu datganoli ac o ganlyniad gwella’r gwasanaethau a ddarperir i fenywod 18 oed ac yn hŷn a phlant a phobl ifanc rhwng deg ac 17 oed yn y system gyfiawnder yng Nghymru. Bydd rhoi’r Glasbrintiau ar waith yn ychwanegu at y strwythurau presennol (a gweithredu dulliau newydd) i dargedu cymorth yn fwy effeithiol, gan osgoi bylchau neu ddyblygu yn y gwasanaethau a ddarperir, a chynorthwyo menywod a phlant a phobl ifanc i gael mynediad at gymorth ac ymyriadau priodol yn llwyddiannus.

1.2 Meysydd thematig y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru yw ymyrraeth gynnar ac atal, llysoedd a dedfrydu, atebion cymunedol, y ddalfa ac ailsefydlu, llywodraethu, ac ymchwil a gwerthuso. Meysydd thematig y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru yw atal; dargyfeirio cyn mynd i'r llys; cymuned; y ddalfa; ailsefydlu a phontio; a throsolwg o'r system.

1.3 Mae’r system gyfiawnder yng Nghymru yn gymhleth. Er bod gan Lywodraeth y DU gyfrifoldeb am swyddogaethau cyfiawnder troseddol, gan gynnwys llysoedd, carchardai a’r gwasanaeth prawf, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am feysydd datganoledig sy’n croestorri â’r system gyfiawnder, megis tai, iechyd, ac addysg. O ganlyniad i'r cymhlethdod hwn, bydd unrhyw werthusiad o'r Glasbrintiau yn her. O ganlyniad, mae’r bartneriaeth gomisiynu a sefydlwyd rhwng Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi[4] (HMPPS) yng Nghymru a Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi ac wedi ymrwymo i’r gwaith o gyflawni Asesiad Gwerthusadwyedd (AG) ar gyfer Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru a'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru y mae'r adroddiad hwn yn seiliedig arnynt.

[2] Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru
[3] Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru
[4] As noted, pan gynhaliwyd gwaith maes y prosiect hwn, “HMPPS” oedd “Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi”. Cyfeirir ato felly fel hyn drwy gydol yr adroddiad. Mae HMPPS bellach wedi newid i “Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi”, i adlewyrchu bod y Brenin Siarl bellach yn teyrnasu.

1.4 Mae AG yn ffordd o gyd-gynllunio a dylunio gwerthusiadau i sicrhau eu bod yn cynhyrchu tystiolaeth berthnasol a chadarn i lywio penderfyniadau ac yn cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ehangach (Brunner, Craig a Watson, 2019[5]).

1.5 Nod cyffredinol yr AG hwn yw sefydlu sut y gellir gwerthuso'r Glasbrintiau'n effeithiol, gan fanylu ar chwe opsiwn gwerthuso gwahanol. Mae'r opsiynau hyn yn ystyried dichonoldeb y gwerthusiad arfaethedig a'r cam y mae'r gwahanol brosiectau yn cael eu gweithredu.

1.6 Defnyddir yr AG i ddeall a oes lle i gynnal y gwerthusiadau hyn mewn ffordd ddibynadwy a dilys, i ba raddau y gellir gwerthuso'r Glasbrintiau (e.e., proses, effaith, economaidd) a pha ddata sydd ar gael ac y gellir ei ddefnyddio at ddibenion gwerthuso.

1.7 Mae llais ac anghenion y defnyddiwr (h.y., menywod a phlant a phobl ifanc) wrth wraidd y Glasbrintiau, sy'n golygu bod methodoleg yr AG (a'r gwerthusiadau) yn ei gwneud yn angenrheidiol i gynnwys y defnyddwyr ar y pwynt dylunio.

1.8 Dyma'r amcanion penodol yr AG:

- Cynnal adolygiad cyfannol o'r wybodaeth fonitro sy'n bodoli eisoes yn y meysydd gweithgaredd a gwmpesir gan y Glasbrintiau, ond hefyd, oherwydd agweddau hawliau dynol a chenedlaethau'r dyfodol ar ein dehongliad o'r nodau, mynd ymhellach i gynnwys asiantaethau partneriaid sy'n gysylltiedig ond weithiau'n anhraddodiadol;
- Dadansoddi a deall negeseuon allweddol o waith integreiddio Glasbrint parhaus ar draws ystod o ffrydiau gwaith mewn asiantaethau partner ac asesu'r rhain o ran arferion da, heriau, goblygiadau adnoddau / cost, modelau rhesymeg, a damcaniaethau newid;
- Cyflwyno elfen ansoddol gref i ddeall yr hyn sy'n bodoli eisoes a sut mae gwaith presennol y Glasbrint yn dod yn ei flaen, trwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc; merched; uwch-reolwyr gwasanaethau rhanddeiliaid; ac ymarferwyr, i ddeall gweithrediad y Glasbrintiau yn well; a

[5] Evaluability assessment: An application in a complex community improvement setting

- Defnyddio canfyddiadau o’r adolygiad a’r dadansoddiad o’r data presennol i gynhyrchu modelau gwerthuso posibl, gan gynnig dewis a ffocws gwahanol i’r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru.

1.9 Mae gweddill yr adroddiad hwn yn nodi methodoleg a chanfyddiadau allweddol yr AG. Mae’n cloi drwy gyflwyno’r chwe model gwerthuso posibl a thrafodaeth ar eu dichonoldeb.

## 2. Proses yr Asesiad Gwerthusadwyedd

2.1 Roedd pedwar cam i fethodoleg yr AG. Fe'i gweithredwyd gan ymchwilwyr Opinion Research Services (ORS) gyda chefnogaeth gan yr ymgynghorwyr arbenigol Dr Helen Hodges, a weithiodd gydag ORS yn annibynnol, a Dr Anthony Charles, o Brifysgol Abertawe. Derbyniodd yr ymchwil gymeradwyaeth lawn gan y Pwyllgor Ymchwil Cenedlaethol ac fe'i cynhaliwyd rhwng mis Mawrth 2021 a mis Chwefror 2022.

**Cam un: Mapio ystadegol a pholisi (Mawrth - Mehefin 2021)**

2.2 Yn ystod y cam hwn, lluniodd y tîm fap ystadegol ac adolygu’r polisi cyfiawnder ieuenctid a menywod perthnasol sy'n cael ei ddatblygu yng Nghymru a'r DU.

2.3 Mae’r map ystadegol yn manylu ar yr holl fesurau perfformiad allweddol ar draws y system cyfiawnder ieuenctid ac ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi troseddwyr benywaidd yng Nghymru ac yn darparu patrymau a thueddiadau ar eu cyfer. Mae hwn yn creu set o ddangosyddion ar gyfer y ‘system gyfan’.

2.4 Er mwyn datblygu’r map ystadegol, archwiliodd ORS setiau data, catalogau data, a chyhoeddiadau ystadegol cyhoeddedig perthnasol, i nodi pa ddata am blant a phobl ifanc a menywod sy’n ymwneud â’r system cyfiawnder ieuenctid /system cyfiawnder troseddol sydd ar gael ar hyn o bryd ac sy’n debygol o fod ar gael yn y dyfodol at ddibenion ymchwil a gwerthuso.

2.5 Cafodd ORS hefyd nifer o drafodaethau manwl gydag arbenigwyr ac ymchwilwyr data a pholisi ynghylch argaeledd, hygyrchedd, ansawdd a chyflawnder data arall sydd ar gael ar hyn o bryd ac a all fod ar gael yn y dyfodol, y gellid ei ddefnyddio at y dibenion hyn ond nad yw ar gael i’r cyhoedd.

2.6 Mae'r map polisi yn cynnwys metaddadansoddiad o ddeddfwriaeth, polisi, canllawiau, ymchwil a strategaeth allweddol yng Nghymru. Ar ôl eu cwblhau, cyfunwyd y mapiau ystadegol a pholisi i nodi'r rhwystrau a'r cyfleoedd posibl i roi'r Glasbrintiau ar waith. Cyflwynir crynodeb o'r ymarfer hwn yn y drydedd adran o'r adroddiad hwn.

**Cam dau: Datblygu grwpiau dylunio gwerthusiad ar gyfer menywod a phlant a phobl ifanc i roi'r Asesiadau Gwerthusadwyedd yn eu cyd-destun a'u datblygu (Mehefin – Medi 2021)**

2.7 Yn ystod y cam hwn, bu'r tîm yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a menywod i archwilio'r negeseuon allweddol o gam un, adolygu dulliau gwerthuso presennol, llunio cwestiynau gwerthuso, a threfniadau arfaethedig ar gyfer cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth mewn gwerthusiadau o'r Glasbrintiau yn y dyfodol.

2.8 Roedd hyn yn cynnwys cynnal cyfweliadau un-i-un gan y tîm ymchwil gyda'r canlynol:

- Chwe phlentyn ac unigolyn ifanc gwrywaidd rhwng 16 ac 18 oed a oedd yn ymgysylltu â dau Dîm Troseddwyr Ifanc yng Nghymru ar hyn o bryd. Er mwyn darparu set ddata amrywiol a oedd yn casglu ystod eang o brofiadau a safbwyntiau, roedd y plant a'r bobl ifanc hyn wedi cael profiad o wahanol gamau o'r system cyfiawnder ieuenctid o ddigwyddiadau cyn mynd i'r llys / dargyfeirio / atal, i orchymyn llys / lefel statudol, i'r ddalfa, i'r cyfnod pan fyddai'r plant a phobl ifanc yn cael eu rhyddhau ar drwydded / ymgysylltu ag ailsefydlu neu adsefydlu ond yn parhau i ymgysylltu â'r Tîm Troseddwyr Ifanc gan gynnwys pan fyddant yn gwneud hynny'n wirfoddol.
- Saith o fenywod a oedd yn ymgysylltu â'r cynllun dargyfeirio rhanbarthol Braenaru yng Nghymru. Roeddent wedi ymgysylltu â'r rhaglen Fraenaru drwy amrywiaeth o lwybrau, gan gynnwys y cynlluniau dargyfeirio, y gwasanaeth prawf yng Nghymru ac atgyfeiriadau gwirfoddol. Roedd hyn wedi helpu i ddarparu ystod o brofiadau a safbwyntiau.

2.9 Gwnaeth ORS siarad â phob plentyn / unigolyn ifanc a menyw yn unigol wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Roedd y cyfweliadau'n dilyn dull cydgynhyrchiol wedi'i seilio ar hawliau plant a phobl ifanc a menywod, wedi'i lywio gan drawma, gan ddefnyddio

ysgogiadau yn seiliedig ar y blaenoriaethau a nodwyd yng ngham un i arwain y drafodaeth yn hytrach na chanllaw testun strwythuredig neu led-strwythuredig. Dyma beth a wnaeth y cyfweliadau:

- Myfyrio ar brofiadau'r system cyfiawnder ieuenctid / system cyfiawnder troseddol a nodi pa agweddau y gellid ac y dylid eu mesur;
- Nodi sut beth fyddai'n dda o ran gweithredu Glasbrint yn llwyddiannus;
- Archwilio'r ffordd orau o fesur y gweithgareddau allweddol yn y Glasbrintiau a'u hintegreiddio mewn gwerthusiadau yn y dyfodol;
- Nodi sut a phryd y mae'n well ymgynghori â'r plant a phobl ifanc a menywod er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u hymgorffori mewn gwerthusiadau Glasbrint yn y dyfodol.

**Cam tri: Ymgysylltu ag asiantaethau a rhanddeiliaid (Medi – Rhagfyr 2021)**

2.10 Yn ystod y cam hwn, adeiladodd tîm ORS ar y negeseuon o gam dau i gynnal cyfweliadau lled-strwythuredig, un-i-un, o bell gyda'r rhanddeiliaid, rheolwyr gwasanaeth, ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaeth canlynol:

- **Naw uwch-randdeiliad** sydd â'r gallu i wneud penderfyniadau ynghylch y fframweithiau cyfreithiol, polisi a strategol sy'n effeithio ar wasanaethau cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau cymorth i fenywod yng Nghymru.
- **Wyth rheolwr gwasanaeth** sy'n rheoli trefniadau gweithredol i gefnogi plant a phobl ifanc a menywod Cymru.
- **Saith o ymarferwyr** sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc a menywod o Gymru sydd angen cymorth.
- **Saith o blant a phobl ifanc** (i gyd yn wrywaidd) o dan 18 oed sydd wedi ymgysylltu â gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid.
- **Pedair o fenywod** dros 18 oed sydd wedi derbyn gwasanaethau sy'n cefnogi troseddwyr / cyn-droseddwyr benywaidd.

2.11 Er mwyn darparu ystod o safbwyntiau, roedd y plant a'r bobl ifanc a'r menywod a gyfwelwyd yng ngham tri yn wahanol i'r rhai a gyfwelwyd yng ngham dau. Cawsant

eu dewis ar sail eu profiad o gamau canlynol y system cyfiawnder ieuenctid / system cyfiawnder troseddol:

- Lefel statudol: yn derbyn gorchymyn llys, ond nad yw yn y ddalfa ar hyn o bryd.
- Lefel statudol: yn y ddalfa ar hyn o bryd.
- Lefel statudol: ar ôl cael ei rhyddhau o'r ddalfa: rhyddhau ar drwydded neu sy'n ymwneud ag ailsefydlu neu adsefydlu.

2.12 Derbyniodd holl gyfranogwyr cam dau a thri'r taflenni gwybodaeth bwrpasol cyn y cyfweliadau. Rhoddodd pawb eu caniatâd ysgrifenedig i gymryd rhan yn y cyfweliadau.

2.13 Roedd yr uwch-randdeiliaid, rheolwyr gwasanaeth ac ymarferwyr wedi cael cyfweliadau pwrpasol i adlewyrchu a chanolbwyntio ar y meysydd thematig a’r blaenoriaethau yn y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod, gan archwilio'r canlynol:

- Pwysigrwydd cymharol y meysydd thematig, y blaenoriaethau, a'r canlyniadau yn y Glasbrintiau;
- Y cyfyngiadau a'r ansicrwydd o fewn y Glasbrintiau;
- Ffurf a chwmpas modelau gwerthuso posibl yn y dyfodol: sut y gellir mesur y meysydd thematig, y blaenoriaethau a'r canlyniadau orau;
- Yr heriau a all fodoli o ran cyflawni’r Glasbrintiau (yn enwedig mewn perthynas â galluogi cydweithio trawsadrannol a rhyngasiantaethol i hwyluso Dull Systemau Cyfan).

2.14 Roedd y cyfweliadau â phlant a phobl ifanc a menywod yn archwilio'r canlynol:

- Yr hyn a oedd yn 'gweithio'n dda' i blant a phobl ifanc a menywod yn ystod eu hamser mewn cysylltiad â'r Timau Troseddwyr Ifanc / asiantaethau eraill a’r hyn y gellid ei wella o ran prosesau a darpariaeth gwasanaeth;

- Y mathau o wasanaethau a gynigir i blant a phobl ifanc a menywod ac a allai gwasanaethau cyflenwol eraill gael eu nodi ganddynt fel rhai dymunol o fewn y 'dull systemau cyfan' tuag at gyfiawnder;
- Dyheadau plant a phobl ifanc a menywod pan ddônt i gysylltiad â gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a / neu wasanaethau cyfiawnder sy’n canolbwyntio ar fenywod;
- Dealltwriaeth o 'lwyddiant' a nodwyd gan blant a phobl ifanc a menywod sydd wedi dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder;
- Yr hyn y gall plant a phobl ifanc a menywod ei ystyried yn deg o ran eu teithiau a’u hymgysylltiad â darpariaeth gwasanaeth;
- Yr hyn y gellid ei wneud i helpu staff y system cyfiawnder ieuenctid / asiantaethau eraill i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc a menywod.

2.15 Arweiniodd y cyfweliadau hyn at fewnwelediadau ychwanegol a aeth y tu hwnt i gwmpas y prif amcanion, fel y’u rhestrir ym mharagraff 1.8. Fodd bynnag, gall y mewnwelediadau hyn fod yn ddefnyddiol o hyd wrth gynllunio a chyflwyno unrhyw werthusiad o'r Glasbrintiau yn y dyfodol. Felly, mae *Asesiad Gwerthusadwyedd ar gyfer Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru a'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru yn darparu: mewnwelediadau ychwanegol i gefnogi gwerthusiad yn y dyfodol* wedi’i gyhoeddi ochr yn ochr â’r prif adroddiad hwn yn fuan.

**Cam pedwar: Datblygu Modelau Gwerthuso (Rhagfyr 2021-Chwefror 2022)**

2.16 Diben y cam hwn yw myfyrio ar y camau blaenorol i ddylunio chwe model hyfyw ar gyfer gwerthuso’r Glasbrintiau, a gyflwynir yn adran chwech o’r adroddiad hwn.

## 3. Ymarfer mapio ystadegol

3.1 Er mwyn gwerthuso effaith y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod, mae angen sylfaen gywir i fesur yn ei herbyn. Er bod y Glasbrintiau a'r Cynlluniau Gweithredu sy'n cyd-fynd â nhw yn adlewyrchu sut mae'r systemau priodol wedi esblygu, mae yna debygrwydd hefyd yn eu dyheadau a'u hegwyddorion trosfwaol. Yn y bôn, mae'r ddau Lasbrint yn mynegi'r nodau o leihau'r

niferoedd sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, lleihau aildroseddu, a mynd i'r afael â'r angen troseddogenig trwy ddull system gyfan. Felly, roedd angen ystyried yr hyn sydd ar gael yn gyhoeddus ar hyn o bryd fel y man cychwyn er mwyn gallu llunio'r darlun hwn.

*Cyfiawnder Ieuenctid*

3.2 Yn dilyn yr argymhellion gan Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig 2010, mae bwletin blynyddol yr *Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid* yn arwain y defnyddiwr drwy'r llif o blant a phobl ifanc rhwng deg ac 17 oed drwy'r system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr. Mae'r themâu o'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid wedi'u mapio yn erbyn y data cyhoeddedig yn y cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau cysylltiedig y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n ymwneud â sefydliadau diogel. Gan fod y data sylfaenol yn dod yn bennaf gan y Timau Troseddwyr Ifanc unigol, mae'n bosibl cydgrynhoi'r rhain, i raddau, i greu darlun o droseddu yng Nghymru[6]. Fodd bynnag, oherwydd niferoedd isel mewn gwahanol is-garfannau gan gynnwys y rhai a ddiffinnir gan nodweddion gwarchodedig, nid yw bob amser yn bosibl ymchwilio'n ddyfnach i'r prif ffigurau. Yn nodedig, mae hyn yn effeithio'n arbennig ar gyflwyno data o Gymru fesul rhyw / rhywedd ar gyfer y grŵp oedran hwn.

3.3 Mae'r bwlch gwybodaeth mwyaf arwyddocaol yn ymwneud â'r thema dargyfeirio, gyda chyhoeddiadau'n canolbwyntio ar y rhai sydd wedi cael eu cyhuddo. Yn lleol, bydd Timau Troseddwyr Ifanc yn casglu gwybodaeth llif gwaith am y rhai y maent wedi gweithio gyda nhw yr ystyrir eu bod mewn perygl o droseddu. Fodd bynnag, nid yw wedi bod yn bosibl sefydlu natur a graddau hyn.

*Cyfiawnder Menywod*

3.4 Mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi ystadegau cyfiawnder troseddol yn ymwneud â rhywedd. Mae'r *Ystadegau ar Fenywod a'r System Cyfiawnder Troseddol* sy'n cael ei gyhoeddi bob dwy flynedd yn cyfuno'r wybodaeth am gynrychiolaeth menywod (a dynion) ymhlith dioddefwyr, rhai a ddrwgdybir, diffynyddion, a throseddwyr o fewn y system cyfiawnder troseddol. Wedi'i gyhoeddi

[6] Mae pennod dau o'r Asesiad Gwerthusadwyedd ar gyfer Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru a'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru: Mapio Ystadegol yn darparu trafodaeth fanylach ar y graddau y mae pob cyhoeddiad yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o gyfiawnder ieuenctid yng Nghymru gan gynnwys a oes modd canfod dadansoddiad yn ôl rhywedd ac ethnigrwydd ai peidio.

ddiwethaf ym mis Tachwedd 2020, mae hefyd yn rhoi manylion ymarferwyr o fewn y system cyfiawnder troseddol. Er mwyn gwneud hyn, mae'n defnyddio amrywiaeth o systemau gweinyddol gwahanol.[7] Mae nifer y ffynonellau, o ran y sefydliadau a'r gwahanol systemau rheoli achosion sy'n cael eu cynnwys, yn ei gwneud yn fwy heriol i lunio darlun o droseddu ymhlith menywod Cymru. Mae'r sefyllfa'n cael ei chymhlethu gan y niferoedd cymharol isel sydd wedi'u cynnwys.

3.5 Ar wahanol gamau yn y system cyfiawnder troseddol, mae mecanweithiau ar waith i gasglu gwybodaeth bersonol am y boblogaeth droseddol er mwyn galluogi dull croestoriadol sydd nid yn unig yn ystyried rhyw / rhywedd, ond hefyd un neu fwy o'r canlynol, sef oedran, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth ac anabledd. O'r nodweddion gwarchodedig, mae'r cyflwyniadau a ddefnyddir amlaf yn ôl grŵp oedran, er bod hyn yn aml er mwyn gwahaniaethu rhwng oedolion a phobl ifanc, yn ôl rhywedd ac yn ôl hil. Yr eithriad i hyn yw data y ddalfa sydd hefyd yn adrodd ar grefydd, cyfeiriadedd rhywiol (lle y'i datgelir) ac anabledd. Darperir ffigurau dangosol ynghylch nifer y carcharorion trawsryweddol er y rhagwelir bod y ffigurau cyhoeddedig yn amcangyfrif rhy isel o'r ffigur gwirioneddol.[8] Mae’r unig ffigurau ynghylch beichiogrwydd a mamolaeth yn ymwneud ag unedau mamau a babanod, er bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwymo i wella ei hadroddiadau.

3.6 Mae cam y system cyfiawnder troseddol y mae'r data'n berthnasol iddo a'r meintiau dan sylw yn dylanwadu ar y lefel ddaearyddol y caiff ei gyflwyno. O ganlyniad, mae’n bosibl cydgrynhoi i Gymru drwy gyfuno data sy’n gysylltiedig â gweinyddu cyfiawnder a chyhoeddir proffil y rhai sydd wedi troseddu mewn ardal heddlu, llys, prawf neu fwrdd cyfiawnder lleol. Fodd bynnag, mae data'r ddalfa yn dueddol o gael ei gyhoeddi fesul sefydliad. Gan nad oes unrhyw garchardai i fenywod yng Nghymru, mae hyn yn ei gwneud yn anodd sefydlu maint y boblogaeth o

[7] Mae pennod tri o’r Asesiad Gwerthusadwyedd ar gyfer Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru a’r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru: Mapio Ystadegol yn darparu trafodaeth fanylach ar y graddau y mae pob cyhoeddiad yn darparu dadansoddiad yn ôl rhywedd ac yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy’n galluogi i ddarlun gael ei greu o droseddu benywaidd yng Nghymru. Yn ogystal, mae’r bennod hon yn cynnwys gwybodaeth am y mathau o ddata a gasglwyd yn y ffynonellau gweinyddol amrywiol a ddefnyddiwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (ac eraill) y gellid eu defnyddio i roi darlun mwy cyflawn.

[8] Gwahaniaethir rhwng yr unigolion hynny sydd mewn carchardai ar hyn o bryd ac rydym yn gwybod eu bod yn byw, neu’n cyflwyno'i hun fel rhyw sy'n wahanol i'r rhyw a bennwyd adeg eu geni ac sydd wedi cael bwrdd achos lleol, a’r rhai sydd eisoes wedi trawsnewid ac sydd â Thystysgrif Cydnabod Rhywedd lawn.

garcharorion yng Nghymru sy'n fenywod. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dibynnu ar y lle y treuliodd y carcharor y noson cyn ei dderbyn i weld a yw'r carcharor yn hanu o Gymru. Os nodir hyn yn 'Heb Gartref Sefydlog', defnyddir lleoliad y llys lle dedfrydwyd yr unigolyn. Mae'r sefyllfa'n wahanol ym maes Cyfiawnder Ieuenctid oherwydd bod maes penodol o fewn y System Rheoli Achosion (CMS) ar gyfer cofnodi a yw'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn byw yn yr un awdurdod lleol â'r Tîm Troseddwyr Ifanc sy'n gweithio gyda nhw.

3.7 Yn wahanol i'r data ar gyfer troseddwyr ifanc a gyhoeddir yn rheolaidd ar lefel y Tîm Troseddwyr Ifanc lleol ochr yn ochr â'r ystadegau blynyddol, mae data is-genedlaethol mwy cyfyngedig wedi'i gyhoeddi ar gyfer troseddwyr benywaidd. Yn ogystal, mae'r newidiadau strwythurol sy'n gysylltiedig â'r pontio o'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr i'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ac uno'r Gwasanaeth Prawf yng Nghymru wedi arwain at anghysondebau o ran casglu data sy'n effeithio ar y gallu i fonitro'r llifoedd drwy'r system cyfiawnder troseddol ar gyfer rhai agweddau o berfformiad dros amser. Mae hyn wedi cael mwy o effaith ar droseddu oedolion.

3.8 Mae data hefyd yn cael ei gadw'n lleol gan wahanol sefydliadau cyfiawnder troseddol sydd â'r potensial i gyfrannu at ddeall y darlun presennol, yn enwedig mewn perthynas â dargyfeirio ac atal. Mae hyn yn cynnwys data gan yr heddlu a gwasanaethau a gomisiynir yn ogystal â'r gwasanaeth prawf a'r llysoedd. Byddai angen trafod mynediad at y data hwn gyda pherchnogion y data priodol. Mae'n ddiddorol nodi mai cyfrifoldeb y Swyddfa Gartref yn hytrach na'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yw data'r heddlu. Yn ogystal â'r materion llywodraethu data, byddai hefyd angen ystyried y baich a roddir ar y sefydliadau priodol i ymateb i geisiadau.

*Grwpiau Lleiafrifol a Blaenoriaeth*

3.9 Gwnaeth Adolygiadau Lammy (2017) ac Adolygiad Laming (Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai, 2016), yn y drefn honno, dynnu sylw at y ffaith er bod plant sy'n derbyn gofal a phobl o leiafrifoedd ethnig[9] wedi'u gorgynrychioli yn y system

[9] Er bod y term 'hil ac ethnig lleiafrifol' yn cael ei ffafrio yn lle 'lleiafrif ethnig' neu 'bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig' (BAME) gan rai, ac fe'i gwelir mewn dyfyniadau yn yr adroddiad hwn, defnyddir 'lleiafrif ethnig' mewn mannau eraill yn yr adroddiad.

cyfiawnder troseddol, nid yw'r rhain yn grwpiau homogenaidd. Drwy drin y ddau grŵp hyn fel rhai homogenaidd, mae'n cuddio'r lefelau o wahaniaethau sy'n bodoli, yn methu â chydnabod effaith barhaus Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (PNYP), ac amgylchiadau unigol. Mae hyn hefyd yn wir ymhlith troseddwyr sy'n oedolion. O ganlyniad i'r adolygiadau hyn, mae mwy o bwyslais bellach ar gyflwyno data ynghylch ethnigrwydd a mwy o ymwybyddiaeth o'r angen i fabwysiadu dull croestoriadol. Mae rhyddhau data Cyfrifiad 2021 yn gyfle i sefydlu i ba raddau y mae'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwahanol yn cael eu gorgynrychioli o gymharu â phroffil y boblogaeth leol.

3.10 Mae casglu data am y nodweddion gwarchodedig fel mater o drefn mewn modd cyson yn caniatáu cymariaethau rhwng asiantaethau a hefyd ar draws y system cyfiawnder troseddol a thu hwnt. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo gwasanaethau a gomisiynir a / neu ddulliau amlasiantaethol, megis gweithio gydag iechyd, gwasanaethau cymdeithasol neu addysg. Mae dau fecanwaith yn bodoli ar gyfer hyn, sef: defnyddio'r cwestiynau cyson a ddatblygwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a Chatalog Safonau Data Cyfnewid y System Cyfiawnder Troseddol. Mae'r olaf o'r ddau yn gosod set o safonau data y cytunwyd arnynt yn gyffredin i gefnogi cyfathrebu TGCh rhwng y systemau a ddefnyddir gan sefydliadau cyfiawnder troseddol. Mae defnyddio'r rhain, er enghraifft wrth ddyfeisio ffurflenni atgyfeirio a / neu asesu, felly'n allweddol os yw iaith gyffredin yn cael ei datblygu ar draws gwahanol feysydd polisi. Mae hyn yn fwy o broblem yng nghyd-destun troseddu oedolion gan fod y Fframwaith Cymhwyso Cyfiawnder Ieuenctid[10] bellach wedi hen sefydlu ar draws y system cyfiawnder ieuenctid.

3.11 Gan fod dyddiad geni yn cael ei gofnodi at ddibenion adnabod, mae oedran y troseddwr fel arfer yn hysbys neu'n gallu cael ei gyfrifo. Fodd bynnag, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn defnyddio rhyw yn hytrach na rhywedd, gan adlewyrchu'r ffordd y caiff unigolion eu trin o fewn cyfnodau gwahanol y system

[10] Mae'r Fframwaith Cymhwyso Cyfiawnder Ieuenctid yn blatfform ar-lein a grëwyd i Dimau Troseddwyr Ifanc a sefydliadau diogel gyfathrebu'n effeithiol (gan gynnwys rhannu AssetPlus, cofnodion dyddiadur achos ac ati) a lawrlwytho dogfennau ffurfiol a thempledi o'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid nad ydynt yn addas i'w rhannu â'r cyhoedd yn gyffredinol. Cafodd y System Rheoli Gwybodaeth Cyfiawnder Ieuenctid ei disodli gan y Fframwaith Cymhwyso Cyfiawnder Ieuenctid ym mis Ebrill 2015. Mae'r system hefyd yn cynnwys data cryno a lefel achos ar blant a phlant a phobl ifanc a gafodd rybudd neu ddedfryd am drosedd.

gyfiawnder. Mae hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd yn tueddu i ddibynnu ar hunanddiffinio. Mae hyn hefyd yn wir gydag aelodaeth o grwpiau blaenoriaeth Rheoli Troseddwyr Integredig[11]. Er bod rhwymedigaethau deddfwriaethol a statudol yn gysylltiedig â grwpiau blaenoriaeth Rheoli Troseddwyr Integredig Cymru, mae effeithiolrwydd mentrau a anelir yn benodol at y grwpiau hyn yn dibynnu ar gofnodi aelodaeth yn gywir a chyson fel y gellir monitro cynnydd yn erbyn metrigau o gymharu â grwpiau eraill.

*Yn agored i niwed*

3.12 Mae ymwybyddiaeth gynyddol o effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, niwroanabledd, cam-drin, salwch meddwl a chaethiwed yn golygu bod cwestiynau perthnasol bellach yn cael eu gofyn yn rheolaidd gan ymarferwyr fel rhan o asesiadau parhaus ac yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau dedfrydu. Mae'r data hwn, a gasglwyd mewn systemau fel AssetPlus a'r System Asesu Troseddwyr (OASys), yn helpu i lywio dealltwriaeth o gymhlethdod bywydau'r rhai sydd wedi troseddu ac felly'n llywio ymatebion ar draws y system cyfiawnder troseddol ehangach. Yng nghyd-destun y rhai yr ystyrir eu bod mewn perygl o droseddu a'r rhai sy'n ymwneud â throseddau llai difrifol, mae angen deall hefyd y berthynas rhwng amgylchiadau unigolion, materion strwythurol megis tlodi a'u hymddygiad troseddol. Yn ogystal â chasglu data demograffig yn systematig, mae newid blaengar tuag at system cyfiawnder troseddol tecach a mwy cyfartal yn golygu bod angen sefydlu anghenion a gwendidau'r boblogaeth.

3.13 Mae'r ddau Lasbrint yn cydnabod cymhlethdod anghenion y boblogaeth droseddol, gan nodi strategaethau ar gyfer hybu ymwybyddiaeth o'r anghenion hyn a datblygu ymatebion priodol ac amserol. Fel y cyfryw, mae camau gweithredu penodol yn y Cynlluniau Gweithredu priodol sy'n gysylltiedig â chyflwyno gwerthusiadau comisiynu o fentrau allweddol. Bydd gwybodaeth am y rhain yn llywio'r sylfaen dystiolaeth yn enwedig yng nghyd-destun y themâu dargyfeirio / ymyrraeth gynnar ac atal, a chymunedol lle nad oes llawer o ystadegau swyddogol ar hyn o bryd.

[11] Mae'r 'Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru 2018-2023' yn amlinellu chwe grŵp blaenoriaeth i bartneriaid ganolbwyntio eu hymdrechion cydweithredol arnynt.

3.14 Mae asesiadau o fod yn agored i niwed yn rhan o'r asesiadau cyfiawnder ieuenctid a throseddau menywod a wneir gan ymarferwyr ar wahanol gamau o'r system cyfiawnder troseddol. Yng nghyd-destun cyfiawnder ieuenctid, mae ystadegau arbrofol y bwletin o'r enw *Asesu Anghenion Plant sy'n cael eu Dedfrydu* a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r bwletin blynyddol, *Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid* yn 2020 a 2021, yn cynnwys dadansoddiad penodol ar gyfer Cymru gan roi'r nifer a'r gyfran sy'n profi'r mathau o bryder yn ôl oedran, rhywedd a hil. Cedwir gwybodaeth fanylach gan Dimau Troseddwyr Ifanc unigol Cymru. Mae Gwasanaeth Prawf Cymru hefyd yn casglu gwybodaeth am anghenion troseddogenig gan ddefnyddio'r System Asesu Troseddwyr. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi. Mae'r data arbrofol ynghylch Cyswllt a Dargyfeirio a oedd yn rhan o'r datganiad *Ystadegau ar Fenywod a'r System Cyfiawnder Troseddol* yn rhoi syniad o'r hyn a allai fod yn bosibl. Fodd bynnag, mae hyn yn seiliedig ar ddata gan y GIG yn Lloegr.

3.15 Os bydd angen cefnogi unigolyn wrth iddo deithio drwy'r system cyfiawnder troseddol, mae'n bwysig bod gwybodaeth am ei anghenion yn cael ei chynnwys hefyd. Mae gorfod casglu'r wybodaeth hon dro ar ôl tro yn rhoi baich sylweddol ar yr ymarferwyr a'r unigolyn. Felly, mae angen sicrhau cydbwysedd priodol rhwng rhannu gwybodaeth rhwng (ac o fewn) yr asiantaethau a sicrhau bod systemau yn adlewyrchu sut mae amgylchiadau wedi newid dros amser. Mae cyfleoedd i asesu llif yr wybodaeth a nodi lle mae cyfleoedd i wella effeithiolrwydd ac amseroldeb yr wybodaeth a rennir. Y man cychwyn ar gyfer hyn yw'r pwyntiau pontio allweddol, e.e., rhwng yr heddlu a'r llysoedd ac ar ôl rhyddhau o'r carchar. Fodd bynnag, mae'r un mor bwysig deall pa mor effeithiol yw'r llif gwybodaeth rhwng y system cyfiawnder troseddol ac asiantaethau eraill, yn enwedig mewn perthynas â throseddwyr ag anghenion iechyd meddwl a / neu anghenion ynghylch camddefnyddio sylweddau. Yn ogystal â'r angen i gynnwys gwybodaeth amlasiantaethol mewn adroddiadau cyn-dedfrydu, gall ymwybyddiaeth o'r materion hyn effeithio ar benderfyniadau ynghylch addasrwydd rhaglenni ac ymyriadau penodol. Nid yn unig y mae goblygiadau i hyn o ran asesu a oes bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir, ond mae angen ystyried y lefelau gwahanol o angen

ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan mewn ymyriadau wrth werthuso eu heffeithiolrwydd o ran atal / lleihau ymddygiad troseddol.

*Dangosyddion a Metrigau*

3.16 Yn ogystal â'r data llif gwaith sy'n bodoli ar wahanol adegau yn y system cyfiawnder troseddol sy'n darparu tueddiadau o amgylch y niferoedd dan sylw a chyfraddau aildroseddu, adroddir ar lu o ddangosyddion gwahanol gan yr asiantaethau amrywiol sy'n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder. Mae’r rhain yn cynnwys mesurau o ddiffyg cydymffurfio megis cyswllt â’r heddlu, achosion o dorri amodau a galw’n ôl, ac yn aml cânt eu dadansoddi fesul grŵp demograffig allweddol a / neu aelodaeth (neu fel arall) o grwpiau blaenoriaeth fel y gellir monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth.[12] Mae'r rhain yn fan cychwyn ar gyfer ystyried pa fetrigau allai fod y pwysicaf i fesur effeithiolrwydd y gweithgareddau a nodir yn y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod. Ar ôl nodi nifer o is-garfannau a grwpiau blaenoriaeth, rhan bwysig o'r broses sylfaenol yw sefydlu proffil y grwpiau hyn a chael ymdeimlad o gyfraddau aildroseddu fesul dedfryd a / neu fath o drosedd.

3.17 Her allweddol yma yw'r niferoedd cymharol fach sydd dan sylw gan y gallai hyn olygu y gallai'r ffigurau a adroddir ddisgyn i lefel lle byddent yn destun ataliad ystadegol, yn enwedig o'u cyflwyno ar lefel leol. Gall trosi niferoedd bach yn gyfraddau hefyd achosi problemau dros amser oherwydd y gall tueddiadau fod yn amrywiol iawn o fis i fis (neu hyd yn oed o flwyddyn i flwyddyn). Gwnaeth Lammy argymell defnyddio’r Mynegai Cyfradd Cymharol i wneud cymariaethau o’r gwahaniaeth cymharol mewn cyfraddau rhwng dwy boblogaeth sefydlog. Er iddo wneud hyn yng nghyd-destun ystyried profiadau grwpiau lleiafrifoedd ethnig, gellir defnyddio'r dull hwn hefyd wrth gymharu unrhyw grwpiau lleiafrifol neu grwpiau blaenoriaeth â'r 'mwyafrif’.

[12] Mae pennod pedwar o'r Asesiad Gwerthusadwyedd ar gyfer Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru a’r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru: Mapio Ystadegol yn darparu trafodaeth fanylach ar y dangosyddion a'r metrigau presennol gan gynnwys y rhai a ddefnyddir i fesur perfformiad iechyd y cyhoedd. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth am y gyfres o fesurau a ddefnyddir i fonitro tegwch ac effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol.

3.18 O ystyried y pwyslais ar y dull system gyfan, mae cyfleoedd hefyd i addasu metrigau presennol o feysydd polisi eraill. Er enghraifft, tan yn ddiweddar, roedd Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru (WYJI) a oedd yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yn cael cymorth amserol ar gyfer eu problemau ynghylch camddefnyddio sylweddau[13]. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn adlewyrchu 'llwyddiant' y cymorth hwn. Er hynny, mae mesur perfformiad iechyd y cyhoedd y gellid ei addasu i wneud hyn. Roedd Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru tebyg yn bodoli mewn perthynas ag atgyfeiriadau am gymorth iechyd meddwl. Mae lle i fabwysiadu'r mesurau hyn ar gyfer y boblogaeth sy'n troseddu sy'n fenywod a / neu i'r rhain gael eu defnyddio fel templed ar gyfer mathau eraill o ymyrraeth.

*Cyfleoedd*

3.19 Bydd data o Gyfrifiad 2021 ar gael o fis Mawrth 2023 gan roi cyfle i sefydlu i ba raddau y mae gwahanol grwpiau wedi'u tangynrychioli / gorgynrychioli ar wahanol adegau yn y system cyfiawnder troseddol. Yn ogystal â chwestiynau'n cael eu gofyn am y nodweddion gwarchodedig, sy'n galluogi i ddull croestoriadol gael ei fabwysiadu, gofynnwyd cwestiynau hefyd am y defnydd o'r Gymraeg, ac am y tro cyntaf, os yw'r unigolyn yn gyn-aelod o'r lluoedd arfog. Bydd cael data manwl ar lefel leol yn helpu i dargedu adnoddau.

3.20 Mae camau sylweddol yn cael eu cymryd hefyd mewn perthynas â chysylltu'r data a gesglir fel mater o drefn gan gynnwys data gan y system cyfiawnder troseddol. Mae dau ddatblygiad yn darparu cyfleoedd i wella'r dystiolaeth sy'n seiliedig ar ddefnyddio data dienw sy'n gysylltiedig â data iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, tai a budd-daliadau posibl. Y cyntaf o'r rhain yw data Adran Addysg y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Er bod hyn yn berthnasol i Loegr yn unig, mae yna themâu cyffredin a all lywio'r farn yng Nghymru. Yr ail yw'r prosiect Data yn Gyntaf. Mae Data yn Gyntaf wedi'i ariannu gan bartneriaeth Ymchwil Data Gweinyddol yn y DU. Mae'n brosiect tair blynedd sy'n rhedeg tan 2022 ar hyn o bryd, gyda chynlluniau i rannu gwahanol setiau data cyfiawnder troseddol, sifil a theulu drwy gydol ei gyfnod. Daethpwyd â setiau data cyntaf o'r rhaglen Data yn Gyntaf i gronfa

[13] Mae adolygiad o ddangosyddion a ddefnyddir yn y system cyfiawnder ieuenctid ar waith ar hyn o bryd o dan arweiniad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

ddata'r Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw yn ddiweddar gan alluogi i ddata o'r llysoedd teulu gael ei gysylltu â data gwasanaethau cymdeithasol a data Cafcass (Cymru a Lloegr) a data sy'n benodol i Gymru. Rhagwelir y bydd setiau data cyfiawnder troseddol yn dilyn hyn yn fuan[14]. Unwaith y bydd wedi'i ddarparu, bydd hyn yn galluogi ymchwilwyr sydd wedi'u hachredu o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 a all ddangos bod eu hymchwil er budd y cyhoedd, i gysylltu â setiau data eraill a gedwir yng nghronfa ddata'r Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â meysydd polisi datganoledig.

3.21 Mae cysylltiadau â setiau data eraill o adrannau eraill y llywodraeth, gan gynnwys data'r Adran Gwaith a Phensiynau, hefyd yn cael eu harchwilio. Yn nodedig, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio gyda'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Iechyd Cyhoeddus Lloegr, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cysylltu data ar y bobl sy'n agored i niwed. Nod y rhaglen Gwell Canlyniadau drwy Ddata Cysylltiol (BOLD)[15] yw darparu gwasanaethau mwy cydgysylltiedig a gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer creu polisïau a gwneud penderfyniadau gweithredol. Deellir ei fod wedi dechrau prosiect darganfod tri mis, gyda chyllideb o £1.4 miliwn, i gwmpasu a chreu strategaeth ar gyfer y rhaglen tair blynedd (Digital Marketplace, 2021). Er bod amseriad y rhaglen hon yn golygu efallai na fydd y data ar gael i lywio gwerthusiad o'r Glasbrintiau, o safbwynt llywodraethu data, rhagwelir y bydd BOLD yn agor y drws i gyfleoedd cysylltu data eraill wrth i adrannau'r llywodraeth ddechrau ar y broses o baratoi i rannu eu data mewn amgylcheddau ymchwil dibynadwy fel cronfa ddata'r Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw. Bydd defnydd

[14] Ar adeg ysgrifennu hwn, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi sicrhau bod data llysoedd ynadon, llys y goron, carchardai a'r cyfnod prawf ar gael drwy Wasanaeth Ymchwil Diogel y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae ymchwilwyr sydd wedi'u hachredu o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 yn gallu gwneud cais i ddefnyddio hwn i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r system cyfiawnder troseddol ledled Cymru a Lloegr. Er bod setiau data carchardai a'r cyfnod prawf yn ymwneud ag oedolion yn unig, mae data'r llys yn cynnwys manylion achosion sy'n ymwneud ag oedolion a phobl ifanc. Mae'r ffordd y mae'r data o'r rhaglen Data yn Gyntaf yng Ngasanaeth Ymchwil Diogel y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'i baratoi yn golygu nad yw'n bosibl ei gysylltu â setiau data eraill. Mewn cyferbyniad, mae data a ddarparwyd i'w ddefnyddio yng nghronfa ddata'r Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw yn cynnwys maes cyswllt dienw sy'n galluogi cysylltu â data o feysydd polisi eraill, yn amodol ar gymeradwyaeth gan berchnogion y data perthnasol trwy'r Panel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth.

[15]Mae BOLD yn defnyddio data heb ei nodi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a Llywodraeth Cymru i ddangos sut y gall ei gysylltu wella cymorth i bobl ag anghenion cymhleth. Mae'n ychwanegu at y dysgu o fentrau eraill, megis Ymchwil Data Gweinyddol y DU, a bydd yn cael ei gynnal tan ddiwedd 2024.

cynyddol o wahanol setiau data gweinyddol at ddibenion ymchwil hefyd yn ysgogi arloesedd o ran technegau dienw a dadansoddi.

## 4. Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru

4.1 Yn yr adran hon, rydym yn trafod canfyddiadau'r cyfweliadau â rhanddeiliaid a phlant a phobl ifanc am bwysigrwydd, heriau, cyfyngiadau, ansicrwydd a gwerthuso pob un o flaenoriaethau'r Glaslun ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid. Rhoddir sylw i bob blaenoriaeth yn ei thro: atal; dargyfeirio cyn mynd i'r llys; cymuned; y ddalfa; ac ailsefydlu a phontio.

4.2 Yn wreiddiol, cynhwyswyd goruchwyliaeth o'r system fel blaenoriaeth yn y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid ond mae wedi dod i ben ers cynnal yr ymchwil hwn. Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd pa olwg ddylai fod ar oruchwyliaeth o'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, a cheir crynodeb o'u hadborth yn yr atodiad ar wahân i'r adroddiad hwn.

**Atal**

4.3 Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn diffinio atal fel 'Cymorth ac ymyrraeth gyda phlant (a'u rhieni / gofalwyr) a all fod yn ymddwyn mewn ffyrdd a allai ddangos anghenion sylfaenol neu fod yn agored i niwed. Yn ymarferol, mae hyn yn cynnwys dull haenog o **atal yn gynnar** a **gweithgarwch atal wedi'i dargedu**, gyda'r nod o fynd i'r afael ag anghenion nas diwallwyd, diogelu, hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol, ac atal plant rhag ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid ffurfiol' (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2021).

> Mae'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yn nodi y dylid parhau i flaenoriaethu gweithgarwch atal wedi'i dargedu yng Nghymru trwy gyllid penodedig i atal plant a phobl ifanc rhag mynd i'r system cyfiawnder ieuenctid.
>
> Mae'n nodi y dylid gwneud hyn drwy alinio gwasanaethau ataliol a gynigir i blant a phobl ifanc â'r rheini sy'n ceisio gostwng nifer y plant sy'n derbyn gofal; atal gwaharddiadau o'r ysgol; a digartrefedd. Mae'r cynlluniau gweithredu Glasbrint dilynol hefyd yn argymell datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer gweithgarwch atal wedi'i dargedu gan y Tîm Troseddwyr Ifanc.

Lle y bo'n bosibl, dylid datblygu dull effeithiol o fonitro gweithgarwch atal hefyd i ddangos effaith ac alinio'r broses o adrodd i Lywodraeth Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Chomisiynwyr Troseddau.

*Heriau, cyfyngiadau ac ansicrwydd o ran atal*

4.4 Gwnaeth y rhanddeiliaid dynnu sylw at amrywiaeth o heriau, cyfyngiadau ac ansicrwydd allweddol yn ymwneud â'r flaenoriaeth atal yn y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid.

4.5 Soniodd sawl un am yr angen i ddiffinio'n glir pa weithgareddau a dulliau gweithredu sydd wedi'u cynnwys mewn dulliau atal er mwyn eu targedu'n briodol a sicrhau'r budd mwyaf posibl i ddefnyddwyr gwasanaeth ac o ran bod yn gost-effeithiol. Dywedwyd bod gwahaniaethu rhwng atal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, yn unol â dull iechyd y cyhoedd, yn hollbwysig, yn ogystal â gwahanu atal a dargyfeirio.

> *'Mae angen i ni feddwl am sut olwg sydd ar ddull iechyd cyhoeddus o ran atal? Mae angen ystyried yr agweddau sylfaenol, eilaidd a thrydyddol ar yr hyn y mae atal yn ei olygu, ac yna, ble mae atal plant rhag dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid yn cyd-fynd â hynny wedyn? Felly, nid dyma'r Glasbrint yn gwneud rhywbeth am atal ar ei ben ei hun; mae wir yn meddwl amdano ar y sylfaen strategol ehangach'*

4.6 Teimlai eraill fod angen gwaith cydweithredu cryf neu gryfach rhwng asiantaethau sy'n darparu gweithgareddau atal, a rhwng y cyrff statudol sy'n gyfrifol am eu comisiynu. Dywedwyd bod cydnabod eu rôl yn y gweithgareddau hyn a'u cyfraniad atynt yn hollbwysig, ynghyd â chyfathrebu clir a chyson, a gweledigaeth ar y cyd o'u strwythur a'u diben.

> *'Rwy'n meddwl am y rhannau o'r sector sy'n amlwg yn ymwneud â chyfiawnder, yna mae'n haws eu cael i ymrwymo. Mae'n rhan o'r hyn y dylen nhw fod yn ei wneud beth bynnag. Ond wedyn, pan fyddwch chi'n sôn am feysydd ehangach fel tai, iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft, gall fod yn anodd cydnabod bod ganddyn nhw'r rôl honno i'w chwarae, neu eu perswadio i gydnabod bod ganddyn nhw'r rôl honno i'w chwarae yn yr agenda ar gyfer atal ac ymyrraeth gynnar'*

4.7 Ystyriwyd bod cryfhau cysylltiadau â phartneriaethau diogelwch cymunedol yn bwysig i wella gwasanaethau atal. Dywedwyd hefyd bod ehangu rôl addysg / ysgolion a gwaith ieuenctid a meithrin mwy o gysylltiadau â gwasanaethau troseddau ieuenctid ar gyfer plant a phobl ifanc a waharddwyd o'r ysgol neu a oedd mewn perygl o gael eu gwahardd yn ganolog i hyn.

4.8 Trafodwyd sawl her yn ymwneud ag argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau atal i blant a phobl ifanc. Roedd cael yr ymyriadau, y gwasanaethau a'r llwybrau cywir ar waith i ddiwallu anghenion unigolion yn allweddol. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r angen am staff mwy medrus fel nyrsys iechyd meddwl, arbenigwyr camddefnyddio sylweddau, a seicolegwyr. Pwysleisiwyd hefyd yr angen am wasanaethau sy'n ymateb i rywedd a ddyluniwyd ar gyfer menywod a merched.

> *‘Rwy'n meddwl ei bod yn llawer haws gyda phlant a phobl ifanc yn yr ystyr y gallwch barhau i uwchraddio gweithwyr proffesiynol, gallwch barhau i ddatblygu gwasanaethau ymyrraeth gynnar a meithrin gallu cyfiawnder ieuenctid o fewn strwythurau ymyrraeth gynnar sy'n bodoli eisoes ... parhau i hysbysebu'r gwasanaethau sydd ar gael mewn Timau Troseddwyr Ifanc oherwydd y credaf fod hynny’n cael ei gamddeall yn aruthrol … Ond gydag oedolion, credaf mai’r cyfan sy’n rhaid i chi ei wneud yw dibynnu ar ymyriadau cymunedol [ac] adnabod’*

4.9 Yn ôl rhai o'r rhanddeiliaid, roedd pandemig COVID-19 wedi ei gwneud yn anos i ddarparu gwasanaethau atal. Dywedwyd y gallai gwneud mwy o ddefnydd o lwyfannau cyflenwi rhithwir helpu i liniaru'r her hon.

4.10 O ran ffocws y gwasanaethau atal, nodwyd bod gwella deialog, cynllunio a chysylltiadau rhwng y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod i gefnogi pobl ifanc rhwng 18 a 25 oed yn her. Nodwyd hefyd y dylid ystyried y cynnydd diweddar mewn trais difrifol ymhlith plant a phobl ifanc yn y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid.

4.11 Yn ôl nifer o randdeiliad, mae staffio ac adnoddau'n un o’r heriau allweddol sy’n wynebu gweithgarwch atal ym maes cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. Er mwyn cynnal a gwella gwasanaethau atal, pwysleisiwyd yr angen i hyfforddi ac uwchsgilio staff cyflenwi. Ystyriwyd bod cael cefnogaeth strategol ac ymrwymiad parhaus ar draws holl ffrydiau gwaith y Glasbrint yn ganolog i’w llwyddiant, yn enwedig pan

fydd gweinidogion a llywodraethau'n newid. Roedd meithrin cydweithio, cydberthnasau, a gweledigaeth a rennir rhwng llywodraethau Cymru a'r DU hefyd yn cael ei ystyried yn allweddol i sicrhau bod atal yn parhau i fod ar yr agenda.

4.12 Yn ôl rhai rhanddeiliaid, roedd cael cyllid cynaliadwy i ddarparu a gwella gwasanaethau yn hanfodol, gyda rhai ohonynt hefyd yn ystyried cost-effeithiolrwydd atal. Dywedwyd hefyd ei bod yn bwysig cydgysylltu cyllid ac adnoddau i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau'n berthnasol ac nad oeddent yn cael eu dyblygu wrth symud ymlaen.

> *'Mae nifer o bartneriaid comisiynu yn y maes hwnnw [ond] nid oes llawer o waith cydlynu o ran y cyllid priodol, os o gwbl, a gall hynny arwain at ddyblygu, bylchau, a rhoi pwysau ar bartneriaid cyflenwi yn gorfod adrodd ar gyllidwyr lluosog a meysydd cyflenwi lluosog.'*

4.13 Codwyd y gystadleuaeth gynyddol am adnoddau rhwng asiantaethau partner fel her ychwanegol. Dywedwyd y gellid mynd i'r afael â hyn drwy weithio mewn partneriaeth gref a pherchnogaeth ar y cyd ar draws yr holl asiantaethau perthnasol. Byddai gwella strwythurau atebolrwydd cyllido yn meithrin dealltwriaeth o ble roedd arian yn cael ei wario ar wasanaethau atal ac yn eu galluogi i greu darlun cliriach o effaith y cyllid hwn.

4.14 Dywedwyd ei bod yn anodd i asiantaethau partner nodi'r rhai sydd angen gwasanaethau atal. Teimlai'r rhanddeiliaid hefyd y gallai ysgolion helpu i gryfhau dulliau atal drwy leihau gwaharddiadau a gweithio gyda gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid drwy ymyrryd yn gynnar i nodi a chefnogi plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o fynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid.

4.15 Yn ôl rhai rhanddeiliaid, roedd natur wirfoddol rhai gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar yn ei gwneud yn anoddach ymgysylltu â'r rhai yr oedd eu hangen arnynt. Dywedwyd bod y gwasanaethau a ddarparwyd i'r rhai a oedd ymhellach i mewn yn y system cyfiawnder ieuenctid wedi ymgysylltu'n well oherwydd eu natur statudol.

*Gwerthuso dulliau atal*

4.16 Awgrymodd y rhanddeiliaid ystod o fesurau canlyniadau ar gyfer gwerthuso blaenoriaeth dulliau atal y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid. Rhestrir y rhain yn adran 6.

4.17 Nododd y rhanddeiliaid yr **ystyriaethau** canlynol ar gyfer gwerthuso dulliau atal:

- Cyfeiriodd rhai o'r rhanddeiliaid at yr angen i ailfeddwl sut mae atal yn cael ei fesur. Roeddent o'r farn bod y mesurau atal sydd ar waith ar hyn o bryd yn gyfyngedig ac wedi dyddio, tra bod eraill yn ystyried bod y mesurau'n ddefnyddiol, er enghraifft rheoli perfformiad a fframweithiau arolygu gwasanaethau;
- Mae nodi mesurau canlyniadau meintiol ar gyfer gwasanaethau atal yn heriol oherwydd, 'Sut yr ydych yn mesur rhywbeth yr ydych yn ei atal rhag digwydd?';
- Gall fod yn anodd nodi'r bobl hynny sydd wir yn dechrau yn y system am y tro cyntaf oherwydd y gallai plant a phobl ifanc fod wedi cael eu dargyfeirio o'r SCI yn y gorffennol;
- Mae'r gwaith o ddatblygu fframwaith amlasiantaethol a rennir o ran canlyniadau ar gyfer atal yn cael ei gymhlethu gan natur y gwasanaethau datganoledig a'r gwasanaethau heb eu datganoli dan sylw.

4.18 Yn y tabl a ganlyn, rydym yn cyfuno canfyddiadau'r cyfweliadau â rhai'r ymarfer mapio ystadegol a gynhaliwyd gennym yng ngham 1 yr AG hwn i lunio rhai argymhellion ar gyfer gwerthuso atal.

- Cyhoeddir data'r Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru ar gyfer ymgysylltiad ag Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth (ETE), mynediad at lety addas, camddefnyddio sylweddau, a gwasanaethau iechyd meddwl ochr yn ochr â Bwletinau Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid blynyddol. Mae lle i ddatblygu mesurau cyfatebol i ddangosyddion y Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru i fesur mynediad at wasanaethau eraill sy'n cefnogi anghenion penodol, e.e., therapi lleferydd ac iaith, rhaglenni i wella sgiliau bywyd, ac ati ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau atal. Gan dybio bod data perthnasol yn cael ei gasglu fel mater o

drefn mewn modd cyson, byddai'n bosibl defnyddio'r ffigurau hyn i gael mewnwelediad i unrhyw faterion yn ymwneud â chael mynediad at wasanaethau. Gall data ar amseroedd atgyfeirio am driniaeth ar gyfer gwasanaethau fel CAMHS hefyd helpu i bennu cyflenwad gwasanaethau yn erbyn y galw am wahanol grwpiau a daearyddiaeth.

- Gellid defnyddio mesurau dirprwyol megis presenoldeb yn yr ysgol i asesu ymgysylltiad â'r ysgol. Gellid hefyd defnyddio mesurau sydd wedi'u dilysu ac sy'n cael eu hargymell gan Lywodraeth Cymru fel yr SDQ (Holiadur Cryfderau ac Anawsterau), SWEMWBS (Graddfa Llesiant Meddwl Fer Warwig-Caeredin), CGAS (Graddfa Asesu Fyd-eang Plant), GBO (Canlyniadau Seiliedig ar Nodau), graddfa deg pwynt Cynllun Gofal a Chymorth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a’r CHI-ESQ (Holiadur Profiad Plant o Wasanaeth) i benderfynu a oes gwelliannau wedi’u gwneud o ran iechyd a llesiant plant a phobl ifanc.
- Gall defnyddio pobl sy’n dechrau yn y system am y tro cyntaf i asesu dulliau atal a dargyfeirio achosi problemau oherwydd ei fod yn seiliedig ar droseddu profedig ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu lle bu cysylltiad blaenorol â’r system cyfiawnder troseddol. Dylid ystyried metrig arall i gasglu’r cyswllt cyntaf â’r system cyfiawnder ieuenctid wrth werthuso dulliau atal, gan ddefnyddio’r dull a ddefnyddir mewn Hysbysiadau Dulliau Dadansoddi iechyd y cyhoedd, sy’n ymgorffori diffiniadau cytunedig ar gyfer atal a dargyfeirio, ac sy’n goresgyn unrhyw gofnodi anghyson o ddatrysiadau dargyfeiriol rhwng yr heddlu a’r Timau Troseddwyr Ifanc.
- Gellir dangos arbedion cost o ganlyniad i fentrau atal ond mae'n dibynnu ar y data sydd ar gael a'r gallu i roi gwerth ariannol ar yr effeithiau. Mae data ar gostau ar gyfer rhai mathau o droseddau, erlyniad, a lleoedd mewn carchardai ar gael, a gall fod yn ddefnyddiol ar gyfer hyn.
- Mae'r GIG Cymru yn mesur cyfraddau cwblhau hyfforddiant staff. Gall asiantaethau partner ddefnyddio dulliau tebyg i gasglu cyfraddau cwblhau ar gyfer yr hyfforddiant perthnasol, e.e., ynghylch PNYP, arfer wedi’i llywio gan drawma, a chymwysterau ymarferwyr y bwrdd cyfiawnder ieuenctid.
- Gall cysylltu data wella'r gwerthusiad o atal. Er enghraifft, gallai unigolion sydd wedi cyrchu gwasanaethau neu fentrau gael eu holrhain trwy ddata gweinyddol am gyfnod

a ddiffiniwyd ymlaen llaw (e.e., pum mlynedd) i benderfynu ar aildroseddu, mynediad / ail-fynediad at y ddalfa, ymgysylltu â gwasanaethau, ac ati.

- O ystyried y dymuniad i alinio gwasanaethau atal a gynigir i blant a phobl ifanc (gan gynnwys y rhai sydd wedi'u targedu at leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal, atal gwaharddiadau o'r ysgol a digartrefedd), mae lle hefyd i ddefnyddio'r data gweinyddol i wella dealltwriaeth o lle mae risg a rennir neu sbardunau ymyrraeth.
- Unwaith y bydd y data cyfiawnder troseddol wedi'i ddarparu ym Manc Data'r Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw, trwy gysylltu data'r Tîm Troseddwyr Ifanc / y Weinyddiaeth Gyfiawnder â chofnodion addysg, tai, llys teulu a gwasanaethau cymdeithasol, mae'r potensial i wella dealltwriaeth o anghenion ac amgylchiadau defnyddwyr y gwasanaeth o gwmpas yr amser y maent yn troseddu ac yn y gorffennol. Bydd hyn yn llywio gweithgareddau atal (a dargyfeirio). Ar ôl darparu data o'r llysoedd teulu fel rhan o'r rhaglen Data yn Gyntaf ym mis Gorffennaf 2022, disgwylir y bydd y data troseddol yn dilyn.

**Dargyfeirio cyn mynd i'r llys**

Mae'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yn nodi bod modelau ac arferion presennol o ran dargyfeirio cyn mynd i'r llys yn gryfder ac y dylid parhau i'w cefnogi a'u hariannu oherwydd eu heffaith brofedig o ran lleihau nifer y bobl sy'n dechrau yn y system am y tro cyntaf.

Bydd opsiynau'n cael eu harchwilio i wneud y canlynol:

- Datblygu ymhellach arferion dargyfeiriol a dull mwy cydgysylltiedig o sefydlu arferion cyson sy'n seiliedig ar hawliau ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys hysbysu rhwng yr heddlu a'r Timau Troseddwyr Ifanc pan fydd datrysiadau cymunedol yn cael eu cyhoeddi.

*Heriau, cyfyngiadau ac ansicrwydd o ran dargyfeirio cyn mynd i'r llys*

4.19 Dywedwyd bod dargyfeirio cyn mynd i'r llys yn cyflwyno heriau i blismona. Roedd y rhain yn cynnwys canfod ac atgyfeirio'r rhai yr oedd angen gwasanaethau dargyfeirio arnynt cyn mynd i'r llys (er ei bod yn ymddangos bod cyflwyno'r fframwaith gwarediadau tu allan i'r llys dwy-haen yn Ne Cymru a Gwent wedi helpu i

hwyluso hyn), a rheoli'r gwrthdaro rhwng mabwysiadu dull sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf a'r angen i ganfod troseddau a phrosesu troseddwyr.

*'Un o'r anawsterau mwyaf a ganfyddwn yw'r gwaith gyda'n hasiantaethau partneriaeth ... efallai mai'r heriau a'r rhwystrau yw bod yr heddlu'n canolbwyntio i raddau helaeth ar sicrhau datrysiadau a phrosesu'r plant hynny fel troseddwyr.'*

4.20 Dywedwyd hefyd bod mabwysiadu meddylfryd plentyn-yn-cyntaf, nad yw'n gosbol, yn rhywbeth yr oedd yr heddlu, rhai asiantaethau partner, a'r cyhoedd, yn ei chael yn anodd wrth ystyried atal, ymyrryd yn gynnar, a dargyfeirio cyn mynd i'r llys.

*'Weithiau, mae diffyg dealltwriaeth o'r broses o atal, ymyrryd yn gynnar, a dargyfeirio … mae sylfaen dystiolaeth enfawr y tu ôl i rai o'r penderfyniadau a wneir, ond bydd pobl eto'n dal i feddwl eich bod yn drugarog tuag at droseddu a throseddwyr ac eich bod yn drugarog ar blant a phobl ifanc.'*

4.21 Roedd y rhanddeiliaid yn cydnabod bod yn rhaid i ddargyfeirio cyn mynd i'r llys fodloni anghenion pob plentyn ac unigolyn ifanc yn gyson, gan gynnwys merched, y rhai sy'n derbyn gofal, a phlant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig. Dywedwyd bod rhai dulliau ac ymyriadau wedi'u datblygu'n wreiddiol gan ystyried anghenion bechgyn oherwydd bod y rhan fwyaf o'r rhai sy'n dod i gysylltiad â Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid yn wrywaidd. Fodd bynnag, dywedwyd bod y dull sy'n seiliedig ar gydberthnasau wedi'i lywio gan drawma a hyrwyddir gan y dull Rheoli Achosion Uwch (ECM)[16] a fabwysiadwyd ledled Cymru gan y Timau Troseddwyr Ifanc yn arbennig o effeithiol o ran darparu cymorth a arweinir gan anghenion i bob plentyn ac unigolyn ifanc, waeth beth fo'u cefndir neu eu nodweddion.

4.22 Awgrymodd rhanddeiliaid fod angen gwneud newidiadau i rianta corfforaethol[17] i leihau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal rhag cael eu troseddoli. Gall yr heddlu a gofalwyr hefyd elwa ar hyfforddiant sy'n amlygu gwendidau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac effaith bosibl eu profiadau ar eu hymddygiad.

[16] Mae Rheoli Achosion Uwch (ECM) yn ddull a arweinir gan seicolegol sy'n cyd-fynd â mentrau eraill sy'n anelu at leihau aildroseddu ymhlith plant a phobl ifanc. Yn seiliedig ar y Model Gwella o Drawma (TRM) (Skuse a Matthew, 2015), mae'n defnyddio fformiwleiddiad achosion amlasiantaethol i ddeall hanes plant, eu hanghenion datblygiadol, eu cryfderau, a'u ffactorau amddiffynnol, i lywio sut mae ymarferwyr y Tîm Troseddwyr Ifanc yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc i gyflawni canlyniadau gwell.
[17] Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Protocol Cymru Gyfan: lleihau nifer y plant ac oedolion ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael eu troseddoli.

*'Plant, yn enwedig y rhai mewn gofal preswyl, sy'n cael eu huwchgyfeirio drwy'r system oherwydd … efallai eu bod wedi ymosod ar aelod o staff, neu efallai eu bod wedi achosi rhywfaint o ddifrod troseddol … i'r lle maent yn byw. Ac rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni ofyn i ni'n hunain bob amser, beth fyddai ymateb rhiant i'r math hwnnw o ymddygiad? Ac ai cynnwys yr heddlu fyddai hynny? Naw gwaith allan o ddeg, nid hynny fyddai'r ymateb, mae'n debyg.'*

4.23 Yn ôl rhai rhanddeiliaid, mae mwy o ddefnydd o ddatrysiadau y tu allan i'r llys ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal o gymharu â'r rhai nad ydynt yn derbyn gofal. Dywedwyd bod hyn wedi cyfrannu at droseddoli'r grŵp olaf ac mae angen mynd i'r afael â hyn yn y dyfodol. Yn fwy cyffredinol, pwysleisiwyd y pwysigrwydd o ddefnyddio arolygiadau i fonitro ansawdd a chysondeb datrysiadau y tu allan i'r llys i gynnal cysondeb a hyder yn eu defnydd.

4.24 Er mwyn cynyddu ei effeithiolrwydd wrth ddargyfeirio plant a phobl ifanc oddi wrth y system cyfiawnder ieuenctid ac i gydnabod y materion cymhleth a wynebir gan y rhai sy'n troseddu, roedd peth awgrym y dylai dargyfeirio cyn mynd i'r llys fod ar gael ar gyfer aildroseddu, ar gyfer troseddau mwy difrifol, ac ar gyfer plant iau[18].

4.25 Gan adleisio'r adborth ar y flaenoriaeth atal yn y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid, ailadroddodd rhai rhanddeiliaid y ffaith bod angen ymrwymiad a chefnogaeth gymesur gan yr holl asiantaethau i sicrhau effeithiolrwydd parhaus a gweithrediad cyson ar gyfer dargyfeirio cyn mynd i'r llys, yn ogystal â mwy o fewnbwn gan wasanaethau cyffredinol, sefydliadau'r trydydd sector, a'r sector gwirfoddol, a phrotocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth gyffredinol (fel y'u cwmpasir gan adran 115 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998).

*'Rwy'n meddwl bod angen gwneud yn siŵr bod pob un o'r sefydliadau sy'n ymwneud â'r mater yn ymrwymo iddo yn yr un ffordd. Felly, rydym yn gwybod bod angen i'r heddlu ei gydnabod fel rhywbeth pwysig ac yn rhywbeth y mae angen iddynt ei flaenoriaethu, ond hefyd bod yr holl wasanaethau troseddau ieuenctid yn gwneud yr un peth fel nad yw'n rhywbeth sy'n cael ei gymhwyso'n anghyson.'*

---

[18]Cyflwynodd Deddf Cymorth Gyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 fframwaith ar gyfer dargyfeirio a datrysiadau y tu allan i'r llys. Gellir dadlau ei fod yn mynd rhywfaint o'r ffordd i leihau troseddoli o ran plant.

4.26 Er mwyn cyflawni hyn, gwnaeth rhai o'r rhanddeiliaid dynnu sylw at yr angen i ddiffinio'r amcanion a'r gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn y dargyfeiriad cyn mynd i'r llys yn glir a chyfleu hyn i'r holl asiantaethau perthnasol. Byddai hyn yn helpu i egluro'r ymrwymiad sydd ei angen ganddynt. Roedd gweithredu plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn, yn seiliedig ar hawliau, ac wedi'i lywio gan drawma, a oedd yn plethu â gwaith y Tîm Troseddwyr Ifanc hefyd yn bwysig. Dywedwyd bod darparu hyfforddiant priodol yn allweddol i gyflawni hyn, yn ogystal â chynnwys yr heddlu o'r cam cynllunio'r gwasanaeth hyd at y cam gweithredu.

4.27 Dywedwyd bod angen i'r gwasanaethau dargyfeirio cyn mynd i'r llys wedi'u llywio gan drawma[19] fod yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion yr holl blant a phobl ifanc sy'n troseddu; ystyried eu cefndir a'u rhesymau dros droseddu; i fod ar gael mewn modd amserol; a bod ar gael yn yr un modd i bob plentyn ac unigolyn ifanc, waeth ble yng Nghymru y maent yn byw. Hefyd, dylai plant a phobl ifanc yng Nghymru a Lloegr gael yr un cynnig gwasanaeth dargyfeirio cyn mynd i'r llys. Nid oedd yn wir yn ôl pob golwg.

4.28 Dywedwyd mai her arall ar gyfer dargyfeirio cyn mynd i'r llys wrth symud ymlaen oedd yr angen iddo ymateb i natur newidiol troseddau ieuenctid, yn enwedig ers y pandemig. Er enghraifft, gallai cynnydd posibl mewn troseddau treisgar a rhywiol fod yn llai priodol ar gyfer llwybr dargyfeirio cyn mynd i'r llys.

4.29 Gan adleisio pwynt a wnaed mewn perthynas ag atal, gwnaeth rhanddeiliaid dynnu sylw at yr angen am gyllid parhaus a chyson i gynnal llwyddiant y gwasanaeth dargyfeirio cyn mynd i'r llys ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Yn ôl rhai, arweiniodd y cyllid anghymesur a dderbyniwyd gan awdurdodau lleol at ddarpariaeth gwasanaeth anghyson:

> *‘Mae un o'r heriau mwyaf yn bodoli mewn awdurdodau lleol llai. Mae’r swm sy’n cael ei roi i'r gwasanaeth dargyfeirio ac atal yn golygu nad ydyn nhw’n gallu datblygu gwasanaeth dargyfeirio cadarn iawn … Er enghraifft, yr unig reswm*

[19]Gall gwasanaethau amrywio’n sylweddol yn unol ag anghenion pobl ifanc a gallent gael eu darparu gan y Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid neu gan sefydliadau cymunedol, e.e., ysgolion, grwpiau ieuenctid, neu brosiectau cymunedol. Gallent gynnwys agweddau fel mentora neu weithgareddau hamdden.

*mae gan Gaerdydd wasanaeth atal dargyfeirio llawer gwell yw oherwydd ei fod yn cael y mwyaf o arian.'*

4.30 Roedd y modelau ariannu tymor byr y mae'r rhan fwyaf o sefydliadau gwirfoddol a'r trydydd sector yn gweithredu arnynt ar hyn o bryd hefyd yn effeithio ar gynaliadwyedd y gwasanaethau dargyfeirio cyn mynd i'r llys. Teimlwyd y gallai comisiynu gwasanaethau ar y cyd helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

*Gwerthuso dargyfeirio cyn mynd i'r llys*

4.31 Awgrymodd y rhanddeiliaid ystod o fesurau canlyniadau ar gyfer gwerthuso blaenoriaeth y gwasanaeth dargyfeirio cyn mynd i'r llys y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid. Rhestrir y rhain yn adran 6. Nododd y rhanddeiliaid yr **ystyriaethau** canlynol **ar gyfer** gwerthuso'r gwasanaeth dargyfeirio cyn mynd i'r llys:

- Er mwyn sicrhau tegwch yn y system, dylai'r gwerthusiad archwilio a yw plant a phobl ifanc gwyn yn fwy tebygol o gael eu dargyfeirio na phlant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig;
- Gall fod yn anodd gwerthuso dargyfeirio cyn mynd i'r llys oherwydd bod ymyriadau fel arfer yn fyr, gan gyfyngu ar y cwmpas ar gyfer gwerthuso[20];
- Weithiau, mae gwahaniaethau yn y ffigurau a gofnodwyd ynghylch aildroseddu gan wasanaethau cyfiawnder ieuenctid neu Dimau Troseddwyr Ifanc a'r rhai a gofnodwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yng Nghyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC). Roedd un o'r rhanddeiliad o'r farn bod ffigurau'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid / Tîm Troseddwyr Ifanc yn fwy dibynadwy, oherwydd eu bod yn dangos y data gwirioneddol ar lefel leol yn hytrach na'r darlun sydd wedi'i gydgrynhoi.

4.32 Yn y tabl isod, rydym yn cyfuno canfyddiadau'r cyfweliadau â rhai'r ymarfer mapio ystadegol a gynhaliwyd gennym yng ngham 1 yr AG hwn i lunio rhai argymhellion ar gyfer gwerthuso dargyfeirio cyn mynd i'r llys.

[20] Gallai'r cwmpas ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau byrrach fod yn gyfyngedig oherwydd ei fod yn anochel y bydd yn cymryd amser i gynllunio, comisiynu a chynnal gwerthusiadau.

- Ychydig o ddata cyhoeddedig sydd ar gael ynghylch dargyfeirio cyn mynd i'r llys. Fodd bynnag, dylid cadw a churadu'n gyson cofnodion lleol o’r rhai sydd wedi cymryd rhan mewn ymyriadau cyn mynd i'r llys. Felly, gellid pennu cyfraddau aildroseddu ar gyfer yr unigolion hynny o fewn cyfnodau amser penodol, e.e., chwe mis; dwy flynedd; deng mlynedd yn dibynnu ar ba mor sefydledig yw'r gweithgaredd / ymyrraeth a'i amcanion. Bydd defnyddio'r data hwn hefyd yn cefnogi'r gwaith o werthuso effeithiolrwydd gweithgareddau dargyfeirio cyn mynd i'r llys o ran gwella mesurau 'llwyddiant' posibl eraill (ymgysylltu â chyflogaeth a hyfforddiant, cael gwaith, canlyniadau iechyd ac ati).
- Gellid defnyddio’r broses o gysylltu data i olrhain yr holl blant a phobl ifanc a oedd wedi bod trwy'r Swyddfa / broses frysbennu wrth ddod yn oedolion ifanc er mwyn pennu eu canlyniadau. Er mwyn gwneud hyn, byddai angen cyfuno data'r heddlu / Tîm Troseddwyr Ifanc perthnasol ym Manc Data'r Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw, gan adeiladu ar y pwynt a wnaed mewn perthynas ag atal ynghylch defnyddio cyswllt data i olrhain plant a phobl ifanc yn hydredol er mwyn pennu effaith.
- Fel y nodwyd mewn perthynas ag atal, dylid datblygu metrig amgen i'r bobl sy'n dechrau yn y system am y tro cyntaf i gasglu'r cyswllt cyntaf â'r system cyfiawnder ieuenctid. Gan fod y mesur presennol yn amodol ar roi rhybudd ffurfiol neu benderfyniad llys i'r unigolyn, mae ei ddefnydd yn gallu achosi problemau yng nghyd-destun dargyfeirio cyn mynd i'r llys. Dylai defnyddio’r metrig hwn hefyd oresgyn unrhyw arferion anghyson o ran defnyddio datrysiadau dargyfeiriol megis datrysiadau cymunedol, dim gweithredu pellach, a chanlyniadau 21 a 22.

**Cymuned**

Mae’r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yn nodi y gall plant a phobl ifanc yn y system brofi anghenion cymhleth gan gynnwys cefndir o drawma emosiynol a PNYP. Cwmpesir opsiynau i wneud y canlynol:

- Cyflwyno dull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma yng Nghymru, sydd wedi’i ymgorffori fel arfer systematig, gan ddechrau drwy nodi PNYP ac ymateb iddynt pan fydd plant a phobl ifanc yn dod i sylw’r heddlu am y tro cyntaf.

- Datblygu’r dull ECM yn genedlaethol ar gyfer achosion cymhleth a risg uchel, dull amlasiantaethol a arweinir gan seicoleg, gan alluogi teilwra a dilyniannu ymyriadau’n effeithiol, gan gydnabod y trawma a’r digwyddiadau niweidiol y mae plant a phobl ifanc wedi’u profi.

- Alinio â Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, er budd plant a phobl ifanc sydd wedi dod yn ddioddefwyr trwy brofi neu fod yn dyst i gam-drin domestig neu drais rhywiol yn amgylchedd eu cartref a lleihau'r risg o gyflawni troseddau o'r fath[21].

- Cefnogi’r sector cyfiawnder ieuenctid gydag adnoddau, hyfforddiant a chymwysterau er mwyn gwella sgiliau ymarferwyr o ran adnabod trawma ac ymateb iddo.

*Heriau, cyfyngiadau ac ansicrwydd ym mlaenoriaeth gymunedol y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid*

4.33 Gwelwyd cynnydd da o ran darparu dewisiadau amgen hyfyw wedi’u llywio gan drawma yn y gymuned i'r ddalfa i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Fodd bynnag, fel y trafodir yr hwyrach, teimlwyd bod angen gwneud mwy i sicrhau'r un llwyddiant i fenywod sy'n troseddu.

4.34 Dywedwyd bod partneriaethau strategol cryf rhwng Timau Troseddwyr Ifanc, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu wedi helpu i hwyluso’r broses o ymgorffori arfer wedi’i lywio gan drawma yng Nghymru. Fodd bynnag, er y credid eisoes bod arfer sy’n seiliedig ar berthynas, sy’n canolbwyntio ar y plentyn ac wedi’i lywio gan drawma, a oedd yn cydnabod profiadau bywyd, wedi dod yn ‘arfer safonol’ yn arfer y Tîm Troseddwyr Ifanc, roedd rhywfaint o deimlad bod lle iddo ymsefydlu ymhellach mewn rhai asiantaethau partneriaid. Dylid mynd i'r afael â hyn yn y dyfodol drwy hyfforddiant wedi'i dargedu a chymorth i gyflawni'r elfen hon o'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid.

4.35 Nodwyd y gallai Timau Troseddwyr Ifanc ledled Cymru fod mewn mannau gwahanol o ran gweithredu'r system ECM, felly mae'n bosibl y bydd angen lefelau

[21] Mae'n debygol bydd yr elfen hon o'r Glasbrint yn cael ei nodi drwy ddatblygu'r ffrwd waith atal genedlaethol.

amrywiol o hyfforddiant a chymorth arnynt i'w chyflwyno'n llawn[22]. Dywedwyd hefyd bod 'hyrwyddwyr trawma' gydag amser penodedig i ymgorffori'r system ECM ac arfer wedi'i lywio gan drawma a'i gadw'n uchel ar agendâu Timau Troseddwyr Ifanc ac asiantaethau partner yn ganolog i gyflawni hyn.

*'Mae angen i ni gynnal momentwm o amgylch yr agenda ar gyfer PNYP. Mae'n rhaid i hynny fod yn ymateb system gyfan … Mae gennym yr hyfforddiant hwn, yr uwchsgilio hwn, a'r ffocws hwn ar arfer wedi'i lywio gan drawma ar draws sefydliadau ac rwy'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwaith gwych i geisio sefydlu hynny, ond nid yw'n gallu bod yn rhywbeth rydym ond yn ei wneud unwaith. Mae'n rhaid iddo barhau i gael ei ddarparu ledled Cymru, ar draws gwasanaethau, rolau a'r sectorau gwahanol.'*

4.36 Teimlai lleiafrif o'r rhanddeiliaid fod gormod o bwyslais ar arfer wedi'i lywio gan drawma o fewn y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid, a oedd yn peri risg o hepgor agweddau pwysig eraill. Dywedwyd y dylai'r flaenoriaeth gymunedol hefyd ganolbwyntio ar ganlyniadau cyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiant i blant a phobl ifanc, sef gwella sut y gall plant a phobl ifanc fyw'n gadarnhaol yn eu cymunedau.

4.37 Yn ôl rhai o'r rhanddeiliaid, dylai darparu cymorth effeithiol wedi'i lywio gan drawma i deuluoedd a lleihau aildroseddu hefyd fod yn ffocws allweddol i flaenoriaeth gymunedol y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid. Dylid hefyd ystyried sut y gall plant a phobl ifanc ymateb yn wahanol i drawma ac arddangos anghenion gwahanol o ganlyniad i'w profiadau wrth ddylunio a darparu gwasanaethau i sicrhau bod anghenion pob plentyn ac unigolyn ifanc yn cael eu diwallu.

4.38 Fel mewn perthynas â blaenoriaethau eraill yn y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid, pwysleisiodd y rhanddeiliaid hefyd fod yn rhaid i wasanaethau priodol wedi'u llywio gan drawma fod ar waith i gefnogi plant a phobl ifanc yn y gymuned i fyw bywydau cadarnhaol. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i wasanaethau fod yn hygyrch, wedi'u hariannu'n gynaliadwy dros y tymor hir, a chael cefnogaeth gyfartal gan yr holl asiantaethau perthnasol. Er mwyn ymgysylltu cymaint â phosibl,

[22] Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn cyflwyno cymhwyster ynghylch arfer wedi'i lywio gan drawma ar gyfer y sector cyfiawnder ieuenctid.

dywedwyd y dylai gwasanaethau hefyd gael eu teilwra yn ôl dewisiadau a chryfderau plant a phobl ifanc, yn ogystal â'u hanghenion.

> *'Yn aml iawn, bydd yn rhaid i blentyn fod yn bresennol mewn gweithgaredd chwaraeon penodol sy'n rhan o'i wasanaethau cymunedol. Mae'n bosibl na fydd y plentyn hwnnw eisiau mynd yno …. [Mae'n bosibl] fod ganddo broblemau trafnidiaeth. Nid ydym wedi ystyried y materion hynny ar gyfer pob unigolyn. Felly, mae angen gwneud yn siŵr ei fod yn rhywbeth y mae'r plentyn (neu'r fenyw) ei eisiau neu ei angen ac y gall gael mynediad ato, yn realistig, cyn i ni ei roi ar orchymyn neu ei gynnig iddo.'*

4.39 Yn unol â dull wedi'i lywio gan drawma, dywedwyd na ddylai plant a phobl ifanc gael eu 'gorlwytho' â mewnbwn gan weithwyr proffesiynol gwahanol ond dylent gael eu cefnogi gan nifer fach o weithwyr proffesiynol allweddol y gellir ymddiried ynddynt. Yn eu tro, mae angen cymorth digonol ar y gweithwyr proffesiynol hyn[23].

4.40 Soniwyd unwaith eto am drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd amlasiantaethol integredig fel her sy'n wynebu'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid. Gwelwyd hefyd fod angen cefnogaeth wleidyddol i sefydlu a chynnal y gwasanaethau cymunedol angenrheidiol wedi'u llywio gan drawma i blant a phobl ifanc.

4.41 Ystyriwyd bod cael mewnbwn cymunedau i lunio gwasanaethau wedi'u llywio gan drawma i blant a phobl ifanc wedi bod yn heriol, ond yn bwysig, i sicrhau bod y gwasanaethau'n briodol. Dywedwyd bod angen dulliau ymgysylltu cryfach i gryfhau mewnbwn cymunedau i lunio gwasanaethau, a bod angen mwy o ddefnydd o ddulliau cyfranogol fel cyd-gynhyrchu, yn unol â dull o roi plentyn yn gyntaf wedi'i lywio gan drawma.

4.42 Codwyd y mater o gael digon o seicolegwyr a gwasanaethau iechyd meddwl i gefnogi'r system ECM gan nifer o randdeiliaid. Teimlwyd bod mewnbwn seicolegwyr yn hynod werthfawr wrth gynghori rheolwyr achos y Tîm Troseddwyr Ifanc ar y ffordd orau o gefnogi plant a phobl ifanc cymhleth, ac eto roedd eu niferoedd bach

[23] Fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid, mae Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cysylltu â Straen Trawmatig Cymru ynghylch cymorth (ac adnoddau) i'r sector cyfiawnder ieuenctid.

a'r problemau'n ymwneud â'u recriwtio a'u cadw yn cyfyngu ar eu mewnbwn posibl ar hyn o bryd.

4.43 Roedd codi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o wasanaethau cymunedol wedi'u llywio gan drawma i'w hannog i ymgysylltu'n gynnar i fynd i'r afael â'r materion sy'n sail i'w troseddu yn her arall a amlygwyd gan randdeiliaid.

*'Mae angen i ni fynd amdani a thorri'r cylch. Mae cael cymorth i bobl cyn iddynt hyd yn oed wybod bod ei angen arnynt yn rhan o'r her. Ac nid cael mynediad at wasanaethau trwy gyflawni troseddau yn unig.'*

4.44 Gofynnwyd i randdeiliaid sut y gallai'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid gysylltu orau â Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, er budd plant a phobl ifanc sydd wedi dod yn ddioddefwyr a lleihau'r risg y byddant yn cyflawni troseddau o'r fath. Gwnaethon nhw nodi'r canlynol:

- Dylai gwasanaethau i blant a phobl ifanc fod yn briodol i oedran a datblygiad, gan gydnabod bod bechgyn, merched, a phlant a phobl ifanc yn gyffredinol yn aeddfedu ar adegau gwahanol.
- Yn aml, roedd angen ymyriadau ac adnoddau wedi'u teilwra'n briodol i ddiwallu anghenion gwahanol iawn teuluoedd. Nodwyd bwlch penodol ar gyfer ymyriadau ac adnoddau sy'n canolbwyntio ar Drais gan Berson Ifanc yn y Glasoed tuag at Riant (APVA).
- Fel y nodwyd yn fwy cyffredinol mewn perthynas â'r flaenoriaeth gymunedol yn y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid, dylai gwasanaethau ymyrryd yn gynharach i dorri'r cylch o gam-drin domestig mewn teuluoedd. Er mwyn cyflawni hyn, dylai'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid weithio'n agosach gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol, ysgolion, gwasanaethau teulu, a gwasanaethau iechyd i alinio a chryfhau dulliau gweithredu.
- Dylai negeseuon fod yn gyson ar draws yr holl wasanaethau a dylent gael eu harwain gan y rhai y mae'r plant a phobl ifanc yn dewis ymgysylltu â nhw.

*'Os ydych chi'n blentyn [sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid] … rydych chi'n cael eich magu i ofni'r heddlu ac yn eu hystyried mewn ffordd wahanol. Ond mae [plant a phobl ifanc] yn mynd at ei gilydd, felly mae perthynas rhwng cyfoedion,*

*maent yn mynd ar-lein, yn mynd ac yn gweld gwaith ieuenctid neu glybiau cymunedol a phethau felly fel meysydd lle byddant yn ceisio cymorth a chyngor. Yn hytrach na gwneud yr un peth dro ar ôl tro, dylem ystyried y meysydd mae'r plant yn eu cyrchu a cheisio cyngor ganddynt a gofyn cwestiynau i wneud yn siŵr bod y system gyfiawnder yn canolbwyntio ar y meysydd hynny hefyd ac i sicrhau bod y negeseuon cywir yn cael eu trosglwyddo.'*

- Dylai'r negeseuon atgyfnerthu'r ffaith nad yw cam-drin yn anochel: dewis ydyw.

*'Mae angen cysylltiad rhwng y ddealltwriaeth [mai] nid dyma'r llwybr y byddwch chi'n ei ddilyn yn y diwedd oherwydd bod hynny'n atgyfnerthu'r neges honno bod dim gobaith ac nad yw pethau byth yn mynd i newid ... mae angen i ni feddwl am yr hyn y mae'r Ddeddf yn ei ddweud am y cymorth sydd ei angen ar blant a ... meddwl, a yw hynny'n mynnu bod gennych y grym i ddewis yn wahanol?'*

*Gwerthuso blaenoriaeth gymunedol y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid*

4.45 Awgrymodd y rhanddeiliaid ystod o fesurau canlyniadau ar gyfer gwerthuso blaenoriaeth gymunedol y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid. Rhestrir y rhain yn adran 6.

4.46 Nododd y rhanddeiliaid yr **ystyriaethau** canlynol **ar gyfer** gwerthuso blaenoriaeth gymunedol y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid:

- Lle mae fformwleiddiadau'n digwydd fel rhan o asesiad cychwynnol plant a phobl ifanc gan seicolegydd, dylai'r gwerthusiadau eu hymgorffori i nodi i ba raddau y mae'r gwasanaethau a ddarperir yn diwallu eu hanghenion.

*'Mae'n hanfodol asesu a nodi anghenion yn gynnar iawn, ond yn hytrach na chael rhestr, mae angen creu naratif ystyrlon y mae unigolyn ifanc wedi cyfrannu ato. Dylai hynny, wedyn, lywio'r gwasanaethau y maen nhw'n ei dderbyn a dylid ei ailystyried fel rhan o'r broses werthuso'.*

- Dylai'r gwerthusiad archwilio lle mae arfer wedi'i gryfhau neu ei newid trwy weithredu arfer wedi'i lywio gan drawma yn ehangach ar draws gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol.

- Mae Timau Troseddau Ieuenctid eisoes yn casglu ystod o ddata ar blant a phobl ifanc yn y gymuned, megis cofnodion AssetPlus, a data sy'n benodol i'r system ECM (sy’n cynnwys manylion am drawma a brofir gan blant a phobl ifanc) ar gyfer y rhai sy’n cymryd rhan yn y dull gweithredu. Roedd rhai o'r rhanddeiliaid yn teimlo y gallai’r data hwn roi mewnwelediad gwerthfawr i’r canlyniadau y mae’r plant a’r bobl ifanc hyn yn eu cyflawni.
- Dywedir ei bod yn anodd gwerthuso arfer wedi'i lywio gan drawma[24] oherwydd y canlynol:
    - Mae’n bosibl bod Timau Troseddwyr Ifanc yn defnyddio dulliau gwahanol o gyflwyno arfer wedi'i lywio gan drawma.
    - Mae arfer wedi'i lywio gan drawma yn ddull ‘diwylliannol’ o ofalu am blant a phobl ifanc yn hytrach na rhywbeth sydd yr un fath ni waeth ble a chan bwy y caiff ei gyflwyno.
- Mae'n bosibl y bydd Timau Troseddwyr Ifanc ac asiantaethau partner yn ansicr ynghylch sut y disgwylir iddynt gyfrannu at arfer wedi'i lywio gan drawma ac at gyflawni elfennau eraill o flaenoriaeth gymunedol y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid, ac yn gysylltiedig â hyn, pa ganlyniadau y maent i fod i helpu i’w gwella ar gyfer plant a phobl ifanc. Dywedwyd y dylai'r Timau Troseddwyr Ifanc gael arweiniad clir ar hyn er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder yn eu dulliau gweithredu[25].

4.47 Yn y tabl isod, rydym yn cyfuno canfyddiadau'r cyfweliadau â rhai'r ymarfer mapio ystadegol a gynhaliwyd gennym yng ngham 1 yr AG hwn i lunio rhai argymhellion ar gyfer gwerthuso blaenoriaeth gymunedol y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid.

- Dylid ymgynghori â phlant a phobl ifanc ar ddechrau ac ar ddiwedd eu hymgysylltiad â chymorth yn y gymuned, ac ar ôl cyfnod o fyfyrio. Gellid ymgorffori hyn wrth

[24]Er bod rhai o'r rhanddeiliaid wedi sôn am rai o’r materion sy’n ymwneud â gwerthuso arfer wedi’i lywio gan drawma, mae’r awduron yn awgrymu y gellid dysgu o’r gwerthusiadau blaenorol o'r system ECM (Cordis Bright, 2017; Prifysgol Bangor, 2021; Pecyn Cymorth Sefydliadau sy'n Wybodus ynghylch Trawma ac ACE (TrACE) (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021); a'r Trauma-Informed Practice Evaluation (Ingeus, 2021).
[25]Mae canllawiau gweithredol ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid ar gyflawni arfer wedi’i lywio gan drawma ar gael yn y Canllawiau ar gyfer ECM a gynhyrchwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, ac yn y Canllawiau Arfer sy'n Seiliedig ar Berthynas a gynhyrchwyd gan y Tîm Troseddwyr Ifanc Cwm Taf ar gyfer y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

gomisiynu gwasanaethau. Dylid archwilio cwynion ac achwyniadau hefyd, ynghyd ag ymatebion gwasanaethau iddynt.

- Drwy gynnal ymchwil ansoddol (e.e., cyfweliadau, grwpiau ffocws, ac astudiaethau achos) gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi manteisio ar gymorth yn y gymuned yn ogystal â'r rhai nad ydynt wedi manteisio ar gymorth yn y gymuned yn allweddol i ddeall ei elfennau effeithiol a llai effeithiol, ac unrhyw rwystrau at fynediad.
- Gellir defnyddio mesurau amser atgyfeirio am driniaeth iechyd y cyhoedd ochr yn ochr â metrigau gan wasanaethau partner (ac adborth defnyddwyr) i helpu i ddeall yr angen nas diwallwyd am wasanaethau, gan gynnwys unrhyw amrywiadau ledled Cymru. Byddai angen i asiantaethau partner, fel y rhai sy'n darparu triniaethau ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, gasglu metrigau a rennir mewn ffordd gyson i gyflawni hyn.
- Dylid archwilio cyfraddau aildroseddu sylfaenol a thros amser ar lefel sefydliadol a'u cysylltu â mesurau cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Dylid archwilio'n ansoddol y rhesymau dros dorri amodau a galw'n ôl (gan gynnwys gofynion neu amodau penodol). Fodd bynnag, mae lle hefyd i ddysgu mwy am niferoedd, nodweddion ac amgylchiadau'r rhai sy'n destun achosion o dorri amodau trwy ddadansoddi data gweinyddol gan y llysoedd.
- Er mwyn llywio'r gwaith gwerthuso, dylai'r gwasanaethau gasglu data ar nifer y staff sy'n derbyn yr hyfforddiant perthnasol. Gallai hyn hefyd fod yn gysylltiedig â rheoli perfformiad gwasanaethau a gomisiynir.
- Fel y nodwyd, byddai cysylltu data'r Tîm Troseddwyr Ifanc / y Weinyddiaeth Gyfiawnder gyda chofnodion addysg, tai, llys teulu a gwasanaethau cymdeithasol, yn galluogi dealltwriaeth well o anghenion ac amgylchiadau defnyddwyr y gwasanaeth o gwmpas yr amser y maent yn troseddu ac yn y gorffennol. Gall hyn lywio'r cymorth sydd ar gael iddynt yn y gymuned (yn ogystal â gweithgareddau atal a dargyfeirio). Yn anffodus, nid yw hyn yn bosibl eto yng Nghymru.

**Y ddalfa**

Mae'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid yn datgan bod pryderon hirsefydlog ynghylch lleoli plant a phobl ifanc o Gymru ymhell o ardal eu cartrefi. Bydd opsiynau'n cael eu harchwilio ar gyfer y canlynol:

- Gosod pob plentyn ac unigolyn ifanc sy'n byw yng Nghymru mewn llety diogel yng Nghymru ac yn agos at eu cymunedau cartref. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau dwy ffordd gyda Lloegr, fel bod modd rhoi trefniadau trawsffiniol ar waith ar gyfer achosion unigol ac eithriadol.

- Darpariaeth ddiogel wedi'i llywio gan drawma, sy'n manteisio ar arfer gorau gwaith amlasiantaethol i ddatblygu canolfan ragoriaeth sy'n cyflenwi hyfforddiant ac addysg o ran gofal iechyd ac iechyd meddwl.

*Heriau, cyfyngiadau ac ansicrwydd ym mlaenoriaeth y ddalfa'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid*

4.48 Fel y nodwyd eisoes, roedd y rhanddeiliaid yn canmol y broses o symud tuag at arfer wedi'i lywio gan drawma mewn lleoliadau diogel. Dywedwyd bod Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gyflawni hyn trwy ddechrau cyflwyno darpariaeth a arweinir gan seicoleg; darparu hyfforddiant staff ar hawliau plant a phobl ifanc, siarad â phlant a phobl ifanc am eu hawliau, a symud i ffwrdd oddi wrth arferion cosbol fel ffrwyno plant a phobl ifanc a chyfyngu eu breintiau.

4.49 Fodd bynnag, dywedwyd bod y darlun yn anghyson mewn lleoliadau diogel eraill lle mae plant a phobl ifanc o Gymru yn cael eu lleoli. Arweiniodd hyn at yr awgrym gan randdeiliaid i bob lleoliad diogel ddarparu amgylchedd sy'n canolbwyntio'n fwy ar y plentyn ac sy'n darparu gofal sy'n canolbwyntio ar hawliau plant a phobl ifanc ac wedi'i lywio gan drawma yn gyson, yn hytrach na dull cosbol, fel sydd wedi'i ymgorffori yn y Glasbrint.

> *'Rwy'n poeni am y dyfodol, lle mae gennym ni ddarpariaeth yn y ddalfa sy'n seiliedig ar ddull cosbol o hyd ... rwy'n pryderu a allwn wir gynnig dull gweithredu wedi'i lywio gan drawma go iawn pan fydd arfer cosbol ar waith gennym. Er enghraifft, os nad yw'r plant yn mynychu sefydliad addysg, mae canlyniadau yn cael eu gosod ac mae'r canlyniadau hynny weithiau'n mynd yn groes i'r syniad y dylem fod yn meithrin plant … os ydym yn edrych ar hynny trwy lens wedi'i llywio gan drawma, byddem yn ystyried lle'r oedd y plentyn ar ei lwybr.'*

4.50 Pwysleisiwyd hefyd yr angen i'r holl asiantaethau sy'n darparu cymorth i blant a phobl ifanc yn y ddalfa ddarparu dull cyson yn hytrach na dull sy'n mynd yn groes i'w gilydd, a chael gweledigaeth gyffredin o beth mae llwyddiant yn ei olygu i blant a phobl ifanc yn y ddalfa. Yn ogystal, dywedwyd y dylid defnyddio dull amlddisgyblaethol i gynllunio a darparu cymorth cyfannol i blant a phobl ifanc yn y ddalfa.

4.51 Yn yr un modd, nododd rhai y dylai fod mwy o gydweithio rhwng lleoliadau diogel ac ysgolion a darparwyr addysg eraill i wella'r ymyriadau a'r gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar sgiliau a chyflogaeth a ddarperir i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau diogel er mwyn harneisio'r amser a dreulir yno yn well a chyflawni canlyniadau gwell yn y meysydd hynny. Roedd eraill yn cydnabod bod pandemig COVID-19 wedi cyfyngu ar ddarpariaeth ac effaith ymyriadau wyneb yn wyneb i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau diogel.

4.52 Nodwyd diffyg lleoliadau diogel priodol ar gyfer merched yng Nghymru / o Gymru fel mater penodol. Dywedwyd bod gan y garfan hon anghenion arbennig o gymhleth a fyddai'n cael eu diwallu orau mewn amgylchedd diogel a therapiwtig yn hytrach na Sefydliad Troseddwyr Ifanc. Cyfyngiad arall oedd diffyg gwasanaethau cyfrwng Cymraeg mewn lleoliadau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc y mae'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt.

4.53 Roedd barn y rhanddeiliaid yn amrywio ynghylch a ddylai pob plentyn ac unigolyn ifanc o Gymru gael eu cyd-leoli yn yr un lleoliadau diogel. Teimlai rhai nad oedd yn briodol cydleoli'r rhai a oedd wedi cyflawni troseddau o wahanol ddifrifoldeb gyda'i gilydd. Teimlai eraill y byddai cydleoli yn galluogi anghenion plant a phobl ifanc i gael eu diwallu'n well, ar yr amod bod yr asesiadau risg a'r darpariaethau diogelu angenrheidiol yn cael eu gwneud, a bod oedrannau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried.

4.54 Dywedodd y rhanddeiliaid y dylai lleoliadau fod yn fwy croesawgar a chyfeillgar i deuluoedd er mwyn gwella ansawdd y rhyngweithio rhwng plant a phobl ifanc yn y ddalfa a'u teuluoedd. Dywedwyd bod y prosiect, Waliau Anweledig yng Ngharchar y Parc a Sefydliad Troseddwyr Ifanc wedi gwneud cynnydd da wrth gyflawni hyn.

Gallai lleoliadau diogel wneud mwy o ddefnydd o alwadau fideo i gynnal cysylltiadau rhwng plant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

4.55 Er bod y rhanddeiliaid yn croesawu'r gostyngiad yn nifer y plant a phobl ifanc o Gymru sydd yn y ddalfa, roeddent yn cydnabod mai'r rhai a oedd ar ôl oedd y rhai mwyaf cymhleth a heriol, felly roedd angen lefel uchel o gymorth arnynt i sicrhau y gallent gyflawni'r canlyniadau gorau posibl ar ôl eu rhyddhau. Dywedwyd felly bod angen cyllid digonol i ddarparu'r cymorth sydd ei angen arnynt.

*'Naw gwaith allan o ddeg … y plant hynny fydd ein plant mwyaf heriol a chymhleth sydd wedi cael y profiadau gwaethaf yn eu bywydau. Ac o ganlyniad, er bod y niferoedd yn isel, bydd angen lefel uwch o fuddsoddiad ynddynt i geisio eu sefydlu pan fyddant yn cael eu rhyddhau o'r ddalfa'*

4.56 Cyfeiriwyd at natur gymhleth cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru fel her arall i gyflawni blaenoriaeth y ddalfa'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid. Dywedwyd ei bod yn hollbwysig gweithio mewn partneriaeth agos i alinio a chyflenwi'r elfennau cyfiawnder a lles y flaenoriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o fewn amserlen dderbyniol.

4.57 Dylai blaenoriaeth y ddalfa gynnwys plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a phlant a phobl ifanc sy'n cael eu cam-fanteisio'n droseddol yn benodol. Byddai rhai o'r rhanddeiliaid yn croesawu rhagor o eglurder ynghylch pryd y bydd elfennau allweddol blaenoriaeth y ddalfa'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yn cael eu cyflenwi.

*Gwerthuso blaenoriaeth y ddalfa'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid*

4.58 Awgrymodd y rhanddeiliaid ystod o fesurau canlyniadau ar gyfer gwerthuso blaenoriaeth y ddalfa'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid. Rhestrir y rhain yn adran 6.

4.59 Gwnaeth y rhanddeiliaid dynnu sylw at yr **ystyriaethau** canlynol ar gyfer gwerthuso blaenoriaeth y ddalfa'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid:

- Dylai'r gwerthusiadau ymgorffori'r model arfaethedig o fod yn y ddalfa a ddefnyddir ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru yn y dyfodol, sef ar gyfer, 'Pob plentyn sy'n byw yng Nghymru sy'n cael dedfryd o garchar neu

eu cadw yn y ddalfa i gael ei roi mewn unedau bach yng Nghymru, ar sail model therapiwtig a lywir gan drawma, gan ddarparu gwasanaeth prif ganolfan a lloerennau i'r gymuned ar gyfer achosion cymhleth a risg uchel, dan oruchwyliaeth y Timau Troseddau Ieuenctid, a phan fydd yn ailsefydlu'[26].

- Awgrymodd un rhanddeiliad y dylai fod yn hawdd deall anghenion a mesur y canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc o Gymru yn y ddalfa o ystyried eu niferoedd bach. Nododd rhai o'r rhanddeiliaid hefyd fod plant a phobl ifanc yn tueddu i fod yn haws i'w cynnwys mewn gwaith ymchwil a gwerthuso pan fyddant yn y ddalfa. Mae hyn yn caniatáu dealltwriaeth gyfoethog o'u canfyddiadau, eu profiadau a'u canlyniadau.

*'Yn groes i'r camargraff poblogaidd, mae'n hawdd iawn siarad â phlant mewn sefydliadau diogel. Mae'n werth cydnabod bod y plant hynny – er iddynt fod yn isel mewn nifer heddiw – yn rhai o'r plant mwyaf heriol, sydd wedi'u niweidio fwyaf yn ein cymdeithas, ond po fwyaf cyfyngol yw'r drefn, yr hawsaf yw hi i ddechrau deall sut mae'r plant hynny'n teimlo oherwydd y cyswllt sydd gennych.'*

4.60 Yn y tabl isod, rydym yn cyfuno canfyddiadau'r cyfweliadau â rhai'r ymarfer mapio ystadegol a gynhaliwyd gennym yng ngham 1 yr AG hwn i lunio rhai argymhellion ar gyfer gwerthuso blaenoriaeth y ddalfa'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid.

- Byddai'n bwysig archwilio cyfraddau aildroseddu yn ôl y math o ddedfryd / datrysiad (cymuned yn hytrach na'r carchar) o ran unrhyw wahaniaethau rhwng plant a phobl ifanc â nodweddion gwahanol / gwarchodedig.
- Dylai'r gwerthusiad archwilio proffil datrysiadau ar gyfer grwpiau gwahanol, yn ôl math o drosedd a difrifoldeb; p'un a yw hyn wedi newid dros amser; ac a fu cynnydd yn y defnydd o ddatrysiadau y tu allan i'r llys a gostyngiad yn y defnydd o fynd â rhywun i'r ddalfa. Gellir defnyddio'r Mynegai Cyfradd Cymharol i nodi lle mae plant a phobl ifanc â nodweddion penodol a / neu aelodaeth o grŵp blaenoriaeth yn cael eu gorgynrychioli. Bydd data Cyfrifiad 2021 (sydd ar gael o fis Mawrth 2023) hefyd yn dangos y darlun lleol.

[26] Nodir yr argymhelliad hwn yn y Cynllun Gweithredu'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid.

- Mewn gwerthusiad, dylid cynnwys cydymffurfedd sefydliadau diogel â Safon y Gymraeg a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, h.y., dylai plant a phobl ifanc gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, asesiadau, a chymorth yn y Gymraeg pan fyddant yn y ddalfa heb orfod gofyn amdanynt.
- Dylai'r gwerthusiad o'r flaenoriaeth hon hefyd ymgorffori'r defnydd o fod ar o remánd; ystyrir rhyddhau'n gynnar (pan fyddant ar Orchymyn Cadw a Hyfforddi) a mesurau parhad gofal, gan gynnwys barn pobl ifanc, eu teuluoedd ac ymarferwyr, er mwyn mesur ansawdd a chysondeb y cymorth a geir o fewn y system cyfiawnder ieuenctid / troseddol ehangach.

**Ailsefydlu a phontio**

Mae’r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yn nodi bod ailsefydlu ar ei fwyaf effeithiol pan fo cydweithio amlddisgyblaethol rhwng asiantaethau sy’n darparu cymorth yn y ddalfa a’r gymuned.

Mae'r ystyriaethau'n cynnwys sut y gellir cyflawni'r canlynol:

- Mabwysiadu dull ‘Ailsefydlu Adeiladol’ i sicrhau bod gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn adeiladol, yn cael ei gyd-greu, ei addasu, yn gyson ac yn gydgysylltiedig.

- Ehangu ymarfer ailsefydlu i gwmpasu gwaith gyda theuluoedd i baratoi amgylchedd y cartref ar gyfer pan fydd y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn dychwelyd er mwyn gwella ailintegreiddio.

- Cryfhau ymatebion amlasiantaethol i ailintegreiddio ac ailsefydlu ymhellach.

- Gwella’r trefniadau pontio i wasanaethau cyfiawnder troseddol oedolion, a gwasanaethau eraill i oedolion fel iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

*Heriau, cyfyngiadau ac ansicrwydd o ran ailsefydlu a phontio*

4.61 Teimlai rhanddeiliaid fod mwy o wasanaethau ar gael i blant a phobl ifanc nag oedolion i gefnogi'r broses ailsefydlu. Cyn gynted ag y mae'r plant a phobl ifanc yn cyrraedd 18 oed, dywedon nhw fod llawer o blant a phobl ifanc yn profi gostyngiad sylweddol yn y gwasanaethau a oedd ar gael iddynt. Dywedon nhw fod hwn yn fwlch yr oedd angen mynd i'r afael ag ef.

*‘O ran y cyfnod pontio o ieuenctid i oedolion … mae'n gymaint o newid mewn deddfwriaeth … rydych chi'n mynd o fod yn blentyn mewn perygl i fod yn oedolyn ... Mae'r ddarpariaeth yn cynrychioli ymyl y dibyn. Yn aml, mae'r ddarpariaeth sydd ar gael i'r rhai dan 18 oed yn eithaf sylweddol ond nid pan fyddwch yn troi’n 18 oed, ond eto mae’r dull cyfiawnder troseddol yn wahanol. Gallech chi fod yn ddiwrnod [dros] eich pen-blwydd yn 18 oed, a [phrofi] gwahaniaeth enfawr o ran sut yr ymdrinnir â chi.’*

4.62 Dywedwyd hefyd bod y trothwyon a’r meini prawf ar gyfer gwasanaethau oedolion yn uwch nag ar gyfer gwasanaethau plant, a olygai nad oedd llawer o blant a phobl ifanc yr oedd angen cymorth lefel is arnynt yn ei gael.

4.63 Awgrymodd y rhanddeiliaid y dylai plant a phobl ifanc fod yn rhan o'r broses o gynhyrchu eu cynlluniau ailsefydlu i sicrhau eu bod yn cael eu harwain gan anghenion ac felly bod ganddynt y cyfle gorau o’u helpu i gyflawni canlyniadau gwell. Yn unol ag arfer wedi'i lywio gan drawma, dylai ailsefydlu hefyd fod yn seiliedig ar gydberthynas gyson ag un aelod allweddol o staff, a ddylai froceru a chydlynu cymorth priodol i blant a phobl ifanc. Roedd rhai rhanddeiliaid yn amau priodoldeb yr ymyriadau a ddarperir i blant a phobl ifanc i gefnogi eu hailsefydlu. Nodwyd y dylai ymyriadau fod yn realistig, gan adlewyrchu anghenion a dewisiadau plant a phobl ifanc a harneisio'r gwasanaethau sydd ar gael yn eu cymunedau. Dywedwyd hefyd bod dilyniannu ymyriadau yn bwysig: rhaid i blant a phobl ifanc fod yn barod yn ddatblygiadol i ymgysylltu â nhw er mwyn elwa arnynt.

4.64 Gwnaeth y rhanddeiliaid hefyd dynnu sylw at yr angen i gynnwys teuluoedd a modelau rôl rhag-gymdeithasol yn fwy wrth gynllunio a darparu ailsefydlu.

*‘Mae angen ei ehangu i waith sy'n canolbwyntio ar y teulu, ond mae hefyd angen iddo ganolbwyntio ar y gwaith sydd y hwnt i hynny, oherwydd, weithiau, mai’r oedolion pwysig ym mywyd plentyn yw'r cysylltwyr rhag-gymdeithasol, nid aelodau o'r teulu. Felly, mae angen i ni edrych i weld pwy yw’r bobl rhag-gymdeithasol hynny sy’n mynd i helpu’r plentyn. Ac os nad ydynt yn aelodau o'r teulu, efallai y gallwn ni wneud rhywfaint o waith gyda'r teulu i'w mowldio a'u helpu i allu cyflawni'r hyn sydd ei angen ar y plentyn.’*

4.65 Roedd rhai o'r rhanddeiliaid yn teimlo bod cynnal cydberthnasau cadarnhaol i gefnogi ailsefydlu yn anos i blant a phobl ifanc heb deuluoedd a oedd yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol. Gallai dod o hyd i lety priodol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hyn fod yn her arbennig oherwydd, yn aml, nad oeddent yn gallu dychwelyd i'w lleoliadau gofal maeth blaenorol.

4.66 Roedd llety hefyd wedi'i godi fel mater cyffredinol i blant a phobl ifanc sy'n gadael y ddalfa, yn ogystal ag argaeledd, addasrwydd, ac amseroldeb gwasanaethau a chyfleoedd i'w cefnogi i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth addas ar ôl gadael y ddalfa. Gwnaethant dynnu sylw at yr angen am ddull hyblyg o ailsefydlu yn unol ag oedran, anghenion a lleoliad plant a phobl ifanc yng Nghymru.

> *'Mae'n eithaf anodd gweithredu'r un egwyddorion a chanllawiau ar draws pob maes arfer yng Nghymru oherwydd y gwahaniaeth mewn mathau o feysydd. Felly, ni allwch, o reidrwydd, gymhwyso'r un egwyddorion i ddinas drefol ag y gallwch i ardal wledig enfawr lle gallai fod pellteroedd teithio enfawr.'*

4.67 O ganlyniad, dywedwyd bod angen caniatâd ar Dimau Troseddwyr Ifanc i gyflwyno darpariaeth ailsefydlu hyblyg i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc yn eu hardaloedd.

4.68 Fel y nodwyd mewn perthynas â blaenoriaeth y ddalfa'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid, dywedodd rhai rhanddeiliaid y dylai staff y ddalfa helpu i ddarparu gweithgareddau pontio yn ôl i'r gymuned wedi'u llywio gan drawma, gan harneisio'r berthynas y maent wedi'i meithrin â phlant a phobl ifanc i'w paratoi ar gyfer bywyd ar ôl cael eu rhyddhau. Ar hyn o bryd, dywedwyd mai gweithwyr Timau Troseddwyr Ifanc oedd yn cymryd y rhan fwyaf o'r cyfrifoldeb am hyn, tra gallai staff y ddalfa wneud mwy i gefnogi ailsefydlu, a dylent wneud hynny.

4.69 Unwaith eto, fel y nodwyd mewn perthynas â blaenoriaethau eraill yn y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid, pwysleisiodd y rhanddeiliaid bwysigrwydd dull partneriaeth amlasiantaethol gryf tuag at ailsefydlu, lle mae pob asiantaeth yn deall pa ganlyniadau y maent yn cefnogi plant a phobl ifanc i'w cyflawni ac yn cydweithio'n effeithiol i'w cyflawni. Dywedodd rhai fod y Glasbrint wedi helpu i gydlynu gweithgarwch rhwng y cyrff cyhoeddus perthnasol sy'n cefnogi ailsefydlu a phontio.

4.70 Dywedodd y rhanddeiliaid bod gosod plant a phobl ifanc o Gymru yn y ddalfa yn Lloegr yn golygu bod eu hailsefydlu yn ôl i'w cymunedau yng Nghymru yn fwy heriol. Roedd hyn oherwydd y gwahaniaethau yn y polisïau, gwasanaethau, a threfniadau ariannu rhwng Cymru a Lloegr.

4.71 Dywedwyd bod y gostyngiad yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n ailsefydlu o'r ddalfa i'r gymuned yn golygu bod angen dull ailsefydlu mwy hyblyg ac ymatebol. Awgrymodd y rhanddeiliaid y dylai trafodaethau am blant a phobl ifanc sy'n gadael y ddalfa gael eu cynnal fesul achos yn hytrach na chynnal paneli ailsefydlu bob dau fis, gan gyfuno, o bosibl, â chylch gorchwyl cyfarfod neu grŵp sy'n bodoli eisoes i wneud y defnydd gorau o adnoddau.

4.72 Awgrymwyd fformwleiddiadau amlasiantaethol dan arweiniad seicoleg (sy'n elfen annatod o'r system ECM a Secure Stairs) fel ffordd o wella cymorth ailsefydlu i blant a phobl ifanc. Dylid gwneud fformwleiddiadau ar fynediad at y ddalfa a dylent nodi anghenion niwroddatblygiadol, problemau iechyd meddwl posibl, a hanes hysbys o drawma. Mae hyn yn sicrhau bod gan yr holl staff sy'n ymwneud â chefnogi plant a phobl ifanc ddealltwriaeth gyfannol o'u hanghenion a'u bod yn deall eu rôl i'w diwallu.

*Gwerthuso ailsefydlu a phontio*

4.73 Argymhellodd y rhanddeiliaid ystod o fesurau canlyniadau ar gyfer gwerthuso ailsefydlu a phontio plant a phobl ifanc. Rhestrir y rhain yn adran 6.

4.74 Gwnaeth y rhanddeiliaid dynnu sylw at yr **ystyriaethau a'r heriau** canlynol i werthuso ailsefydlu a phontio.

- Dywedwyd bod Timau Troseddwyr Ifanc ledled Cymru yn cynnig dulliau gwahanol ar gyfer ailsefydlu oherwydd yr amrywiadau yn niferoedd a demograffeg y plant a'r bobl ifanc yr oeddent yn eu cefnogi, yn ogystal â maint a strwythur y Tîm Troseddwyr Ifanc. Gallai'r gwahaniaethau hyn ei gwneud hi'n anodd gwerthuso ailsefydlu a phontio ar draws yr holl Dimau Troseddwyr Ifanc.
- Mae systemau gwahanol asiantaethau ar gyfer monitro teithiau plant a phobl ifanc drwy'r system cyfiawnder ieuenctid, a'u dulliau o wneud hynny, yn

gwneud y gwaith o werthuso ailsefydlu yn fwy heriol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dylai pob asiantaeth berthnasol fabwysiadu systemau a dulliau cyffredin.

- Roedd ychydig o'r rhanddeiliad o'r farn bod diffyg data dibynadwy, manwl ar ailsefydlu a phontio yn gyffredinol. Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau'r ymarfer mapio ystadegol.

4.75 Yn y tabl a ganlyn, rydym yn cyfuno canfyddiadau'r cyfweliadau â rhai'r ymarfer mapio ystadegol a gynhaliwyd gennym yng ngham 1 yr AG hwn i lunio rhai argymhellion ar gyfer gwerthuso blaenoriaeth ailsefydlu a phontio'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid.

| |
|---|
| • Fel y nodwyd mewn perthynas â'r flaenoriaeth yn y ddalfa, byddai'n bwysig archwilio cyfraddau aildroseddu yn ôl math o ddedfryd (cymuned yn erbyn carchar) o ran unrhyw wahaniaethau rhwng plant a phobl ifanc â gwahanol anghenion a / neu nodweddion gwarchodedig.<br>• Dylid ymgorffori'r amser i gyfiawnder (yr amser rhwng cael ei arestio a mynd i'r llys) wrth werthuso'r flaenoriaeth ailsefydlu a phontio.<br>• Dylai mynediad at wasanaethau cymorth, gan gynnwys gofal iechyd a chamddefnyddio sylweddau, fod yn debyg i'r hyn a geir yn y gymuned, gyda phontio arfaethedig i wasanaethau ar ôl cael eu rhyddhau. Mae'r niferoedd isel o blant a phobl ifanc o Gymru a gedwir mewn sefydliadau diogel yn cyfyngu ar faint o ddata y gellir ei ryddhau yn gyhoeddus. Fodd bynnag, at ddibenion cynllunio, byddai'n fanteisiol cael proffil croestoriadol mewnol, gan gynnwys anghenion.<br>• Yn yr un modd â'r flaenoriaeth gymunedol, dylid archwilio cydymffurfedd â dedfrydau cymunedol, gan gynnwys achosion o dorri amodau a galw'n ôl, a'r rhesymau dros ddiffyg cydymffurfio.<br>• Dylai'r gwerthusiad o'r flaenoriaeth hon hefyd ymgorffori'r defnydd o remánd yn enwedig yn sgil y pwyslais cynyddol ar roi'r prawf disgwyliadau gwirioneddol i ganfod priodoldeb bod ar remánd yn y ddalfa yn hytrach na chael eu rhoi ar remánd yn y gymuned a'i Ryddhau ar Drwydded Dros Dro (ROTL).<br>• Mae archwilio addasrwydd llety, cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a mynediad at asiantaethau triniaeth yn y gymuned (lle bo'n briodol) ar ôl cael eu rhyddhau yn allweddol, yn ogystal â chydnabod yr angen i gynnal cydberthnasau parhaus gyda gweithwyr proffesiynol allweddol i sicrhau cyfnod pontio sy'n llyfn / cydgysylltiedig. O ganlyniad, argymhellir bod mesurau parhad gofal yn cael eu |

hystyried i fesur ansawdd a chysondeb y cymorth a geir o fewn y system cyfiawnder ieuenctid / troseddol ehangach.

**Ymchwil a gwerthuso**

4.76 Mae ymchwil a gwerthuso yn drawsbynciol drwy gydol y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r rhanddeiliaid am waith ymchwil a gwerthuso mewn perthynas â'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid. Crynhoir eu hadborth yng ngweddill yr adran hon.

*Beth yw'r ystyriaethau allweddol ar gyfer gwerthuso'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid?*

4.77 Nododd y rhanddeiliaid nifer o argymhellion ar gyfer gwerthuso'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid. Gwnaethpwyd rhai o'r pwyntiau hyn mewn mannau eraill mewn perthynas â blaenoriaethau'r Glasbrint.

- Rhaid i'r gwerthusiad gael mewnbwn a chefnogaeth gan yr holl sefydliadau statudol, gwirfoddol a sefydliadau o'r trydydd sector perthnasol sy'n ymwneud â goruchwylio'r Glasbrint a darparu gwasanaethau cysylltiedig.

*'Mae rhai pobl yn gweld [ymchwil a gwerthuso] fel rhywbeth nad yw ar eu cyfer neu ddim mor ddefnyddiol nac mor bwysig iddynt, ond mae'n rhaid i bob un ohonynt fynd i'r afael â hyn … Mae rhai meysydd yn ysu am gael amser ymchwilydd i ddod i mewn ac edrych ar yr holl waith y maent yn ei wneud ac mae hynny'n iawn, ond pam nad ydynt yn gwneud hynny beth bynnag?'*

- Dywedwyd bod gwneud ymchwil a gwerthuso yn flaenoriaeth amlwg yn y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid fel y mae o fewn y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod ac y gallai cael strategaeth ymchwil ar y cyd ar draws y ddau Lasbrint helpu i gadw ymchwil a gwerthuso yn uchel ar yr agenda. Mae hyn yn ystyriaeth ar gyfer y grŵp ymchwil a gwerthuso'r Glasbrint.

*'Dull strwythuredig yw ystyriaethau allweddol ac mae angen strategaeth ar y cyd ar gyfer ymchwil a gwerthuso sy'n adeiladu ar wybodaeth ac arbenigedd sy'n bodoli eisoes yn y maes hwn, sy'n nodi beth yw'r bylchau ac sy'n ceisio dod o hyd i ffyrdd o fynd i'r afael â'r bylchau hynny, a chyfrannu'n ystyrlon at ein*

*gwybodaeth ehangach am yr hyn sy'n arfer gorau gyda'r holl boblogaethau hyn yr ydym yn sôn amdanynt ac am gael y diwylliant hwnnw o ddysgu agored.'*

- Rhaid i ddata ar gyfer ymchwil a gwerthuso fod yn haws i ymchwilwyr ei gyrchu nag sy'n digwydd ar hyn o bryd.

*'Mewn rhai agweddau, mae'n gyfyngiad i'r Glasbrint cyfan, yn enwedig pan fyddwn yn sôn am y Glasbrint hwn fel bod yn draws-sefydliadol yn ei uchelgeisiau ar gyfer ei gyflawni … Gallai unigolyn fod yn gysylltiedig â nifer o wasanaethau, ac rydym yn ei chael yn anodd gallu edrych ar unigolyn a chyrchu'r data hwnnw mewn perthynas â'r unigolyn sengl hwnnw. Mae hynny'n gyfyngiad a bydd yn gyfyngiad o ran gallu gwerthuso effaith yr holl elfennau gwahanol. Byddech chi'n meddwl yn yr oes sydd ohoni y gallem ni fod wedi datrys yr ochr honno o bethau, ond yn amlwg ddim.'*

- Dylai gwahanol ddarnau o ymchwil a gwerthuso sy'n cael eu cynnal i'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid (a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod) gael eu halinio'n agosach â'i gilydd. Dylai ymchwilwyr sy'n arwain y prosiectau hyn gyfathrebu â'i gilydd er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd ac i sicrhau bod eu prosiectau priodol yn asio â'i gilydd yn hytrach na'u dyblygu.

*'Rydym yn mynd i gael prosiectau eraill o dan y Glasbrintiau sy'n mynd i gael gwerthusiadau y mae angen eu halinio, ac rwy'n meddwl bod cyfathrebu'n allweddol. Fel arall, byddwn yn cael grŵp cyfan o werthusiadau nad ydynt yn adlewyrchu ei gilydd na fyddant yn ein rhoi mewn lle da.'*

- Rhaid i ymchwil a gwaith gwerthuso gael eu hariannu'n briodol a'u cynnwys yn y busnes craidd o'r cychwyn cyntaf er mwyn sicrhau y gellir mesur canlyniadau.

*'Sut ydych chi'n gwneud hyn yn fusnes craidd i bobl nad oes ganddynt ddiddordeb mewn rhai o'r pethau hyn? Os na fyddwn ni'n gwneud hynny, ac os na fyddwn ni'n ei gynnwys yn iawn ar y dechrau, sut ydym yn gwybod bod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn cael yr effaith iawn yn y diwedd oherwydd nad ydym yn gallu ei fesur?'*

- Dylid defnyddio ymchwil a gwerthuso i ddylanwadu mwy ar arfer.

*‘Yn gyffredinol, ym maes cyfiawnder ieuenctid, mae pobl yn gweithio ar lawr gwlad heb unrhyw wybodaeth wirioneddol am y data a'r ystadegau. Dwi ddim yn meddwl bod hynny'n cael ei ymgorffori fel mater o drefn, ond dylai fod. A dyw pobl ddim yn deall ... rhai o'r ddeddfwriaeth berthnasol … mewn gwirionedd.’*

- Dylai ymchwil gyda phlant a phobl ifanc fod yn ystyrlon yn hytrach nag yn symbolaidd.

*‘Nid yw cyfranogiad â phlant a phobl ifanc yn cael ei lywio gan blant a phobl ifanc. Yn aml, mae ar gyfer rhoi ticiau mewn blychau ar ôl eu hymyrraeth. Nid yw hyn yn mynd tuag at greu ymyriadau.’*

- Dim ond rhan o'r stori y mae mesurau canlyniadau meintiol neu 'galed' fel aildroseddu yn ei hadrodd. O ganlyniad, dylai gwerthusiadau o'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid (a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod) ymgorffori elfennau ansoddol cryf sy'n cofnodi canlyniadau 'meddalach', yn seiliedig ar adborth gan ddefnyddwyr a darparwyr gwasanaethau, teuluoedd a chymunedau.

*‘Mae gwir angen i'r gwerthusiad fod yn werthusiad amlochrog ac mae angen iddo ganolbwyntio nid yn unig ar ganlyniad mesuradwy, sef a yw'r unigolyn hwn wedi rhoi'r gorau i gyflawni troseddau? Mae'n gul. Rwy'n meddwl bod angen i’r gwerthusiad fod yn llawer ehangach na hynny: a ydynt yn cyrchu gwasanaethau? A ydynt yn mynd i'r ysgol? A oes swydd ganddynt? A oes cartref ganddynt?’*

- Dylai ymchwil a gwerthuso fod yn annibynnol a gwrthrychol a chael eu harwain gan ymchwilwyr a sefydliadau ymchwil allanol lle bo modd.

*‘Mae mor werthfawr cael partneriaid allanol yn ymwneud ag ymchwil a gwerthuso, i'w gadw'n wrthrychol, i'w gadw'n agored i graffu, ac yn y pen draw, i roi canlyniadau ac argymhellion dilys a dibynadwy i ni ynghylch y camau nesaf. Rwy'n meddwl bod data a data da yn sylfaenol i hyn’*

- Dylai'r gwerthusiad o'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid (a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod) geisio nodi pa mor effeithiol y bu gwaith partneriaeth amlasiantaethol o ran helpu i gyflawni nodau'r Glasbrint.

*‘Y cwestiwn ehangach i mi yw, a yw hon yn enghraifft dda o weithio mewn partneriaeth ai peidio? Mae’n debyg bod hynny’n dipyn o ofyn cwestiynau i'r bobl allweddol megis, pa rwystrau sydd wedi codi, ac a wnaethoch chi lwyddo i’w goresgyn? A oeddech yn teimlo y gallech gael yr hyn roedd ei angen arnoch?’*

- Dylid buddsoddi mewn gwerthusiadau tymor hwy oherwydd y bydd llawer o ganlyniadau yn cymryd amser i ddod i’r amlwg, a gallai plant a phobl ifanc a’u teuluoedd elwa ar gael rhywfaint o amser i fyfyrio arnynt. Teimlai'r rhanddeiliaid y byddai plant a phobl ifanc (a menywod) yn barod i gymryd rhan mewn ymchwil hydredol, ond y byddai angen i ymchwilwyr feithrin cydberthnasau ymddiriedus â nhw i hwyluso hyn.

*‘Mae angen rhywfaint o gyd-destun, ac mae angen rhywfaint o bellter ôl-weithredol wrth ystyried sut mae pobl yn teimlo am y ffordd y maent wedi cael eu trin. Felly, rwy’n meddwl y dylai mwy o fuddsoddiad fod yn edrych ar yr hyn y mae plant a theuluoedd yn ei ddweud ar ôl pump, saith, naw, deng mlynedd. A ydynt mewn lle gwell? A ydynt yn hapusach? A leihaodd troseddu iddynt? A oeddent yn teimlo bod ganddynt y sgiliau? Pa effaith a gafodd cael cofnod troseddol arnynt? A fyddent am i'w plant gael cofnod troseddol? A ydynt yn poeni? A ydynt wedi buddsoddi yn eu llwybr eu hunain, o ran a ydynt am dorri’r patrwm hwnnw ar gyfer eu plant?’*

*Beth sy'n gweithio'n dda wrth gynnal ymchwil gyda phlant a phobl ifanc?*

4.78 Argymhellodd y rhanddeiliaid nifer o ddulliau, technegau ac ystyriaethau y dylid eu cadw mewn cof wrth gynllunio gwerthusiad(au) o’r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid.

- Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc fel ymchwilwyr a mentoriaid cymheiriaid i gynnal ymchwil gyda / cefnogi plant a phobl ifanc sydd yn y system cyfiawnder ieuenctid. Awgrymodd un rhanddeiliad y gallai plant a phobl ifanc o oedrannau tebyg i’r rhai yn y system cyfiawnder ieuenctid neu sydd mewn perygl o fynd i mewn iddo ac sydd â phrofiadau neu gefndiroedd tebyg iddynt fod yn fodelau rôl cadarnhaol ac ysbrydoledig.

*‘Dylem wneud mwy o ddefnydd o bobl fel myfyrwyr i ddod yn fentoriaid cymheiriaid, yn enwedig ar gyfer atal ... mae'n meithrin hunan-barch yn aruthrol, ac mae'n meithrin y ddealltwriaeth honno o “Nawr rwy'n gweld beth roeddwn i'n ei wneud o'i le” … Ond mae'n rhaid eu dewis yn ofalus. Mae'n troi'n nhw a ninnau, ac mae'n dod yn hawdd i chi, os ydych yn dewis pobl sy'n dod o gefndiroedd breintiedig. Ond rydych yn meithrin gwell dealltwriaeth os ydych yn dewis mentoriaid cymheiriaid sydd wedi dod trwy faterion tebyg, sydd wedi gorfod wynebu problemau ac amgylcheddau tebyg.’*

- Dylai ymchwilwyr ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn ffordd sy’n briodol i’w hoedran / cam yn hytrach na defnyddio’r un dulliau ag y byddent gydag oedolion.

*‘Cyn belled â'n bod ni'n ymgysylltu â nhw mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac nid ydynt yn dynwared ein dull gydag oedolion â'r plant a'r bobl ifanc hynny, dylem gael gwybodaeth eithaf cyfoethog am eu profiadau o'n gwasanaethau ond hefyd am eu bywyd yn gyffredinol a beth sydd ei angen arnynt a’r hyn a fyddai'n eu helpu.’*

- Dylid ymgynghori â phlant a phobl ifanc ar ba ddulliau ymchwil sydd orau ganddynt, e.e., dulliau mwy traddodiadol fel cyfweliadau, a / neu ddulliau mwy arloesol fel fforymau cyd-greu, neu ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, fideos, neu gerddoriaeth.
- Yn unol ag arfer wedi'i lywio gan drawma, cael unigolyn y gellir ymddiried ynddo, e.e., rheolwr achos, i gyflwyno ymchwilwyr, i gefnogi plant a phobl ifanc i ymgysylltu â'r ymchwil. Dylai hyn gynnwys helpu i friffio plant a phobl ifanc ymlaen llaw i sicrhau eu bod yn deall y cwmpas a’r gofynion yn llawn, ac i leddfu unrhyw bryderon sydd ganddynt yn ei gylch.
- Mae ymchwilwyr yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu dilysu trwy gymryd rhan mewn ymchwil, ac yn deall y bydd eu hadborth yn cael ei ddefnyddio i helpu i wella cefnogaeth i eraill sydd yn eu sefyllfa yn y dyfodol.

- Lle bo modd, dylid cynnal ymchwil mewn lleoliad lle mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel.
- Mae'n bosibl y bydd angen cynnal ymchwil dros nifer o sesiynau, oherwydd y gall plant a phobl ifanc golli apwyntiadau.
- Mae cynnig cymhellion yn bwysig er mwyn cydnabod amser ac ymdrech plant a phobl ifanc. Mae’r rhain yn aml yn cynnwys cardiau rhodd, ond nid ydynt bob amser yn ariannol, a gallent hefyd gynnwys credydau amser, cyfleoedd i rannu eu gwaith o flaen cynulleidfaoedd ehangach, datblygu sgiliau, a chyrsiau hyfforddi.
- Dylech osgoi dulliau papur, hunan-gwblhau, fel taflenni gwaith, wrth gynnal ymchwil gyda phlant a phobl ifanc.

*Adborth pobl ifanc ar ymchwil a gwerthuso*

4.79 Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc y buom yn siarad â nhw yn gwerthfawrogi cael y cyfle i gymryd rhan mewn ymchwil ac i'r holl asiantaethau perthnasol glywed eu barn. Roedd rhai wedi cymryd rhan mewn ymchwil o'r blaen. Dywedodd y rhan fwyaf o’r bobl ifanc hyn hefyd y byddent yn barod i gymryd rhan mewn ymchwil eto yn y dyfodol, er mwyn ceisio gwella pethau i bobl ifanc eraill sydd yn eu sefyllfa nhw yn y dyfodol.

> *‘Mae gen i lawer o ffrindiau sy'n mynd mewn i drwbl, a dwi'n gwybod ei fod yn anodd iawn i rai pobl, felly, yn amlwg, rwy'n teimlo ei fod yn well os ydw i'n gallu gwneud pethau ychydig yn well iddynt oherwydd fy mod i wedi gwneud rhywbeth.’*

4.80 Nid oedd rhai yn argyhoeddedig a fyddai eu lleisiau'n 'gwneud gwahaniaeth', er bod un unigolyn ifanc yn teimlo y gallai clywed safbwyntiau cyfoedion yn y ddalfa atal eraill rhag cyflawni trosedd a mynd i'r ddalfa yn y dyfodol.

> *‘Bydd fy llais yn mynd allan i bobl sydd mewn sefyllfa lle gallent fod ar y ffin honno o ddod i'r ddalfa, a gallent ei glywed gan bobl sydd wedi bod yn yr un sefyllfa honno ... ac sydd bellach yn byw bywydau llawn ar ôl bod trwy eu dedfryd. Eu dewis nhw yw p’un a ydynt yn dewis gwrando ac a ydynt yn gwrando, byddant yn ei osgoi cymaint ag y gallant ac os nad ydynt yn gwrando,*

*yna byddant yn gwneud rhywbeth gwirion a chael eu rhoi yn y ddalfa yn y diwedd ac yn sylweddoli y dylent fod wedi gwrando ar yr hyn yr oedd pobl yn y ddalfa yn ei ddweud wrthynt yn flaenorol.'*

4.81 Dywedwyd nad oedd oedran, rhyw ac ethnigrwydd ymchwilwyr yn bwysig i'r bobl ifanc y siaradom â nhw.

*'Dydw i ddim yn categoreiddio pobl. Mae unigolyn yn unigolyn, p'un a yw'n ddu, neu'n wyn. Does dim ots.'*

4.82 Dywedwyd ei bod yn bwysicach deall anghenion a dewisiadau pobl ifanc (gan gynnwys sut a phryd y dylid cynnal yr ymchwil), a'u trin â pharch wrth eu cynnwys mewn ymchwil.

*'Dylai fod yn iawn cyn belled â bod ganddynt ddealltwriaeth niwtral o sut mae'r unigolyn ifanc hwnnw a beth yw ei anghenion a sut i siarad â nhw mewn ffordd y byddant yn ei ddeall.'*

4.83 Gwnaeth un unigolyn ifanc arall dynnu sylw at bwysigrwydd ystyried cyflwr emosiynol pobl ifanc cyn eu cynnwys mewn ymchwil.

*'Mae'n dibynnu ar sut mae'r unigolyn yn dod ymlaen. Pe bai hyn rhyw dri mis yn ôl, ni fyddwn yn eistedd yma ar hyn o bryd. Mae'n debyg y byddwn yn dy anwybyddu oherwydd fy mod mewn lle tywyll pan ddois i yma'n gyntaf, ond mae'n dibynnu ar feddylfryd yr unigolyn hwnnw ar y pryd.'*

4.84 Dywedodd rhai o'r bobl ifanc y byddai'n well ganddynt osgoi cymryd rhan mewn ymchwil yn y bore ac yn hytrach byddai'n well ganddynt sesiwn brynhawn neu gyda'r nos. Roedd nifer o'r farn y byddai ymchwil dan arweiniad cymheiriaid yn haws ac yn *'fwy sgwrsiol'* oherwydd y gall pobl ifanc fod yn fwy agored gyda rhywun sydd â phrofiadau tebyg.

4.85 Pan ofynnwyd iddynt sut yr hoffent roi adborth yn y dyfodol, ni fyddai'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn awyddus i roi adborth trwy banel. Dywedodd rhai y byddent yn ystyried rhannu gwybodaeth trwy'r cyfryngau cymdeithasol, fel TikTok.

4.86 Dywedodd rhai o'r bobl ifanc y byddent yn teimlo'n anghyfforddus yn cymryd rhan mewn sesiwn ymchwil grŵp ac y byddai'n well ganddynt siarad ag ymchwilydd mewn sesiwn un-i-un.

*‘Dwi ddim yn siŵr am grŵp. Dwi wir ddim yn hoff o lawer o bobl.’*

4.87 Fodd bynnag, dywedodd eraill y byddai ganddynt ddiddordeb mewn gwrando ar brofiadau a barn pobl eraill mewn lleoliad grŵp.

*‘Hoffwn glywed am eu profiadau ... dwi ond yn gwybod beth mae fy ffrindiau wedi bod drwyddo, a dyw fy ffrindiau ddim yn debyg i mi ... Gan nad yw fy ffrindiau'n debyg i mi, mae'n debyg bod eu barn a'u hagwedd yn hollol wahanol i fy rhai i.’*

4.88 Nid oedd y bobl ifanc yn awyddus iawn i ysgrifennu dyddiaduron fel rhan o brosiectau ymchwil.

*‘Rwy'n meddwl y byddwn i'n mynd ar goll; Rwy'n dueddol o roi pethau'n ddiogel a pheidio gallu dod o hyd iddynt eto.’*

*‘Dwi ddim yn gwybod am ysgrifennu oherwydd bod hynny'n cymryd dipyn o amser ac yn dipyn o ymdrech. Rwy'n hapus i gael sgwrs.’*

*Pa mor ymarferol fyddai gwerthuso'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid ochr yn ochr â'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod gyda'i gilydd?*

4.89 Awgrymodd y rhan fwyaf o randdeiliaid y gellid defnyddio dull thematig tebyg o werthuso’r ddau Lasbrint gan fod y ddau Lasbrint yn cynnwys yr un rhanddeiliaid a sefydliadau i raddau helaeth ac yn targedu canlyniadau tebyg. Fodd bynnag, roeddent yn tueddu i argymell y dylai gwerthusiadau'r ddau Lasbrint aros ar wahân i gydnabod y gwahaniaethau rhwng y Glasbrintiau.

*‘Er ein bod yn ceisio dargyfeirio'r ddau grŵp hynny oddi wrth y system cyfiawnder troseddol, efallai y gallech wneud gwerthusiad ar ddargyfeirio, ond mae angen dwy bennod arnoch o hyd oherwydd bod y camau yr ydym yn eu cymryd yn wahanol iawn o gymharu â'r ddwy garfan hynny.’*

4.90 Dywedodd cyfran o’r rhanddeiliaid y gellid gwerthuso rhai rhannau o’r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod gyda’i gilydd i adlewyrchu eu nodau a’u themâu cyffredin, ond y dylid gwerthuso rhannau eraill ar wahân i adlewyrchu anghenion penodol plant a phobl ifanc a menywod.

*‘Dwi ddim yn meddwl y dylid eu hystyried ar wahân oherwydd bod ganddynt egwyddorion bras sy'n gorgyffwrdd yn glir, hyd yn oed os yw'r ffordd o gyflwyno'r*

*gweithgaredd yn wahanol a'r manylion yn wahanol. Yr egwyddor drosfwaol yw atal y troseddu yn y lle cyntaf ac os ydyw, atal aildroseddu ac ailsefydlu. Mae hyn yn gyffredin am y ddau.'*

4.91 Awgrymodd un rhanddeiliad y gallai'r dull gwerthuso hwn fod ar ffurf y 'diagram Venn' sy'n cydnabod y tebygrwydd ond eto'n cyfleu'r gwahaniaethau rhwng y Glasbrintiau. Er enghraifft, dylai'r ddau ddull gwerthuso fod wedi'u llywio gan drawma, ond ar gyfer plant a phobl ifanc, byddai'r dull yn canolbwyntio ar y plentyn, yn cydnabod y cam datblygiadol, a rôl addysg. Ar gyfer menywod, dylai'r dull gydnabod statws yr un sy'n rhoi gofal; trawma a brofir fel plentyn ac fel oedolyn; natur fwy sefydledig eu troseddu o bosibl; a chael ei lywio gan ryw.

4.92 Dywedodd rhai o'r rhanddeiliaid, pe bai dull o’r fath yn cael ei roi ar waith, dylai gwerthuswyr gydweithio i rannu ac ymgorffori’r hyn a ddysgwyd o’u gwerthusiadau priodol.

*‘Mae angen i ni gadw llygad ar yr hyn y gellir ei wneud gyda'n gilydd a beth sy'n wahanol, yn hollol wahanol. Mae yna agweddau y gellid eu hystyried gyda'i gilydd. Rwy’n sicr yn meddwl y gallent ddysgu mwy oddi wrth ei gilydd. Felly, hyd yn oed os byddwch yn eu gwerthuso’n hollol ar wahân, credaf y dylai rhannau o’r system i fenywod gael eu cynnwys yn system y plentyn. A dylai’r hyn a ddysgir o'r system i blant gael ei gynnwys yn y system i fenywod. Rwy'n meddwl pan edrychwch ar yr agweddau o'r themâu y mae'r ddau yn eu hystyried, mae'n bosibl y gallent fod wedi dysgu mwy oddi wrth ei gilydd ar hyd y ffordd.’*

4.93 Er eu bod yn cydnabod bod gan y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod rai blaenoriaethau tebyg, roedd rhai o'r rhanddeiliaid yn teimlo mai dim drwy gynnal gwerthusiadau ar wahân y byddai’n bosibl nodi blaenoriaethau a'u camau gweithredu penodol y glasbrintiau'n llawn yn ogystal â'r hyn sy'n gweithio'n dda, a'r hyn nad yw'n gweithio cystal.

*‘Efallai bod y dull yr un peth, neu'n debyg, ond rwy'n meddwl bod angen i chi eu cadw ar wahân. Os yw un [o'r Glasbrintiau] yn llwyddiant mawr a'r llall yn llai llwyddiannus, gallwch fesur y llwyddiant ar wahân ar gyfer y naill neu'r llall.’*

4.94 Roedd eraill o'r farn y gall gwerthusiad cyfun o’r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod fod yn or-gymhleth, yn ddrud, ac yn anodd ei roi ar waith yn ymarferol. Roedd rhai o'r rhanddeiliaid yn teimlo na fyddai gwerthusiad cyfun yn gweithio oherwydd bod strwythur a'r system llywodraethu e-gyfiawnder i'r ieuenctid a menywod yng Nghymru yn rhy wahanol.

4.95 Yn ôl eraill, gallai cyfuno’r gwerthusiadau anwybyddu gwahaniaethau pwysig yn y gweithgareddau a ddarperir a’r effeithiau a gyflawnir gan y ddau Lasbrint. Roeddent felly yn argymell gwerthusiadau ar wahân a oedd yn ddigon hyblyg i ganfod y naws yn y ddau Lasbrint. Roedd rhai hefyd yn argymell cadw’r gwerthusiadau ar wahân ond cynhyrchu dogfen drosfwaol unwaith y bydd y gwerthusiadau wedi’u cwblhau sy’n cymharu ac yn cyferbynnu canfyddiadau’r ddau werthusiad er mwyn helpu i lunio polisïau a dysgu ehangach.

> *‘Rwy'n meddwl y byddai angen i chi wneud [y gwerthusiadau o'r ddau Lasbrint] ychydig yn wahanol ... O ganlyniad i hynny, gallech gynhyrchu rhywbeth sy'n … hygyrch ac sy'n siarad â grwpiau polisi neu weinidogion. Gellid cynnal yr astudiaethau academaidd manylach ar wahân. Mewn gwirionedd, ystyriwch sut y byddech yn mynd i'r afael â hyn gyda phlant o gymharu â sut y byddech chi'n mynd i'r afael â hyn gydag oedolion. Rwyf hefyd yn meddwl y byddwn yn colli gormod, gan na fydd [gwerthusiad cyfun] yn ddigon hyblyg.’*

*A oes unrhyw fylchau yn y sylfaen dystiolaeth ynghylch taith plant a phobl ifanc drwy'r system cyfiawnder ieuenctid?*

4.96 Awgrymodd y rhanddeiliaid fod y bylchau canlynol yn bodoli yn y sylfaen dystiolaeth mewn perthynas â thaith plant a phobl ifanc drwy’r system cyfiawnder ieuenctid[27].

- Profiadau plant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig o fewn y system cyfiawnder ieuenctid, i gadarnhau a yw’r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yr un mor effeithiol o ran gwella canlyniadau i’r plant a’r bobl ifanc hyn o gymharu â’u cyfoedion gwyn[28].

[27] Er bod rhywfaint o dystiolaeth yn bodoli ar y pynciau hyn, mae'n bosibl nad oedd y rhanddeiliaid yn ymwybodol ohoni. Darperir rhywfaint o'r dystiolaeth berthnasol sy'n bodoli eisoes mewn troednodiadau, er nid yw hyn yn hollgynhwysfawr.
[28] Nid oes unrhyw ymchwil cyhoeddedig wedi archwilio'n benodol effaith y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig o gymharu â'u cyfoedion gwyn hyd

- Effaith ehangach anghydraddoldeb ar daith plant a phobl ifanc (a menywod) drwy'r system, e.e., tlodi, gwahaniaethu, iechyd meddwl gwael, effaith nodweddion gwarchodedig.

- I ba raddau y mae darpariaeth y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd â chyflyrau niwrolegol amrywiol, a'r rhai ag anableddau dysgu ac anableddau[29].

- Pam na ddefnyddir dargyfeirio mwy yn lle llysoedd a dedfrydu ar gyfer plant a phobl ifanc[30].

- Dealltwriaeth y cyhoedd o sut olwg sydd ar deithiau plant a phobl ifanc (a menywod) drwy'r system, er mwyn helpu i leihau stigmateiddio'r rhai sy'n cyflawni troseddau, ac i hwyluso'r ddealltwriaeth bod y sawl sy'n cyflawni trosedd yn aml yn ddioddefwyr hefyd.

- Archwilio profiadau plant a phobl ifanc yn y ddalfa[31].

- Deall anghenion a phrofiadau merched yn y system cyfiawnder ieuenctid[32].

- Deall taith plant a phobl ifanc Cymru.

- Troseddoli plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal [33].

---

yma. Mae tystiolaeth gysylltiedig yn cynnwys Tackling Racial Injustice: Children and the Youth Justice System (JUSTICE, 2021; a "Black is guilty in their eyes": Experiences of black and mixed race boys in youth justice services (User Voice, 2021).

[29]Gweler Young Lives Behind Bars: The health and human rights of young people detained in the criminal justice system (Cymdeithas Feddygol Prydain, 2014); A The Royal College of Speech and Language Therapists Justice Evidence Base (2017). Mae Adolygiad mwy diweddar o dystiolaeth ar niwroamrywiaeth yn y system cyfiawnder troseddol (HMICFRS, 2021) ar gael sy'n ymwneud ag oedolion.

[30]Gweler Disparities in youth diversion – an evidence review (Y Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder, 2021); Adroddiad Blynyddol: Arolygu gwasanaethau troseddwyr ifanc (Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, 2019); Six steps forward for diversion in the youth justice system (Y Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder, 2022).

[31] Mae adolygiadau thematig ac adroddiadau arolygu Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhyd''n ymgorffori barn plant a phobl ifanc yn y ddalfa. Gweler hefyd adroddiadau Rhan 1 aRhan 2 gan Bwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin.

[32] Gweler Girls and Youth Justice (Hodgson, 2022); Merched yn y System Cyfiawnder Troseddol (Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, 2014).

[33]Gweler Ending the criminalisation of children in residential care (Howard League for Penal Reform, 2017); ProCymru Cymru Gyfan: Lleihau nifer y plant ac oedolion ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael eu troseddoli (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Gartref, a Llywodraeth Cymru, 2022).

- Camfanteisio’n droseddol ar blant a phobl ifanc[34].
- Ymddygiad rhywiol niweidiol / amhriodol ymhlith plant a phobl ifanc a sut y gall gwasanaethau fynd i’r afael ag ef[35].
- Effeithiolrwydd rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau partner i sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu deall a'u diwallu.
- Beth sy'n sbarduno ymddygiad troseddol, a beth sy'n ei arwain i stopio.

*Sut gallwn ni wella’r llif gwybodaeth a gesglir am blant a phobl ifanc drwy’r system cyfiawnder ieuenctid?*

4.97 Argymhellodd y rhanddeiliaid fod modd gwella’r llif gwybodaeth a gesglir am blant a phobl ifanc drwy’r system cyfiawnder ieuenctid drwy'r canlynol:

- Roedd y rhanddeiliaid yn pwysleisio’n gryf fod gennym ddulliau cyson o gasglu data, systemau a rennir, a phrotocolau a chytundebau rhannu data rhwng yr holl asiantaethau perthnasol, fel y’u nodwyd mewn man arall;
- Asiantaethau (e.e., Timau Troseddwyr Ifanc / gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid; sefydliadau diogel; gwasanaethau cymdeithasol; ysgolion) yn cytuno ar ddangosyddion a rennir y dylent gasglu data arnynt i ddangos set glir o ganlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc, ar adegau penodol;
- Datblygu 'pasbort' sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol sy'n dilyn plant a phobl ifanc (a menywod) ar eu taith drwy'r system. Byddai hyn yn dileu'r angen i asiantaethau barhau i ofyn i blant a phobl ifanc (a menywod) ailadrodd yr un wybodaeth a byddai'n galluogi asiantaethau i 'amserlennu' bywydau plant a phobl ifanc a nodi sut y gall anghenion cymorth newid dros amser;

[34] Gweler “It was hard to escape”: Safeguarding children at risk from criminal exploitation (Panel Adolygu Arferion Diogelu Plant, 2020); No Place at Home (Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar gyfer Plant ac Oedolion Wedi Ffoi ac Ar Goll, 2020).
[35] Gweler Ymddygiad Rhywiol Niweidiol (Barnardo's Cymru, 2021); a Research briefing: harmful sexual behaviour (NSPCC, 2017);

- Buddsoddi mewn technoleg i gynorthwyo i gasglu data ansoddol a meintiol gan blant a phobl ifanc[36];
- Meithrin ymddiriedaeth a chydberthynas â phlant a phobl ifanc (a menywod) er mwyn cael gwybodaeth fanwl ganddynt am eu hanghenion a'u hanes;
- Arbenigwyr data sy'n cefnogi'r rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc drwy roi gwybodaeth berthnasol wedi'i theilwra iddynt i gefnogi ymchwil a gwerthuso ar gais.

## 5. Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru

5.1 Yn yr adran hon, rydym yn trafod canfyddiadau'r cyfweliadau â rhanddeiliaid a menywod am bwysigrwydd, heriau, cyfyngiadau, ansicrwydd a gwerthuso blaenoriaethau'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod.

*Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru: Ymyrraeth gynnar ac atal*

Yn ôl y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod, dylai'r blaenoriaethau ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal, yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol trosedd, fod fel a ganlyn:

- Dargyfeirio menywod, lle bo'n briodol, oddi wrth droseddu ac i wasanaethau cymorth cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar fenywod, yn y gymuned ac sy'n diwallu eu hanghenion.

- Archwilio opsiynau ar gyfer gwasanaethau wedi'u llywio gan drawma a all ddiwallu orau anghenion menywod agored i niwed, a theuluoedd, y mae PNYP yn effeithio arnynt ac sydd mewn perygl o ddod i mewn i'r system, gan ddysgu o'r dull ECM.

*Heriau, cyfyngiadau ac ansicrwydd o ran ymyrraeth gynnar ac atal*

5.2 Gwnaeth y rhanddeiliaid dynnu sylw at ystod o heriau, cyfyngiadau ac ansicrwydd allweddol yn ymwneud â'r flaenoriaeth ymyrraeth gynnar ac atal yn y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod.

[36] Dylai'r penderfyniad ynghylch pwy ddylai fuddsoddi mewn technoleg gael ei wneud gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r asiantaethau perthnasol.

5.3 Dywedodd sawl un am yr angen i ddiffinio’n glir pa weithgareddau a dulliau gweithredu sy’n cael eu cynnwys mewn ymyrraeth gynnar ac atal er mwyn eu targedu’n briodol a sicrhau’r budd mwyaf posibl i ddefnyddwyr gwasanaeth ac o ran bod yn gost-effeithiol. Dywedwyd bod gwahaniaethu rhwng atal cychwynnol ac atal eilaidd yn arbennig o hanfodol yn hyn o beth.

*‘ … Nid yw atal cychwynnol yn atal rhywbeth rhag digwydd eto; mae'n atal rhywbeth rhag digwydd yn y lle cyntaf ... Yn y byd cyfiawnder troseddol, yn aml nid oes unrhyw ysgogiadau na grym i'r bobl hynny ... i fynd i mewn i'r hyn a elwir yn atal cychwynnol. Mae hynny fel arfer yn rhan o wasanaethau cymdeithasol, tai a phethau sy’n ymwneud â Llywodraeth Cymru. Felly, pan ddaw cyfiawnder troseddol i gysylltiad â phobl … mae'r pethau y gwnaethoch chi geisio eu hatal eisoes wedi digwydd oherwydd dyna pam eu bod yno. Yn aml, rydym yn darganfod … bod llawer o sectorau yn awgrymu eu bod yn gwybod beth yw atal cychwynnol a’u bod yn ei wneud ond mewn gwirionedd yr hyn y maent yn ei wneud yw [atal eilaidd] ... Dyna'r peth cyntaf … dealltwriaeth sylfaenol o'r diffiniad o'r hyn y mae'n ei olygu.’*

5.4 Teimlai eraill fod angen ar waith cydweithredu cryf neu gryfach rhwng asiantaethau sy’n darparu gweithgareddau atal, a rhwng y cyrff statudol sy’n gyfrifol am eu comisiynu. Dywedwyd bod cydnabod eu rôl yn y gweithgareddau hyn a'u cyfraniad atynt yn hollbwysig, ynghyd â chyfathrebu clir a chyson, a gweledigaeth ar y cyd o'u strwythur a'u diben.

*‘Rwy'n meddwl bod rhai o'r heriau allweddol yn ymwneud â chael pob maes o lywodraeth a gwasanaeth cyhoeddus i gydnabod y rôl sydd ganddynt i'w chwarae mewn atal ac ymyrraeth gynnar. Rwy'n meddwl am y rhannau o'r sector sy'n amlwg yn ymwneud â chyfiawnder, yna mae'n haws eu cael i ymrwymo. Mae'n rhan o'r hyn y dylen nhw fod yn ei wneud beth bynnag. Ond wedyn, pan fyddwch chi'n sôn am feysydd ehangach fel tai, iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft, gall fod yn fwy anodd cydnabod bod ganddynt rôl i'w chwarae, neu eu perswadio i gydnabod bod ganddynt rôl i'w chwarae yn yr agenda atal ac ymyrraeth gynnar.’*

5.5 At hynny, ystyriwyd bod cryfhau cysylltiadau rhwng sefydliadau cyfiawnder troseddol a phartneriaethau diogelwch cymunedol yn arbennig o bwysig o ran gwella gwasanaethau atal / ymyrraeth gynnar, yn enwedig o ystyried y rôl hanfodol y mae'n rhaid i gymunedau ei chwarae wrth gyflawni nodau'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod.

5.6 Ar nodyn cysylltiedig, pwysleisiodd nifer o randdeiliaid y rôl bwysig a chwaraeir gan wasanaethau craidd neu gyffredinol mewn atal. Yn wir, credwyd mai'r gwasanaethau hyn oedd y lle gorau i gynnig dulliau atal ar y lefel fwyaf sylfaenol, oherwydd, erbyn i fenywod ddod i gysylltiad â'r rhai ym maes cyfiawnder troseddol, ei fod yn 'rhy hwyr' i gael eu hystyried felly.

*‘ ... mae gwasanaethau cyfiawnder troseddol yn dod i gysylltiad â phobl ... unwaith y byddant eisoes wedi dechrau troseddu, felly nid yw'n ymyrraeth gynnar ac atal mewn gwirionedd. Mae gwir angen i chi ymgysylltu â phobl cyn iddynt ddechrau troseddu, nad ydynt o reidrwydd yn rhan o gylch gwaith gwasanaeth cyfiawnder troseddol. Mae'n debyg bod hynny'n rhan o bethau fel addysg neu sefydliadau gwirfoddol yn hytrach na'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol ...’*

5.7 Dywedwyd bod ymyrraeth gynnar ac atal yn cyflwyno heriau penodol i blismona, yn enwedig o ran: ‘ymrwymiad' o'r rheng flaen; sefydlu pwy allai elwa ar *wasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal;* a gwybod pa lwybrau atgyfeirio sydd ar gael i’r menywod hyn (er ei bod yn ymddangos bod cyflwyno’r fframwaith gwarediadau tu allan i'r llys dwy-haen yn Ne Cymru a Gwent wedi helpu i hwyluso hyn).

*‘ ... sut gall yr heddlu ymateb i fenywod sy'n dangos lefelau uchel o fod yn agored i niwed a all waethygu yn y pen draw i ymddygiad troseddol ac ymateb i'r unigolion hynny. Yn enwedig ... oherwydd bod cael mynediad at gymorth iddynt o fewn awdurdod lleol yn llawer mwy heriol na chael plant i gael mynediad at gymorth, oherwydd nad wyf yn gwybod a oes gwasanaethau ymyrraeth gynnar gyfatebol i oedolion fel sydd ar gyfer plant.’*

*‘... Dyna'r her i ni … [y rheng flaen] o beidio â deall na derbyn y negeseuon a'r holl ethos y tu ôl iddo, [a] sut yr ydym wedyn yn trosi hynny'n atebion ymarferol, gweithredol …’*

5.8 Dywedwyd hefyd ei bod yn anodd i asiantaethau eraill nodi pa fenywod sydd angen gwasanaethau atal arnynt - a pha ymyriadau sydd fwyaf priodol ar eu cyfer - yn enwedig gan eu bod yn aml yn unigolion cymhleth gyda llawer o anghenion gwahanol ac nad oes llawer o gyfle i'w hadnabod cyn iddynt ddechrau troseddu. Gwnaethpwyd cymariaethau â phlant a phobl ifanc, a'r cyfleoedd niferus sydd ar gael i nodi ac atal trwy ysgolion.

> *‘ ... mae ychydig yn wahanol i adnabod yr oedolion hynny sy'n dangos ymddygiadau a allai arwain at droseddu nag ydyw gyda phlant. Oherwydd, gyda phlant, ei fod yn ofynnol iddynt i gyd fynd i'r ysgol, felly maent yn cael eu harsylwi gan weithwyr proffesiynol ... ond gydag oedolion ... ni allwch ddechrau adnabod yr ymddygiadau hynny oni bai eu bod yn dechrau troseddu fel plant sy'n dod yn oedolion. Rwy’n meddwl mai dyna’r her fwyaf, yn sicr ar gyfer y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod ... adnabod a'r cyfleoedd i adnabod yr unigolion hynny.’*

5.9 Wrth ystyried atal, dywedwyd hefyd bod mabwysiadu meddylfryd di-gosb a ffyrdd gwahanol o weithio yn heriau i'r heddlu, rhai asiantaethau partner, a'r cyhoedd. Fel y dywedodd un rhanddeiliad, mae'r dull adsefydlu a ddefnyddir gan y Glasbrintiau yn aml yn cael ei weld fel un 'meddal'. Dywedwyd bod hyn yn cael ei waethygu gan ddiffyg gwybodaeth ynghylch beth yn union y mae 'taith' adsefydlu drwy'r system yn ei olygu, yn ogystal â rhethreg hirsefydlog y Llywodraeth ganolog o fod 'yn llym ar droseddu'.

> *‘Yr arwyddair, yr elfen o bropaganda hynny, 'yn llym ar droseddu, yn llym ar achosion troseddu' … os mai dyna safbwynt y llywodraeth … weithiau, mae diffyg dealltwriaeth o'r broses o atal, ymyrraeth gynnar a dargyfeirio … Mae sylfaen dystiolaeth enfawr, a llawer o amser y tu ôl i rai o'r penderfyniadau a wneir, ond bydd pobl yn parhau i feddwl eich bod yn feddal ar droseddu, a'ch bod yn feddal ar bobl sy'n troseddu …’*

5.10 Trafodwyd sawl her yn ymwneud ag argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau atal i fenywod. Ystyriwyd bod cael yr ymyriadau, y gwasanaethau, y sgiliau a’r llwybrau cywir ar waith i ddiwallu anghenion unigol yn allweddol – yn ogystal ag argaeledd adnoddau (ariannol a dynol) i’w cyflawni.

*‘Rwy'n meddwl bod nifer o heriau ... weithiau, nid yw'n ymwneud ag arian hyd yn oed; mae'n ymwneud ag argaeledd. Faint bynnag o arian sydd gennych, mae cael nyrs seiciatrig yn anodd iawn ar adegau, mae cael adroddiadau seiciatrig yn hynod o anodd, felly … mae cyllid yn un peth ond mewn gwirionedd mae'n golygu cael digon o bobl fedrus allan yna yn y maes, waeth faint o arian fydd ar gael. Nid oes gennym gronfa ddiwaelod o arian ond hyd yn oed pe byddai gennym un, nad yw'n golygu bod y gwasanaethau'n mynd i fod ar gael neu fod gennym ddigon o bobl i ddarparu'r gwasanaethau hynny.’*

5.11 Ystyriwyd bod datblygiad y canolfannau amlddisgyblaethol i fenywod sydd ar ddod yn gadarnhaol yn hyn o beth, yn enwedig mewn perthynas â chael cyfleuster i ddargyfeirio menywod o'r ddalfa i ddarpariaeth yn y gymuned, lle gellir canfod a mynd i'r afael â'u hanghenion, a hwyluso’r broses o ddychwelyd yn raddol i annibyniaeth.

5.12 Serch hynny, codwyd mater anghydraddoldeb darpariaeth ledled Cymru gan nifer o randdeiliaid, a bwysleisiodd bwysigrwydd cysondeb daearyddol y ddarpariaeth mewn perthynas ag atal ac ymyrraeth cyn mynd i'r llys.

*‘ … Bydd y ddarpariaeth yn newid mewn perthynas â thirwedd ac argaeledd ymyriadau [ond] ni ddylai’r cynnig ynghylch dargyfeirio, y cynnig ynghylch atal, a’r cynnig ynghylch ymyrraeth newid oherwydd eich bod yn byw yng Ngogledd Cymru neu yn Ne Cymru; dylech gael yr un mynediad at y gwasanaeth.’*

5.13 Credwyd bod y dull system gyfan yn Ne Cymru a Gwent sydd wedi arwain at *'lwybr cadarn a rhyw-benodol'* yn enghraifft o'r anghydraddoldeb hwn, a oedd i'w weld yn digwydd o ganlyniad i ddiffyg cyllid a buddsoddiad yn ardaloedd eraill Cymru.

*‘ ... mae'n iawn cael opsiynau i asesu a brysbennu menywod ... ond mae angen i chi gael llwybrau ar gyfer eu dargyfeirio ... Yn Ne Cymru a Gwent a Gogledd Cymru a Dyfed Powys, mae trefniadau dargyfeirio i fenywod yn wahanol. Mae hynny'n bennaf oherwydd y ffaith nad oedd gan Ogledd Cymru a Dyfed Powys y buddsoddiad ar gyfer cyflawni'r dull system gyfan.’*

5.14 O ran anghydraddoldeb, nodwyd diffyg ystyriaeth hefyd i anghenion menywod â nodweddion gwarchodedig o ran a oes angen ymyriadau ataliol gwahanol ar gyfer

menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig neu’r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

5.15 O ran ffocws gwasanaethau atal, nodwyd bod gwella deialog, cynllunio a chysylltiadau rhwng y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod i gefnogi pobl ifanc 18-25 oed yn her. Yn benodol, os yw plant a phobl ifanc yn ymateb yn dda i ddarpariaethau penodol, pwysleisiwyd yr angen i barhau i gynnig y rhain yn ystod y cyfnod pontio i fyd oedolion.

*‘ … Mae hynny'n wir nid yn unig i atal ond i holl agweddau'r Glasbrintiau hyn; ar bob lefel, mae angen i ni wneud yn siŵr bod rhywfaint o orgyffwrdd ynghylch y ffordd a'r math o wasanaeth dan sylw. Mae'n wych gweld bod hynny wedi bod yn digwydd i raddau.’*

5.16 Ystyriwyd bod cael cefnogaeth strategol ac ymrwymiad parhaus ar draws holl ffrydiau gwaith y Glasbrint yn ganolog i’w llwyddiant, yn enwedig pan fydd gweinidogion a llywodraethau (a’u blaenoriaethau) yn newid. Dywedwyd y gellir colli momentwm yn ystod cyfnodau trosiannol o'r fath. Roedd meithrin cydweithio, cydberthnasau, a gweledigaeth a rennir rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU hefyd yn cael ei ystyried yn allweddol i sicrhau bod atal yn parhau i fod ar yr agenda – ac roedd awgrym y byddai’r fframwaith atal cenedlaethol a grybwyllwyd eisoes yn helpu gyda hyn.

*‘ … yr hyn sydd ei angen arnom yng Nghymru [yw] [fframwaith] atal a … byddai datblygu hwnnw … yn gweld sefydliadau datganoledig a sefydliadau heb eu datganoli yn alinio'n gyflym iawn â’r ymrwymiad hwnnw.’*

5.17 Dywedodd rhai o'r rhanddeiliaid fod cael cyllid cynaliadwy i ddarparu a gwella gwasanaethau yn hanfodol, gyda rhai ohonynt hefyd yn myfyrio ar gost-effeithiolrwydd atal. Dywedwyd hefyd ei bod yn bwysig cydlynu cyllid ac adnoddau i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn berthnasol ac nad ydynt yn cael eu dyblygu wrth symud ymlaen.

*‘Mae nifer o bartneriaid comisiynu yn y maes hwnnw, [ond] nid oes llawer o gydlynu o ran y cyllid priodol, os o gwbl, a gall hynny arwain at ddyblygu,*

*bylchau, a rhoi pwysau ar bartneriaid cyflawni yn gorfod adrodd ar gyllidwyr a meysydd cyflawni lluosog.'*

5.18 Dywedwyd bod cystadleuaeth gynyddol am adnoddau rhwng asiantaethau partner yn her ychwanegol y gellid mynd i'r afael â hi trwy weithio mewn partneriaeth gref a pherchnogaeth ar y cyd ar draws yr holl asiantaethau perthnasol. At hynny, byddai gwella strwythurau atebolrwydd ariannu yn meithrin dealltwriaeth o le mae'r arian yn cael ei wario ar wasanaethau atal ac yn galluogi i ddarlun cliriach gael ei greu o effaith y cyllid hwn.

*' … nid wyf yn hyderus bod gennym drosolwg [o] gyfanswm yr arian sy'n cael ei fuddsoddi naill ai mewn dulliau atal neu [dargyfeirio] … ni allem ddweud ar beth y mae'r arian wedi'i wario neu ar beth y mae'n anelu at ei gyflawni ac a ydym yn cael y gwerth am arian gorau... mae'n wirioneddol bwysig mynd at wraidd hwn a chreu mecanwaith ariannu ac adrodd mwy integredig sy'n seiliedig ar ganlyniadau.'*

5.19 Yn olaf, ac yn ôl rhai o'r rhanddeiliaid, mae natur wirfoddol rhai gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal yn ei gwneud yn anos ymgysylltu â'r rhai sydd eu hangen.

*' … mae'n rhaid i unrhyw gymorth a gwasanaethau yr ydych yn eu rhoi ar waith fod drwy gydsyniad … oherwydd nad ydynt yn debygol o fod ar lefel lle maent wedi [cyrraedd] y … lefel gwasanaeth statudol. Felly, dyna'r her fwyaf … eu cael i ymgysylltu â gwasanaethau y mae'n rhaid iddynt wirfoddoli neu gydsynio i ymgysylltu â nhw. Ar lefel fwy trydyddol, os ydynt wedi cael eu cynnwys gan y gwasanaethau cymdeithasol, yna mae'n ofynnol iddynt wneud rhai pethau i reoli risg …'*

*Gwerthuso ymyrraeth gynnar ac atal*

5.20 Awgrymodd y rhanddeiliaid ystod o fesurau canlyniadau ar gyfer gwerthuso blaenoriaeth ymyrraeth gynnar ac atal y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod. Rhestrir y rhain yn adran 6.

5.21 Gwnaeth y rhanddeiliaid dynnu sylw at yr un **ystyriaethau** ar gyfer gwerthuso ymyrraeth gynnar ac atal fel y gwnaethant mewn perthynas â'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid. Roedd y rhain fel a ganlyn:

- Mae nodi mesurau canlyniadau meintiol ar gyfer gwasanaethau atal yn heriol oherwydd, 'Sut yr ydych yn mesur rhywbeth yr ydych yn ei atal rhag digwydd?'
- Mae datblygu fframwaith amlasiantaethol a rennir o ran canlyniadau ar gyfer atal yn cael ei gymhlethu gan natur y gwasanaethau datganoledig a'r gwasanaethau heb eu datganoli dan sylw.

5.22 Yn y tabl a ganlyn, rydym yn cyfuno canfyddiadau'r cyfweliadau â rhai'r ymarfer mapio ystadegol a gynhaliwyd gennym yng ngham 1 yr AG hwn i lunio rhai argymhellion ar gyfer gwerthuso ymyrraeth gynnar ac atal.

| |
|---|
| • Mae ystadegau ar aildroseddu a mynediad / ail-fynediad at y ddalfa ar gael yn rhwydd. Fodd bynnag, nid yw'r data cyhoeddedig bob amser yn darparu rhaniad rhwng y rhywiau nac yn cael eu cyflwyno mewn ffordd y gellir nodi darlun o'r sefyllfa yng Nghymru[37]. Yn lleol, gall gwasanaethau fonitro perfformiad gan ddefnyddio eu data eu hunain gan gynnwys yr wybodaeth honno am amgylchiadau'r unigolyn a gesglir trwy'r broses atgyfeirio a / neu'r broses asesu. Mae'r graddau y gellir gwneud cymariaethau yn dibynnu ar gyflawnrwydd ac ansawdd y data hwn, ac i ba raddau y gofynnir cwestiynau cyson ac y defnyddir diffiniadau safonol. Mae'r heddlu'n cadw data ar arestiadau a chysylltiadau eraill y maent wedi'u cael megis stopio a chwilio.<br>• Gall data ar amseroedd atgyfeirio i drin ar gyfer gwasanaethau helpu i bennu cyflenwad yn erbyn galw.<br>• Gellir dangos arbedion cost o ganlyniad i fentrau ond mae'n dibynnu ar y data sydd ar gael a'r gallu i roi gwerth ariannol ar yr effeithiau. Mae data ar gostau ar gyfer rhai mathau o droseddau, erlyniad, a lleoedd carchar ar gael, a gall fod yn ddefnyddiol ar gyfer hyn. Yn yr un modd â dadansoddi a monitro perfformiad a gynhyrchwyd yn lleol, mae hyn yn dibynnu ar ansawdd a chyflawnder y data, yn enwedig os oes dymuniad i wneud hyn ar raddfa fwy ac ystyried nifer o sefydliadau.<br>• Gall defnyddio pobl sy'n dechrau yn y system am y tro cyntaf i asesu atal a dargyfeirio fod achosi problemau oherwydd efallai na fydd yn canfod pob cyswllt |

[37] Er mwyn cael trafodaeth fanylach ar ffynonellau a chwmpas y data hwn, gweler Pennod 3 i'r Asesiad Gwerthusadwyedd ar gyfer Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru a'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru: Mapio Ystadegol

blaenorol â'r system cyfiawnder troseddol. Dylid ystyried ffordd arall o gael cyswllt cyntaf â'r system cyfiawnder troseddol wrth werthuso dulliau atal, gan ddefnyddio'r dull a ddefnyddiwyd mewn Hysbysiadau Dulliau Dadansoddi iechyd y cyhoedd.

- Gall cysylltu data wella'r gwerthusiad o ddulliau atal. Er enghraifft, gallai unigolion sydd wedi cyrchu gwasanaethau neu fentrau gael eu holrhain trwy ddata gweinyddol am gyfnod a ddiffiniwyd ymlaen llaw (e.e., pum mlynedd) i bennu cyfraddau aildroseddu, mynediad / ail-fynediad at y ddalfa, ymgysylltu â gwasanaethau, ac ati.
- Gellid cysylltu data hefyd i archwilio'r gwahaniaethau mewn canlyniadau ar gyfer menywod a arestiwyd a heb eu cyhuddo, ac a oedd wedi cael datrysiadau gwahanol y tu allan i'r llys. Gallai fod lle hefyd i olrhain merched a oedd wedi bod drwy'r Swyddfa / y broses frysbennu wrth ddod yn oedolion ifanc er mwyn pennu eu canlyniadau. Er mwyn gwneud hyn, byddai angen cyfuno data'r heddlu / Tîm Troseddwyr Ifanc perthnasol ym Manc Data'r Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw.

**Llysoedd a dedfrydu**

Mae'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod yn nodi y bydd y dull system gyfan yn canolbwyntio ar gynyddu hyder mewn dewisiadau amgen yn lle carchar tymor byr a remánd trwy'r canlynol:

- Gweithio gyda llysoedd a dedfrydwyr i gael dealltwriaeth well o'r gwasanaethau cymunedol sydd ar gael i fynd i'r afael â'r rhesymau dros droseddu yn uniongyrchol.

- Hyfforddi gweithwyr proffesiynol ar y rheng flaen i gydnabod ac ymateb i fenywod a theuluoedd sy'n profi trawma.

5.23 Roedd y rhanddeiliaid yn cytuno y dylid ystyried dewisiadau eraill yn lle'r ddalfa ar gyfer bron pob menyw sy'n troseddu, ac yn enwedig y rhai sy'n troseddu ar lefel isel sydd fel arfer yn arwain at ddedfrydau byr. Yn y bôn, dadleuwyd na ddylai menywod gael eu hanfon i'r carchar ac eithrio'r troseddau mwyaf difrifol, a bod goblygiadau negyddol carchar tymor byr, nid yn unig i'r troseddwr eu hunain, ond hefyd i'w teulu, yn llawer mwy nag unrhyw fuddion.

*'Nid ydynt yn mynd i wneud unrhyw beth ystyrlon o ran eu hadsefydlu yn ystod y cyfnod byr hwnnw yn y carchar. Ac unwaith eto, gwyddom y gall y gwahanu hwnnw oddi wrth blant a'r teuluoedd ehangach fod yn arbennig o niweidiol i*

*fenywod ac yn amlwg y sgileffeithiau hynny y mae'n eu cael ar y bobl yn eu bywydau.'*

5.24 Yn galonogol, teimlwyd bod argaeledd dewisiadau amgen yn gwella'n barhaus. Nid yn unig y gwnaeth y rhanddeiliaid gyfeirio at fentrau penodol fel Dull System Gyfan Cynllun Braenaru i Ferched Future 4 (a gomisiynwyd o dan y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod), ond hefyd at y cyfleusterau monitro electronig sy'n galluogi menywod i barhau i fyw eu bywydau yn eu cymunedau.

*Heriau, cyfyngiadau ac ansicrwydd o ran llysoedd a dedfrydu*

5.25 Credwyd bod y trothwy carcharu ar gyfer troseddau lefel isel yn llawer is ar gyfer menywod nag ydyw ar gyfer dynion. Awgrymwyd mai'r rheswm posibl dros hyn oedd oherwydd diffyg dealltwriaeth ymhlith dedfrydwyr o natur *'oferedd'* dedfrydwyr tymor byr i leihau aildroseddu.

5.26 Mewn gwirionedd, un o'r themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r trafodaethau ynghylch llysoedd a dedfrydu yw bod rôl dedfrydwyr yn hollbwysig o ran lleihau'r defnydd o'r ddalfa ar gyfer troseddwyr benywaidd. Felly, fe'i hystyriwyd yn hanfodol bod barnwyr ac ynadon yn ymwybodol iawn o'r materion penodol sy'n ymwneud â throseddu gan fenywod a pham y dylid osgoi dedfryd o garchar lle y bo'n bosibl - yn ogystal â'r dewisiadau amgen ymarferol ac effeithiol yn y gymuned sydd ar gael iddynt.

5.27 Yn bwysig hefyd, nodwyd yr angen i wella gwybodaeth a dealltwriaeth dedfrydwyr o sut y gall ymyriadau penodol ddylanwadu ar newid cadarnhaol o ran cynyddu hyder i'w defnyddio a goresgyn y ffafriaeth o ddedfrydau o garchar ymhlith rhai.

> *'Rwy'n meddwl gyda menywod ... maent yn dueddol o gael eu hanfon i'r ddalfa yn amlach am droseddau risg isel. A phan fyddwch chi'n ymchwilio i'r rhesymau dros hynny ... mae llawer ohono oherwydd nad oes gennym ddedfrydau cymunedol cadarn sy'n briodol i fenywod y mae pobl yn teimlo'n hyderus eu bod yn mynd i fynd i'r afael ag ymddygiad ... Felly, mae'r pwynt dedfrydu cyntaf hwnnw'n wirioneddol hanfodol i roi hyder i ddedfrydwyr yn yr hyn rydym yn mynd i fod yn ei wneud ac yn osgoi dedfrydau byr o garchar …'*

5.28 Yn gysylltiedig â hyn i gyd mae archwilio sut mae dedfrydu menywod yn amrywio ledled Cymru er mwyn sefydlu pam mae dedfrydau o garchar yn cael eu rhoi'n amlach mewn rhai ardaloedd nag eraill, a yw hyn yn cael ei effeithio gan argaeledd dewisiadau cymunedol amgen a / neu ymwybyddiaeth o ddedfrydau ohonynt, ac, os ymwybyddiaeth (neu hyd yn oed amharodrwydd) yw'r broblem, i alluogi addysg wedi'i thargedu ac addysg *'ddiplomyddol'* ar fanteision bod yn llai cosbol.

> *' … Gwyddom o'r data ei bod yn debygol bod rhai llysoedd yn cosbi menywod yn fwy. Felly, efallai bod angen targedu â ffocws ... yn ddiplomyddol ac mewn ffordd sensitif. Gwyddom nad yw'r farnwriaeth bob amser yn hapus pan fyddwn yn siarad â nhw ac yn dweud pethau mor amlwg â, 'Peidiwch ag anfon menywod i'r carchar am gyfnod mor fyr.' Mae'n rhaid i ni barchu eu safbwynt a'r pwysau sydd arnynt a'r ddyletswydd sydd arnynt i'r cyhoedd, ond eu hannog pam y gall dewisiadau eraill fod yn effeithiol …'*

5.29 Yn galonogol, er y cydnabuwyd y bydd newid meddylfryd yn cymryd amser, dywedwyd bod *'awydd'* ar gyfer dysgu a newid ymhlith y farnwriaeth gyfan.

5.30 Eto serch hynny, codwyd mater meddylfryd y cyhoedd a'r cyfryngau yng nghyd-destun agweddau tuag at fenywod sy'n troseddu sydd, yn ôl y sôn, yn cael eu trin yn aml (a'u dedfrydu) yn llymach a chyda mwy o farn na dynion sy'n cyflawni'r un troseddau. Teimlwyd bod yr angen i ddatblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n cyflawni llwyddiant o ran lleihau aildroseddu yn allweddol er mwyn goresgyn yr agweddau hyn sy'n aml yn ddiwylliannol.

5.31 At hynny, pwysleisiwyd yr angen i wneud swyddogion heddlu yn ymwybodol o'r dewisiadau amgen effeithiol i gyhuddo a phwysleisio y dylid bob amser eu hystyried cyn cyhuddo er mwyn osgoi troseddoli. Wrth gydnabod na fydd yn hawdd newid ymddygiadau sydd wedi gwreiddio (h.y., *'Beth ydynt wedi'i wneud bob amser? Rydym wedi cyhuddo pobl o droseddau'* ) fe'i hystyriwyd yn ymdrech werth chweil o ran deall y rhesymau dros ymddygiadau penodol, adsefydlu a lleihau aildroseddu. Yn wir, credwyd bod hyn yn berthnasol nid yn unig i swyddogion heddlu, ond i unrhyw weithiwr proffesiynol o'r rheng flaen sy'n dod ar draws menywod sy'n troseddu.

*‘ ... yn aml, nid yw'r ffordd rydym yn mynd i'r afael â phroblemau menywod yn briodol oherwydd y diffyg dealltwriaeth o'r ffaith eu bod yn agored i niwed, a'r diffyg dealltwriaeth o'r materion a allai fod yn gysylltiedig â'u trawma, eu hymddygiad a'u troseddu ... a dyna pam, i mi, mae'n gwbl hanfodol bod y gweithwyr proffesiynol rheng flaen cyswllt cyntaf sy'n gwneud y penderfyniadau hynny sy'n effeithio ar weddill y daith yn y system yn derbyn hyfforddiant.’*

5.32 Roedd rhywfaint o amheuaeth ynghylch a ddylid cynnig llysoedd ar gyfer menywod yn unig i sicrhau’r canlyniadau gorau i fenywod, a fyddai’n cael eu dedfrydu gan farnwyr ac ynadon ag arbenigedd yn y maes troseddu hwn.

5.33 Yn olaf, amlygwyd y ddeuoliaeth rhwng pwyslais y Glasbrint ar leihau'r cyfnod yn y ddalfa a chynyddu adsefydlu a’r negeseuon mwy cosbol gan y Llywodraeth ganolog. Mae'n debyg bod hyn yn achosi peth anhawster i'r rhai sy'n gweithio mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli wrth *'gyflwyno'* mentrau sy'n anghyson â llinell swyddogol y Llywodraeth.

*Gwerthuso llysoedd a dedfrydu*

5.34 Awgrymodd y rhanddeiliaid ystod o fesurau canlyniadau ar gyfer gwerthuso blaenoriaeth y llysoedd a dedfrydu’r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod. Rhestrir y rhain yn adran 6.

5.35 Yn y tabl a ganlyn, rydym yn cyfuno canfyddiadau'r cyfweliadau â rhai'r ymarfer mapio ystadegol a gynhaliwyd gennym yng ngham 1 yr AG hwn i lunio rhai argymhellion ar gyfer gwerthuso llysoedd a dedfrydu.

- Mae angen cynyddu'r sylfaen dystiolaeth ar anghenion a gwendidau menywod sy'n troseddu er mwyn gwerthuso llysoedd a dedfrydu (ac i asesu a yw'r cyflenwad yn bodloni'r galw am atebion cymunedol). Mae cyflawni hyn yn dibynnu ar ansawdd y data a gedwir gan sefydliadau gwahanol am eu defnyddwyr gwasanaeth, a ddylai gael eu casglu a'u cydlynu gan asiantaeth arweiniol.
- Dylai'r gwerthusiad o lysoedd a dedfrydu harneisio’r ffyrdd presennol y gall menywod roi adborth ar eu profiadau, drwy ymgysylltu â menywod sydd yn y ddalfa, y menywod sydd ar brawf, a derbyn gwasanaethau cymorth (h.y., grwpiau ffocws a

gweithdai, fforymau profiad byw, rhestrau gwirio 'mannau cyswllt', a chyfweliadau wrth ymadael).

- Dylai'r gwerthusiad o'r flaenoriaeth hon sefydlu a oes tystiolaeth bod y trothwy carcharu wir yn is ar gyfer menywod sydd wedi cyflawni troseddau lefel isel o gymharu â dynion sy'n cyflawni troseddau tebyg. Gallai'r data o'r rhaglen Data yn Gyntaf gan lysoedd ynadon a'r llysoedd y goron ddangos hyn.
- Byddai hefyd yn bwysig sefydlu unrhyw wahaniaethau o ran dedfrydu menywod â nodweddion gwarchodedig. Mae'r setiau data dienw o'r gwasanaeth prawf a'r llys sydd ar gael gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder drwy'r rhaglen Data yn Gyntaf yn cynnwys oedran ar adeg y drosedd, hil a rhywedd sy'n galluogi rhywfaint o ddadansoddi croestoriadol tra bod set ddata'r carchar yn cynnwys newidynnau ychwanegol yn ymwneud â chrefydd, statws priodasol a chenedligrwydd. Mae newidynnau daearyddol yn cynnwys ardal yr heddlu / y gwasanaeth prawf, lleoliad y llys, yn ogystal â'r ardal lle mae'r unigolyn yn byw. Mae gwybodaeth ar gael hefyd sy'n caniatáu proffiliau yn ôl math o drosedd, math o achos, math o ganlyniad a hyd y ddedfryd. Er ei bod yn bosibl cysylltu'r setiau data amrywiol, hyd nes y darperir y data cyfiawnder troseddol ym Manc Data'r Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw, nid yw'n bosibl cysylltu hyn i setiau data eraill i ganfod aelodaeth grwpiau blaenoriaeth neu i ddysgu mwy am nodweddion gwarchodedig eraill.
- Wrth archwilio cyfraddau aildroseddu yn ôl math o ddedfryd, byddai'n bwysig sefydlu a oes unrhyw wahaniaethau rhwng menywod â nodweddion gwahanol / a gwarchodedig; a yw tueddiadau'n newid dros amser; ac i archwilio materion cydymffurfio megis torri amodau a galw'n ôl. Mae hyn hefyd yn cysylltu â phriodoldeb dedfrydu mewn perthynas ag amgylchiadau menywod ac angen troseddogenig.
- Dylai'r gwerthusiad archwilio proffil datrysiadau ar gyfer grwpiau gwahanol, yn ôl math o drosedd a difrifoldeb; p'un a yw hyn wedi newid dros amser; ac a fu cynnydd yn y defnydd o ddatrysiadau y tu allan i'r llys a gostyngiad yn y defnydd o fynd â rhywun i'r ddalfa. Gellir defnyddio'r Mynegai Cyfradd Cymharol i nodi anghyfartaledd, yn arbennig lle mae menywod â nodweddion penodol a / neu aelodaeth o grŵp blaenoriaeth yn cael eu gorgynrychioli. Bydd data Cyfrifiad 2021 (sydd ar gael o fis Mawrth 2023) hefyd yn dangos y darlun lleol.

- Dylid ymgorffori'r amser i gyfiawnder (yr amser rhwng cael ei arestio a mynd i'r llys) wrth werthuso'r flaenoriaeth llysoedd a dedfrydu. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun yr ôl-groniad mewn achosion sy'n cyrraedd y llys oherwydd pandemig COVID-19.
- Gellid archwilio'r penderfyniadau ac agweddau ymhlith dedfrydwyr a staff llys ehangach (e.e., cynghorwyr cyfreithiol, cyfreithwyr a bargyfreithwyr) drwy gyfweliadau ansoddol manwl. Gellid ailadrodd yr ymchwil hwn ar amser y cytunwyd arno i nodi unrhyw newidiadau.
- Gellid asesu effeithiolrwydd hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr, staff asiantaethau partner, a'r farnwriaeth trwy gynnal arolygon cyn hyfforddi ac ar ôl hyfforddi ynghyd â chyfweliadau ansoddol i archwilio materion allweddol a godwyd yn fanylach.

**Atebion cymunedol**

Mae'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod yn nodi y bydd y dull system gyfan yn canolbwyntio ar gefnogi menywod, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o droseddu, i ymgysylltu â gwasanaethau yn y gymuned drwy'r canlynol:

- Archwilio amrywiaeth o opsiynau ar gyfer llety diogel, saff a dibynadwy i fenywod yng Nghymru.

- Datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar fenywod, gan gynnwys cydberthnasau gwaith ystyrlon â gweithiwr proffesiynol allweddol y gellir ymddiried ynddo, meithrin cryfderau a chydnabod y trawma neu'r digwyddiadau niweidiol y mae menywod wedi'u profi, o bosibl, gan ddeall a mynd i'r afael â sut mae hyn yn berthnasol i'w hymddygiad troseddol.

- Ymgorffori llwybrau atgyfeirio clir a chynlluniau unigoledig wedi'u trefnu ar gyfer menywod sy'n agored i niwed yn y gymuned i ddarparu ymyriadau gan weithwyr proffesiynol hyfforddedig medrus yn brydlon.

*Heriau, cyfyngiadau ac ansicrwydd ym mlaenoriaeth gymunedol y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod*

5.36 Roedd darparu llety diogel, saff a dibynadwy i fenywod yng Nghymru yn cael ei gefnogi'n gryf gan randdeiliaid fel un o gonglfeini sylfaenol adsefydlu.

*‘ … O ran adsefydlu neu ymyrraeth lwyddiannus, gwyddom fod hyn yn dechrau pan fydd gan unigolion sylfaen gadarn a sefydlog y gallant wedyn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth eraill. Mae'n ofer ac yn ymarferol amhosibl i unigolion ymgysylltu â chyfres o ymyriadau os ydynt yn ddigartref, a / neu mewn amgylchedd anhrefnus, anaddas neu anniogel …’*

5.37 Fodd bynnag, roedd ymdeimlad pendant bod angen llety â chymorth mwy cyfannol ar gyfer y rheini ag anghenion cymhleth, gyda Trevi House yn Lloegr yn cael ei gynnig fel enghraifft o fodel adsefydlu llwyddiannus sy’n ceisio deall cymhellion ac anghenion penodol menywod sy’n troseddu.

5.38 Credwyd hefyd bod llety addas ar gyfer menywod â dibynyddion yn brin. Dywedwyd mai gwahanu oddi wrth blant sy’n gallu cyfrannu fwyaf at iechyd meddwl gwael ymhlith menywod yn y carchar, a bod cynnig tai sy’n caniatáu iddynt gael eu huno cyn gynted â phosibl ar ôl eu rhyddhau yn hollbwysig i adsefydlu effeithiol. At hynny, roedd y rhai a oedd mewn perygl o droseddu hefyd yn cael eu hystyried yn llawer llai tebygol o wneud hynny pe baent yn cael eu cartrefu'n briodol gyda'u plant, yn agos at wasanaethau ac ymyriadau priodol, ac i ffwrdd o unrhyw ddylanwadau niweidiol.

*‘ … Mae llety addas, darpariaeth o gymorth i fenywod o safbwynt magu plant yn gwbl hanfodol. Mewn man atal ond hefyd i allu gwneud y mwyaf o adsefydlu...’*

5.39 Gwnaeth un o'r rhanddeiliaid dynnu sylw at brinder a chost gynyddol llety yn y sector rhentu preifat ledled Cymru, ac awgrymodd un arall fod angen trosolwg mwy strategol o’r llety sydd ar gael ledled Cymru i sicrhau bod comisiynu’n seiliedig ar dystiolaeth o angen.

*‘ ... mae nifer o leoedd gwely a llety penodol i fenywod yn bodoli ledled Cymru, ond nid wyf 100% yn argyhoeddedig bod y gwasanaethau hynny wedi'u comisiynu mewn ffordd strategol ... gyda thystiolaeth y tu ôl iddynt… Mae gennym ddarpariaeth yn y system y mae angen ei deall yn well a'i defnyddio'n well, ac … mae angen i ni gynyddu'r ddarpariaeth honno ond yn gymesur a chyda'r dystiolaeth i lenwi'r bylchau sydd yno eisoes.’*

5.40 Yn olaf o ran llety, trafodwyd y ganolfan breswyl arfaethedig i fenywod eto fel ateb posibl i fenywod mewn rhai ardaloedd, ond hefyd fel risg bosibl i'r rheini mewn ardaloedd eraill. Hynny yw, heb gael nifer o'r canolfannau hyn ar hyd a lled Cymru, roedd pryder na fyddai menywod - o'r gogledd, dywedir - yn elwa ar y cysyniad mewn unrhyw ffordd ac y gallent, mewn gwirionedd, gael eu hanfon at 'ddarpariaeth gymunedol' gannoedd o filltiroedd o'u cartref.

*' ... a oes risg ... bod menywod sy'n cael eu dedfrydu yng Ngogledd Cymru yn cael eu hanfon i'r ganolfan breswyl honno i fenywod? Felly, mewn gwirionedd, nid ydych yn cyflawni rhai o'r elfennau hynny ynglŷn â chael cymorth, eich trefniadau teuluol lleol...'*

5.41 Yn fwy cyffredinol, disgrifiwyd argaeledd cyllid a chapasiti i ddarparu gwasanaethau ac ymyriadau yn y gymuned yn briodol fel her barhaus. Yn wir, pwysleisiodd y rhanddeiliaid eto bod yn rhaid i wasanaethau priodol fod ar waith i gefnogi menywod yn y gymuned i fyw bywydau cadarnhaol – ac i gyflawni hyn, rhaid iddynt fod yn hygyrch, wedi'u hariannu'n gynaliadwy dros y tymor hir, a chael cefnogaeth gyfartal gan yr holl asiantaethau perthnasol ar draws y sectorau statudol a gwirfoddol.

*' … Fy nymuniad [yw] gwneud yn siŵr bod gwasanaethau statudol ac arbenigol hefyd yn ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau cyffredinol lleol fel bod pobl yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir. Bod yr holl bartneriaid yn cydweithio ac yn cefnogi ei gilydd, yn hytrach na throsglwyddo menyw i wasanaeth sydd wedyn yn mynd ar goll er bod ganddynt lu o anghenion cymhleth sy'n parhau i fodoli.'*

5.42 Ar y mater o ymrwymo, ystyriwyd bod cynadleddau achos Braenaru i Fenywod yn fodel cadarnhaol o ran cynnig un porth i'r system i fenywod a'r cyfle i bartneriaid ddatrys problemau ar lefel leol. Fodd bynnag, credid eu bod braidd yn ddiffygiol o ran clywed ac adlewyrchu llais y fenyw ei hun, a'r hyn y mae hi'n ei ystyried yn anghenion.

5.43 Ystyriwyd bod mater adnoddau yn arbennig o berthnasol i wasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector, a ddisgrifiwyd fel *'anghyson'* o ran ansawdd a'u gallu i weithio'n arloesol i gyflawni amcanion y Glasbrint. Teimlwyd bod yr angen i wella a

chefnogi eu darpariaeth gwasanaeth yn allweddol, oherwydd ei bod yn amlwg mai'r sefydliadau cymunedol eu hunain sy'n cyflawni'r flaenoriaeth gymunedol orau.

*‘Mae llawer o sefydliadau trydydd sector wedi cael trafferth gyda chyllid a chynaliadwyedd, felly rwy'n meddwl ei bod yn wirioneddol bwysig i ni allu goresgyn hynny drwy eu cefnogi ... rydym wedi rhoi rhywfaint o gymorth ariannol, cymorth adnoddau, rhywfaint o gymorth cynghori i sefydliadau i'n helpu i ymgorffori pethau yn y gymuned oherwydd bod angen i hyn gael ei arwain gan grwpiau cymunedol …’*

5.44 Yn y cyd-destun hwn, codwyd mater ariannu tymor byr fel her sylweddol i’r trydydd sector. Teimlwyd y byddai setliadau tair blynedd neu gyllid wedi’i glustnodi yn helpu, i ryw raddau, i oresgyn effeithiau diffyg cynaliadwyedd a sicrwydd hirdymor, megis trosiant uchel o staff, a cholli sgiliau ac arbenigedd o ganlyniad.

5.45 Soniwyd unwaith eto am drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd amlasiantaethol integredig fel her sy'n wynebu'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod. Gwelwyd hefyd bod angen ymrwymiad gwleidyddol i sefydlu a chynnal y gwasanaethau cymunedol angenrheidiol i fenywod.

5.46 Ystyriwyd bod cael mewnbwn cymunedau i lunio gwasanaethau i fenywod yn heriol, ond yn bwysig, i sicrhau bod gwasanaethau'n briodol yn lleol. Dywedwyd bod angen dulliau ymgysylltu cryfach i gryfhau mewnbwn grwpiau cymunedol i lunio gwasanaethau, a bod angen mwy o ddefnydd o ddulliau cyfranogol fel cyd-gynhyrchu.

5.47 Roedd ymgysylltu'n well â'r <u>holl</u> sectorau cymunedau yn arbennig o bwysig i'r rhanddeiliaid i sicrhau bod amrywiaeth a phrofiad unigol yn cael eu hystyried yn briodol wrth ddarparu gwasanaethau.

*‘... mae dealltwriaeth o anghydraddoldeb yn bwysig iawn yn hyn i gyd ... Rydym yn gweithio gyda'r un broblem oherwydd bod ein hymgysylltiad â chymunedau amrywiol yn wael yn gyffredinol … Felly, hyd nes y byddwn yn cydnabod bod y gymuned yn grŵp o unigolion ... ac nid grŵp homogenaidd ... nid ydym byth yn mynd i gyrraedd y grwpiau mwy ymylol hynny a dechrau mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwnnw ... Nid oes digon o bwyslais o hyd, ac nid wyf yn*

*meddwl ein bod yn deall oherwydd nad ydym yn cyd-gynhyrchu ac nid ydym yn cydweithio digon â'r cymunedau eu hunain. Er enghraifft, os ydym yn sôn am, 'Sut olwg sydd ar adsefydlu yn y gymuned ar gyfer menyw ddu sydd wedi dod yma o lwybr mewnfudo', a ydym yn deall hynny? Dwi ddim yn meddwl ein bod ni'*

5.48 Roedd codi ymwybyddiaeth menywod o wasanaethau cymunedol i'w hannog i ymgysylltu'n gynnar i fynd i'r afael â'r materion sy'n sail i'w troseddu yn her arall a amlygwyd gan randdeiliaid. Dywedwyd bod hyn yn hanfodol i fynd i'r afael â throseddu dan rai amgylchiadau oherwydd y canlynol:

*'Sawl gwaith rydym wedi clywed ... 'Roedd yn rhaid i mi gyflawni'r drosedd oherwydd dyna'r unig ffordd y gallwn i gael yr help yr oeddwn ei angen' ... Rhan o'r her yw rhoi cymorth i bobl cyn iddynt hyd yn oed gwybod bod angen y cymorth arnynt, a gwneud yn siŵr eu bod yn sylweddoli nad oes rhaid iddynt gyflawni troseddau i gyrchu'r gwasanaethau hyn.'*

5.49 Ar nodyn cysylltiedig, gwnaeth un o'r rhanddeiliaid dynnu sylw at y ffaith mai gweithwyr yn y gymuned fel harddwyr a thrinwyr gwallt sy'n sylwi'n gyntaf ar arwyddion bod menyw yn cael ei cham-drin, ond yn gyffredinol nid ydynt yn ymwybodol o beth i'w wneud na ble i fynd gyda'r wybodaeth. Roeddent yn awgrymu cael cefnogaeth gymunedol o ran rhannu gwybodaeth drwy *'ganolfannau lle gall pobl fynd a gofyn am help, neu gall pobl ddosbarthu gwybodaeth gefnogol ...'*

5.50 Fel y nodwyd mewn man arall, dywedwyd bod newid diwylliannol yn her y mae angen ei goresgyn er mwyn cyflawni blaenoriaeth gymunedol y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod. Credwyd bod llawer o aelodau'r cyhoedd yn parhau i fod mewn meddylfryd cosbol, sy'n golygu bod diffyg dealltwriaeth a goddefgarwch ar gyfer adsefydlu ac ail-addysgu.

*' ... rydym yn gymdeithas eithaf anfaddeugar mewn rhai ffyrdd ... rhai o'r materion y byddwn yn eu hwynebu yw, "Beth mae'r unigolyn cyffredin ar y stryd yn ei feddwl am rywun yn cael cerydd bach, yn ei farn?'" ... Felly, rwy'n meddwl mai rhan o'r her yw ... addysg i'r cyhoedd, ac mae hyn mewn gwirionedd yn ymwneud ag atal aildroseddu ... [a'r ffaith nad yw] gweithio gyda phobl bob amser yn golygu eu cosbi, mae'n golygu paratoi rhywun ar gyfer dyfodol lle gall fod yn gynhyrchiol ...'*

5.51 Teimlwyd bod cyd-ddibyniaeth sylweddol rhwng y llysoedd a’r blaenoriaethau dedfrydu a chymunedol o fewn y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod: hynny yw, dim ond trwy ddewisiadau cymunedol da y mae gan ddedfrydwyr hyder ynddynt y gellir cyflawni gostyngiadau yn nifer y menywod sy'n cael dedfrydau o garchar. Roedd rhywfaint o deimlad, fodd bynnag, y gallai gwahanu'r ddau yn 'themâu' ar wahân yn y Glasbrint arwain at ddatgysylltu rhwng y ffrydiau gwaith sy'n eu cyflawni.

*‘ … Rwy'n meddwl bod angen edrych ar y gymuned, y ddalfa a'r ddedfryd gyda'i gilydd ...’*

5.52 Yn olaf, roedd rhywfaint o deimlad, er bod y ffocws ar atebion cymunedol o fewn y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod yn ddiamau yn gadarnhaol, y dylai fod rhywbeth tebyg ar waith ar gyfer troseddwyr gwrywaidd. Yn wir, dywedwyd er bod y ffocws ym maes troseddu gan fenywod yn sicrhau bod llai o fenywod yn mynd i’r ddalfa ac yn edrych ar ddewisiadau amgen yn y gymuned, mae’r gwrthwyneb yn wir am ddynion lle mae *'llawer o'r ymdrech am well canlyniadau cyfiawnder troseddol, cael mwy o ddynion yn y carchar’.*

5.53 Credwyd bod hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer unigolion gwrywaidd sy'n oedolion sy'n cyflawni Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, y mae eu hangen am ddull llai cosbol wedi'i lywio gan drawma yn aml yn cael ei ddiystyru oherwydd yr ofn o gael eu gweld yn cyfiawnhau ac yn lleihau eu hymddygiad. Awgrymwyd y bydd ymchwil a gwerthuso, dros amser, yn dangos effeithiolrwydd y dull hwn ac yn dylanwadu ar y ddarpariaeth o wahanol ddulliau o ymdrin â throseddwyr gwrywaidd sy'n oedolion, a fydd hefyd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar droseddu menywod.

*‘ … Nid oes diben mynd i’r afael â phroblemau menywod os nad ydym hefyd yn mynd i’r afael ag anghenion dynion, oherwydd bod menywod yn byw gyda dynion ac maent yn aml yn byw gyda dynion sydd hefyd yn unigolion anodd, anghenus, felly mae’n iawn i ni gefnogi’r menywod... ond mae yna lawer o ddynion sydd angen yn union yr un math o ddull ac nid ydym yn rhoi hynny iddynt ... rydym yn gwneud hyn ar gyfer plant a phobl ifanc, rydym yn gwneud hyn ar gyfer menywod, ond [mae dynion] yn rhan fawr o'r jig-so ac nid ydym yn mynd i'r afael a'u problemau yn dda o hyd ...’*

*Gwerthuso blaenoriaeth gymunedol y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod*

5.54 Argymhellodd y rhanddeiliaid ystod o fesurau canlyniadau ar gyfer gwerthuso blaenoriaeth gymunedol y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod. Rhestrir y rhain yn adran 6.

5.55 Gwnaeth y rhanddeiliaid dynnu sylw at yr **ystyriaethau** canlynol ar gyfer gwerthuso blaenoriaeth gymunedol y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod:

- Bydd yr angen i gynnwys y rhai sydd â phrofiad personol o ymyriadau yn y gymuned yn anodd ond yn hollbwysig i unrhyw weithgaredd gwerthuso – yn ogystal â gofyn i'r rhai am eu rhesymau pam na fanteisiodd ar gynnig cymorth a dysgu oddi wrth y rheini.

*' ... Rydym yn parhau i ddweud, 'A oes yna fenywod sy'n ymwneud â dargyfeirio a all ... ein dwyn i gyfrif am ddarparu ein gwasanaethau ond sydd hefyd yn gweithio mewn ffordd fwy gyd-gynhyrchiol?' ac rydym wedi ei chael yn anodd iawn nodi ... carfan o fenywod a all wneud hynny [oherwydd] os ydych chi ar yr adeg honno o ddod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, bydd eich blaenoriaeth ar … wneud y gwaith y mae angen i chi ei wneud i ddelio â'r digwyddiadau anhrefnus rydych chi'n eu profi sydd wedi arwain at eich troseddu ... Yr hyn mae'n debyg y bydd angen i ni ei wneud yw meddwl am ... sut rydym yn adeiladu'r seilwaith i alluogi pobl â phrofiad byw i fod yn rhan o'r broses o gyd-gynhyrchu a monitro gwasanaethau.'*

- Dylid cynnal ymarfer sy'n mapio'r gwasanaethau sydd ar gael i fenywod yn y gymuned fel rhagflaenydd neu fel rhan o werthusiad o flaenoriaeth gymunedol y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod i sefydlu beth sydd eisoes ar gael ac ymhle.

5.56 Nododd y rhanddeiliaid yr **heriau** canlynol ar gyfer gwerthuso blaenoriaeth gymunedol y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod:

- Sefydlu'r hyn a olygir gan 'gymuned' ac ystyried y ffaith, er y dylai'r diffiniad fod yn gyffredinol – na fydd yr atebion.

*'Dwi'n meddwl mai u' o'r problemau mwyaf yw'r diffiniad o gymuned ac os ydych yn golygu hynny ar lefel y boblogaeth, neu a ydych yn golygu ar lefel gwyddoniaeth, neu gymuned unigol ... Mae angen diffiniad cyffredinol, ond mae angen i fodelau a ffyrdd o weithio hefyd fod yn hyblyg ac addasu i'r amgylchiadau rydych yn eu cael eich hun ynddynt ...'*

- Sicrhau diffiniad cywir a chyson o'r hyn a olygir gan 'atebion cymunedol', ac a ydynt yn cynnwys gwasanaethau statudol megis addysg ac iechyd.
- Unwaith eto, gallai ynysu effaith atebion cymunedol penodol fod yn heriol, gan fod llawer o fenywod sy'n troseddu yn derbyn sawl gwasanaeth gwahanol.

5.57 Yn y tabl a ganlyn, rydym yn cyfuno canfyddiadau'r cyfweliadau â rhai'r ymarfer mapio ystadegol a gynhaliwyd gennym yng ngham 1 yr AG hwn i lunio rhai argymhellion ar gyfer gwerthuso blaenoriaeth gymunedol y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod.

| |
|---|
| • Mae gorgyffwrdd â'r mesurau canlyniad a awgrymir yn erbyn y flaenoriaeth hon a'r rhai yn flaenoriaeth y llysoedd a dedfrydu mewn perthynas â niferoedd a chyfraddau aildroseddu yn ôl math o ddedfryd. Dylai'r gwerthusiad ganolbwyntio ar allu menywod i gael mynediad at gymorth amserol i fynd i'r afael ag anghenion troseddogenig. Mae hyn yn cysylltu ag adborth cyfweliadau am argaeledd gwasanaethau wedi'u llywio gan drawma a fformiwleiddiadau seicolegol.<br>• Gellir defnyddio mesurau amseroedd aros iechyd y cyhoedd ochr yn ochr â metrigau gan wasanaethau partner (ac adborth defnyddwyr) i helpu i ddeall yr angen nas diwallwyd am wasanaethau, gan gynnwys unrhyw amrywiadau ledled Cymru. Byddai angen i asiantaethau partner gasglu metrigau a rennir mewn ffordd gyson i gyflawni hyn.<br>• Dylid archwilio cyfraddau aildroseddu sylfaenol a thros amser ar lefel sefydliadol a'u cysylltu â mesurau cydraddoldeb ac amrywiaeth.<br>• Dylid archwilio cydymffurfedd â dedfrydau cymunedol, gan gynnwys torri amodau a galw'n ôl, e.e., y rhesymau dros ddiffyg cydymffurfio; a yw'r rhain yr un peth ar gyfer menywod ag ar gyfer dynion; a yw merched yn deall yr amodau a'r gofynion; ac a ydynt yn ystyried cyfrifoldebau gofal plant a threfniadau cystodaeth plant. Yn |

gysylltiedig â hyn mae mathau o orfodi megis monitro electronig, a defnyddio gofynion megis profi am gyffuriau.

- Er mwyn llywio'r gwaith gwerthuso, dylai'r gwasanaethau gasglu data ar nifer y staff sy'n derbyn yr hyfforddiant perthnasol. Gallai hyn hefyd fod yn gysylltiedig â rheoli perfformiad gwasanaethau a gomisiynir.
- Mae cyfle i ddefnyddio data prawf, sydd ar gael i ymchwilwyr trwy Data yn Gyntaf, a chyflwyniad y rhaglen BOLD i ddarganfod mwy am anghenion ac amgylchiadau defnyddwyr gwasanaeth o gwmpas yr amser y buont yn troseddu ac yn eu gorffennol (e.e., PNYP, cyfranogiad gwasanaethau cymdeithasol a / neu lysoedd teulu, ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, materion iechyd meddwl, anableddau dysgu a / neu faterion niwroddatblygiadol), a chanlyniadau eu dedfryd. Os oes rhestrau ar gael o'r rhai sydd wedi'u cyfeirio at wasanaethau cymunedol amrywiol, gallai hyn alluogi olrhain canlyniadau sy'n ymwneud â thai, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y dyfodol, a'r effaith ar blant a phobl ifanc / teuluoedd.

**Y ddalfa ac ailsefydlu**

Mae'r Glasbrint Cyfiawnder Menywod yn nodi y bydd y dull system gyfan yn canolbwyntio ar gynorthwyo menywod yn y ddalfa ac adsefydlu yn ôl i'r gymuned drwy'r canlynol:

- Gweithio gyda gwasanaethau adsefydlu i ddarparu ymyriadau cyn rhyddhau ac ar ôl rhyddhau mewn carchardai lle mae menywod o Gymru wedi'u lleoli.

- Sefydlu gwasanaethau i wella a chynnal cysylltiadau gyda phlant a theuluoedd.

*Heriau, cyfyngiadau, ac ansicrwydd ym mlaenoriaeth y ddalfa ac ailsefydlu'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod*

5.58 Er nad oedd unrhyw randdeiliad yn dadlau dros garchar i fenywod yn unig yng Nghymru, dywedwyd bod y ffaith bod menywod Cymru yn cael eu hanfon i'r ddalfa yn Lloegr ar hyn o bryd yn peri heriau sylweddol i gynnal cyswllt teuluol a chymunedol.

> *'Ar hyn o bryd, mae menywod yn cael eu cymryd allan o Gymru. Rwy'n eistedd ar arfordir gorllewinol canolbarth Cymru ... i mi ... byddai'n 200 milltir ... Does dim posibilrwydd ... i mi gadw cysylltiadau teuluol, yn enwedig os ydw i'n dod o deulu*

*tlawd sydd heb arian i deithio. Mae cadw'r cysylltiadau hynny â phlant a theuluoedd yn afrealistig …'*

5.59 Mae manteision cyswllt teuluol wedi'u trafod yn gynharach yn yr adroddiad hwn, ond nodwyd y rhai sy'n deillio o gynnal cyswllt cymunedol yn ehangach hefyd. Dywedwyd bod llawer iawn o stigma yn gysylltiedig â dychwelyd o'r carchar i gymuned 'tref fach' ond gellid goresgyn hwn i ryw raddau os yw menyw yn gallu cadw cysylltiadau cymdeithasol-fuddiol ag o leiaf un unigolyn yno.

5.60 Os hynny, credwyd bod angen opsiynau carcharu llai, mwy lleol i alluogi ymweliadau teuluol a chadw cysylltiadau cymunedol (er, fel y nodwyd yn gynharach, roedd rhywfaint o bryder ynghylch eu gorddefnydd posibl ar gyfer troseddau lefel isel). Awgrymwyd hefyd y dylid addasu'r prosiect Waliau Anweledig sydd ar waith yng Ngharchar Y Parc i'w ddefnyddio gyda menywod yn y ddalfa i'w helpu i gynnal cydberthnasau teuluol.

5.61 Nodwyd heriau eraill yn ymwneud ag ailsefydlu. Yn gyntaf, rhaid i ystadau diogel yn Lloegr weithio ochr yn ochr â'r gwasanaethau datganoledig yng Nghymru (gofal iechyd, addysg, a thai er enghraifft) i sicrhau pontio cadarn a di-dor i fenywod. Cydnabuwyd bod gwybodaeth am y gwasanaethau hyn yn debygol o fod yn ddiffygiol ymhlith staff carchardai, yn ogystal â'u hymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth ddatganoledig a'r hyn y mae hynny'n ei olygu i fenywod Cymru.

*'Rwy'n meddwl bod her bob amser ... oherwydd nad yw'r ystâd dalfeydd menywod yn cyrraedd Cymru. Yn bennaf, mae gennych sefydliadau a chyfundrefnau sydd wedi'u hanelu at Loegr i raddau helaeth. Felly, rydych chi bob amser yn delio â'r diwylliant hwnnw, y diffyg dealltwriaeth ... o ran yr hyn sydd ar gael i fenywod yng Nghymru ... sut y gallai cyd-destun Cymru olygu bod llwybr ailsefydlu yn wahanol …'*

5.62 Mae gan Garchar EM Styal elfen agored, sy'n golygu bod menywod yn gallu cael gwaith a mynediad at wasanaethau cymorth yn yr ardal leol. Yn fwy cyffredinol, mae menywod yn aml yn ennill cymwysterau addysgol tra byddant yn y ddalfa. Fodd bynnag, ar ôl dychwelyd i Gymru, mae eu dysgu a'u cysylltiadau yn aml yn cael eu colli, a dywedwyd ei fod yn amlwg y bydd heriau i sicrhau pontio llwyddiannus i

fenywod sy’n troseddu oni bai bod cyfleoedd tebyg ar gael yn eu cymunedau cartref.

*‘Rwy'n sylwi y gellir anghofio am addysg; nid ydynt yn datblygu'r hyn a allai fod wedi'i ennill yn y ddalfa o ran addysg neu sgiliau gwaith, ac o ran eu cynorthwyo i gael gwaith neu addysg bellach ... mae'n ymwneud â meithrin eu sgiliau a'u cryfderau.’*

5.63 Yng ngoleuni hyn oll, pwysleisiwyd pwysigrwydd cael gweithwyr ailsefydlu a darparwyr mewn carchardai sy’n deall y cyd-destun Cymreig o ran tirwedd, daearyddiaeth, deddfwriaeth a darparu gwasanaethau, yn ogystal â’r angen am waith cydgysylltiedig rhwng timau ailsefydlu, carchardai a darparwyr gwasanaethau Cymru i sicrhau bod atebion cymunedol yn cael eu dylunio a’u hymgorffori yn yr ystâd carchardai.

5.64 O ran daearyddiaeth, mae’r ffaith bod y menywod sy’n dychwelyd i Gymru yn dod o ardal mor eang yn golygu ei bod yn anodd cydgysylltu a sicrhau tegwch o ran darpariaeth gwasanaethau ailsefydlu, yn enwedig o ystyried bod argaeledd y gwasanaethau hyn yn amrywio yn ôl lleoliad.

*‘Yn aml, maen nhw'n mynd yn ôl i ardaloedd lle ... nid ydynt o reidrwydd yn cael y gefnogaeth gyfannol oherwydd ble maen nhw'n byw a'r mynediad at y gefnogaeth hon.’*

5.65 Ar nodyn cysylltiedig, mewn meysydd lle mae digon o ddarpariaeth, rhybuddiodd y rhanddeiliaid yn erbyn dyblygu a phwysleisiwyd yr angen i sefydliadau gyfeirio at ei gilydd fel bod menywod yn derbyn y gwasanaeth mwyaf priodol ar yr adeg gywir. Yn hanesyddol, mae'n debyg bod hyn wedi bod yn anodd ei gyflawni oherwydd y gystadleuaeth am gyllid ac adnoddau.

5.66 Rhybuddiodd y rhanddeiliaid hefyd yn erbyn gorlethu menywod â gwasanaethau ac ymyriadau ar ôl cael eu rhyddhau, yn enwedig y rhai sy’n delio â rhyw fath o drawma a all effeithio ar eu gallu i ddysgu, gweithio, a magu plant. Credwyd bod cael canlyniadau realistig i fenywod a sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at y conglfeini sylfaenol ar gyfer ailsefydlu llwyddiannus - gan gynnwys llety addas,

cyfleoedd am waith ac addysg, a thriniaeth ynghylch cyffuriau ac alcohol os oes angen - mewn ffordd ddilyniannol yn allweddol i lwyddiant.

5.67 Codwyd mater llety eto yma, gyda rhanddeiliaid yn tynnu sylw at brinder stoc tai a diffyg cyllid i brynu neu rentu eiddo addas. Roeddent yn bryderus y bydd hyn yn arwain at roi menywod mewn ardaloedd annymunol o dai cost isel ac amddifadedd uchel, gan atgyfnerthu eu hymddygiad troseddol o bosibl a'u gadael yn methu â chael mynediad at, dyweder, gwasanaethau cymorth, cyfleoedd am waith ac addysg i'w plant a chael dweud eu barn.

> *'Byddwn yn dechrau ymgasglu pobl i'r mathau hynny o gymunedau a fydd yn ysgogi ac yn atgyfnerthu'r ymddygiadau troseddol hynny … Y model o roi pobl yn y gymuned, mewn cymuned go iawn, yw'r un cywir. Rwy'n meddwl mai'r heriau yw sicrhau digon o eiddo a digon o leoedd â chefndiroedd amrywiol sy'n ddigon agos at rwydweithiau'r rheilffyrdd a theithio ar gyfer gwaith ac ysgolion ...' '*

5.68 Credwyd bod dedfrydau byr o garchar yn creu eu heriau eu hunain gan nad ydynt yn caniatáu amser ar gyfer gweithredu ymyriadau i fenywod - ynghylch triniaeth camddefnyddio sylweddau, llety, budd-daliadau ac ati - sy'n golygu nad yw'r cymorth gofynnol ar gael iddynt yn syth ar ôl eu rhyddhau. Unwaith eto, felly, mae'r broses bontio ymhell o fod yn ddi-dor.

5.69 Mater arall oedd diffyg darpariaeth yng ngharchardai yn Lloegr ar gyfer menywod Cymraeg eu hiaith o ran eu galluogi i gadw mewn cysylltiad â'u hiaith a'u diwylliant. Yn wir, dywedwyd bod hyd yn oed ceisiadau cymharol syml fel y rhai am ddeunydd darllen Cymraeg yn tueddu i gymryd amser hir i'w cyflawni.

5.70 Yn galonogol, fodd bynnag, dywedwyd bod y Glasbrint a'r Dull System Gyfan Cynllun Braenaru yng Ngwent a De Cymru wedi helpu i bontio'r bwlch rhwng y ddalfa ac ailsefydlu, gan olygu sefyllfa llawer gwell. Felly, ystyriwyd ei bod yn hanfodol parhau i sicrhau bod yr adnoddau a'r offer priodol i weithio gyda menywod ar ôl eu rhyddhau o'r carchar ar gael i'r Gwasanaeth Dull System Gyfan Future 4 a Dyfodol[38] (dau ddarparwr hanfodol o fewn y rhaglen Braenaru).

[38] Gwasanaeth brysbennu, asesu, dargyfeirio, triniaeth a chymorth i droseddwyr sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Mae'n darparu'r mecanweithiau atgyfeirio cyffuriau ac alcohol i bartneriaid

*'... rydym yn dibynnu'n helaeth [arnynt] i dderbyn y bobl hynny sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar ac mae'n debyg mai dyma'r llwybr cyfeirio mwyaf i'w gwasanaeth ... i ni, dyma un o'r gwendidau mwyaf i'r bobl ar yr adeg y maent yn cael eu rhyddhau o'r carchar.'*

*Gwerthuso blaenoriaeth y ddalfa ac ailsefydlu'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod*

5.71 Awgrymodd y rhanddeiliaid ystod o fesurau canlyniadau ar gyfer gwerthuso blaenoriaeth y ddalfa ac ailsefydlu'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod. Rhestrir y rhain yn adran 6.

5.72 Gwnaeth y rhanddeiliaid dynnu sylw at yr **ystyriaethau** canlynol ar gyfer gwerthuso blaenoriaeth y ddalfa ac ailsefydlu'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod:

- Gallai adroddiadau seicolegol gyfrannu at unrhyw werthusiad ar ffurf asesiadau risg a fformiwleiddiadau cyfoethog sy'n benodol i fenyw sy'n cael eu hailystyried ar hyd llwybr taith menyw.
- Mae angen canolbwyntio ar achosion 'o fynd yn ôl i'r un sefyllfa' i ddeall a gwerthuso eu cymhellion a'r hyn y gallai fod angen ei wneud yn wahanol.

5.73 O ran yr **heriau**, dywedwyd y gallai fod yn anodd datrys rhai o'r mesurau canlyniad y gellid eu defnyddio i werthuso'r flaenoriaeth yn y ddalfa ac ailsefydlu a'u mesur yn effeithiol ac yn gywir.

*'... mae menywod yn cymryd mwy o gyfrifoldeb drostynt eu hunain ... am eu gweithredoedd a'u bywydau. Maent yn ceisio mwy o help. Mae'n rhaid i chi ystyried y canlyniadau hynny ... a [sut y maent wedi] gwneud yr ymdrech i ddeall sut i uniaethu a chyfathrebu â'u plant eu hunain, neu bartner neu bartneriaid newydd wrth symud ymlaen. Mae'n gymhleth iawn ... ac mae'n anodd ei fesur.'*

5.74 At hynny, teimlwyd y gallai'r ffaith bod menywod o Gymru ym mhob carchar i fenywod yn Lloegr gymhlethu'r broses werthuso gan y bydd gan bob sefydliad ddulliau gwahanol o weithio gyda'u menywod a ffyrdd gwahanol o gasglu gwybodaeth a monitro cynnydd. Fodd bynnag, y gobaith oedd y byddai rhywfaint o

---

cyfiawnder troseddol ac iechyd y tu allan i'r carchar ac i'r gymuned ar gyfer yr holl garcharorion a ryddheir yng Nghymru ac sydd angen cymorth ar ôl eu rhyddhau i Gymru a gweddill y DU.

gysondeb o ystyried eu bod i gyd yn rhan o Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.

5.75 Yn y tabl a ganlyn, rydym yn cyfuno canfyddiadau'r cyfweliadau â rhai'r ymarfer mapio ystadegol a gynhaliwyd gennym yng ngham 1 yr AG hwn i lunio rhai argymhellion ar gyfer gwerthuso blaenoriaeth y ddalfa ac ailsefydlu'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod.

- Fel y nodwyd mewn man arall, byddai'n bwysig archwilio cyfraddau aildroseddu yn ôl math o ddedfryd (cymunedol yn hytrach na’r carchar) o ran unrhyw wahaniaethau rhwng menywod â gwahanol anghenion a / neu nodweddion gwarchodedig.
- Dylai'r gwerthusiad hefyd archwilio proffil datrysiadau ar gyfer grwpiau gwahanol, yn ôl math o drosedd a difrifoldeb; p'un a yw hyn wedi newid dros amser; ac a fu cynnydd yn y defnydd o ddatrysiadau y tu allan i'r llys a gostyngiad yn y defnydd o fynd â rhywun i'r ddalfa. Gellir defnyddio'r Mynegai Cyfradd Cymharol i nodi lle mae menywod â nodweddion penodol a / neu aelodaeth o grŵp blaenoriaeth yn cael eu gorgynrychioli. Bydd data Cyfrifiad 2021 (sydd ar gael o fis Mawrth 2023) hefyd yn dangos y darlun lleol.
- Yn yr un modd â'r flaenoriaeth llysoedd a dedfrydu, ymgorffori'r amser i gyfiawnder (yr amser rhwng cael ei arestio a mynd i'r llys) wrth werthuso'r flaenoriaeth y ddalfa ac ailsefydlu.
- Dylai mynediad at wasanaethau cymorth, gan gynnwys iechyd a gofal cyn-geni, fod yn debyg i’r hyn a geir yn y gymuned, gyda cham pontio wedi’i gynllunio i wasanaethau ar ôl rhyddhau. Bydd cael mecanwaith i nodi carcharorion o Gymru mewn systemau gwahanol gan gynnwys Prison-NOMIS (y system TG ar gyfer cofnodi manylion carcharorion unigol gan garchardai) yn galluogi i broffil croestoriadol gael ei ddatblygu, gan gynnwys anghenion.
- Er y gall y niferoedd fod yn fach, bydd gallu nodi agweddau fel ceisiadau ar gyfer Unedau Mamau a Babanod a lleoliadau yn yr unedau hynny gan fenywod o Gymru yn llywio'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau. Gallai defnyddio dangosyddion mamolaeth i ddangos tystiolaeth lle mae'n ymddangos eu bod wedi'u rhoi hefyd gyfrannu at y sylfaen dystiolaeth.

- Byddai gwybod faint o fenywod sy'n defnyddio mentrau penodol pan fyddant yn y ddalfa yn ei gwneud yn bosibl hefyd i gynllunio'r gwasanaethau sydd eu hangen pan fydd menywod yn dychwelyd i'r gymuned. Mae hyn yn cynnwys triniaeth / cymorth ar gyfer camddefnyddio sylweddau a materion iechyd meddwl, a hyfforddiant sy'n gysylltiedig â sgiliau bywyd.
- Mewn gwerthusiad, dylid cynnwys cydymffurfedd sefydliadau diogel â Safon y Gymraeg a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, h.y., dylai menywod gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, asesiadau, a chymorth yn y Gymraeg pan fyddant yn y ddalfa heb orfod gofyn amdanynt.
- Yn yr un modd â'r flaenoriaeth gymunedol, dylid archwilio cydymffurfedd â dedfrydau cymunedol, gan gynnwys achosion o dorri amodau a galw'n ôl, e.e., y rhesymau dros ddiffyg cydymffurfio; a yw'r rhain yr un peth ar gyfer menywod ag ar gyfer dynion; a yw menywod yn deall yr amodau a'r gofynion; ac a ydynt yn ystyried cyfrifoldebau gofal plant a threfniadau cystodaeth plant.
- Dylai'r gwerthusiad o'r flaenoriaeth hon hefyd ymgorffori'r defnydd o fod ar remánd; Rhyddhau ar drwydded dros dro; a mesurau parhad gofal.
- Mae archwilio addasrwydd llety ar ôl rhyddhau yn allweddol, yn enwedig lle mae gan fenywod blant dibynnol ac yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol o ran pwy sy'n cael blaenoriaeth ar gyfer tai cymdeithasol.

**Ymchwil a gwerthuso**

5.76 Mae ymchwil a gwerthuso yn flaenoriaeth benodol i'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod, a gofynnwyd y cwestiynau canlynol i randdeiliaid yn ei gylch. Crynhoir eu hadborth yng ngweddill yr adran hon.

*Beth yw'r ystyriaethau allweddol ar gyfer gwerthuso'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod?*

5.77 Nododd y rhanddeiliaid nifer o argymhellion ar gyfer gwerthuso'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod. Gwnaethpwyd rhai o'r pwyntiau hyn mewn mannau eraill mewn perthynas â blaenoriaethau'r Glasbrint, ac mae rhai hefyd yn ymwneud â'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid.

- Rhaid i'r gwerthusiad gael mewnbwn a chefnogaeth gan yr holl sefydliadau statudol, gwirfoddol a sefydliadau o'r trydydd sector perthnasol sy'n ymwneud â goruchwylio'r Glasbrint a darparu gwasanaethau cysylltiedig.

*‘Mae angen cynnwys pob rhan o'r system, mae angen cael sylwadau gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr heddlu, y gwasanaethau troseddau ieuenctid, y gwasanaethau prawf ... Rwyf hefyd yn meddwl bod angen i ni gynnwys y trydydd sector oherwydd eu bod yn chwarae rhan enfawr yn y pethau hyn ... mae angen i ni gynnwys y ... diffynyddion ... mae angen i ni gynnwys dioddefwyr trosedd, o bosibl ... ac os ydych yn byw drws nesaf ... a ydynt wedi gweld newid yn yr ymddygiad, a yw wedi helpu, a yw wedi cynorthwyo?’*

- Mae angen meithrin diwylliant o ddysgu agored, yn enwedig o fewn y trydydd sector lle gall fod amharodrwydd i werthuso rhag ofn y bydd arfer gwael yn dod i’r amlwg – a allai effeithio ar allu sefydliadau i sicrhau adnoddau a chyllid yn y dyfodol. At hynny, roedd derbyn efallai na fydd ymyriadau bob amser yn llwyddiannus yn cael ei ystyried yn bwysig er mwyn osgoi *'lleihau'r awydd hwnnw am arloesedd neu werthuso rhywbeth gwirioneddol gadarn’.*
- Gallai cael strategaeth ymchwil ar y cyd ar draws y ddau Lasbrint helpu i gadw ymchwil a gwerthuso yn uchel ar yr agenda.

*‘Dull strwythuredig yw ystyriaethau allweddol ac mae angen strategaeth ar y cyd ar gyfer ymchwil a gwerthuso sy’n adeiladu ar wybodaeth ac arbenigedd sy'n bodoli eisoes yn y maes hwn, sy’n nodi beth yw’r bylchau ac sy’n ceisio dod o hyd i ffyrdd o fynd i’r afael â’r bylchau hynny, a chyfrannu’n ystyrlon at ein gwybodaeth ehangach am yr hyn sy'n arfer gorau gyda'r holl boblogaethau hyn yr ydym yn sôn amdanynt ac am gael y diwylliant hwnnw o ddysgu agored.’*

- Rhaid i ddata ar gyfer ymchwil a gwerthuso (data sy'n benodol i Gymru yn benodol) fod yn haws i ymchwilwyr ei gyrchu nag sy'n digwydd ar hyn o bryd.

*'Mewn rhai agweddau, mae'n gyfyngiad i'r Glasbrint cyfan, yn enwedig pan fyddwn yn sôn am y Glasbrint hwn fel bod yn draws-sefydliadol yn ei*

*uchelgeisiau ar gyfer ei gyflawni … Gallai unigolyn fod yn gysylltiedig â nifer o wasanaethau, ac rydym yn ei chael yn anodd gallu edrych ar unigolyn a chyrchu'r data hwnnw mewn perthynas â'r unigolyn sengl hwnnw. Mae hynny'n gyfyngiad a bydd yn gyfyngiad o ran gallu gwerthuso effaith yr holl elfennau gwahanol. Byddech chi'n meddwl yn yr oes sydd ohoni y gallem ni fod wedi datrys yr ochr honno o bethau, ond yn amlwg ddim.'*

- Dylai gwahanol ddarnau o ymchwil a gwerthuso sy'n cael eu cynnal i'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod (a'r Glasbrint Cyfiawnder ar gyfer Ieuenctid) gael eu halinio'n agosach â'i gilydd. Dylai ymchwilwyr sy'n arwain y prosiectau hyn gyfathrebu er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd ac i sicrhau bod eu prosiectau priodol yn asio â'i gilydd yn hytrach na'u dyblygu.

*'Rydym yn mynd i gael prosiectau eraill o dan y Glasbrintiau sy'n mynd i gael gwerthusiadau y mae angen eu halinio, ac rwy'n meddwl bod cyfathrebu'n allweddol. Fel arall, byddwn yn cael grŵp cyfan o werthusiadau nad ydynt yn adlewyrchu ei gilydd na fyddant yn ein rhoi mewn lle da.'*

- Rhaid i ymchwil a gwerthuso gael eu hariannu'n briodol a'u cynnwys yn y busnes craidd o'r cychwyn cyntaf er mwyn sicrhau y gellir mesur canlyniadau.

*'Sut ydych chi'n gwneud hyn yn fusnes craidd i bobl nad oes ganddynt ddiddordeb mewn rhai o'r pethau hyn? Os na fyddwn ni'n gwneud hynny, ac os na fyddwn ni'n cynnwys yn iawn ar y dechrau, sut ydym yn gwybod bod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn cael yr effaith iawn yn y diwedd oherwydd nad ydym yn gallu ei fesur?'*

*' … Weithiau mae gwerth ymchwil a gwerthuso yn cael ei gydnabod yn rhy hwyr. Gellir ei weld fel rhywbeth sy'n ddrud ac yn rhywbeth ychwanegol ac yn foeth nad oes wir ei angen arnom neu'n rhywbeth y dylid ei wneud yn rhad ac yn fewnol a heb bobl sydd â'r arbenigedd ...'*

- Dim ond rhan o'r stori y mae mesurau canlyniadau meintiol neu 'galed' fel aildroseddu yn ei hadrodd. O ganlyniad, dylai gwerthusiadau o'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod (a'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid) ymgorffori

elfennau ansoddol cryf sy'n cofnodi canlyniadau *'meddalach'*, yn seiliedig ar adborth gan ddefnyddwyr a darparwyr gwasanaethau, teuluoedd a chymunedau.

*‘Mae gwir angen i'r gwerthusiad fod yn werthusiad amlochrog ac mae angen iddo ganolbwyntio nid yn unig ar ganlyniad mesuradwy, sef a yw'r unigolyn hwn wedi rhoi'r gorau i gyflawni troseddau? Mae'n gul. Rwy'n meddwl bod angen i’r gwerthusiad fod yn llawer ehangach na hynny: a ydynt yn cyrchu gwasanaethau? A ydynt yn mynd i'r ysgol? A oes swydd ganddynt? A oes cartref ganddynt?’*

- Dylai ymchwil a gwerthuso fod yn annibynnol a gwrthrychol a chael eu harwain gan ymchwilwyr a sefydliadau ymchwil allanol lle bo modd.

*‘Mae mor werthfawr cael partneriaid allanol yn ymwneud ag ymchwil a gwerthuso, i'w gadw'n wrthrychol, i'w gadw'n agored i graffu, ac yn y pen draw, i roi canlyniadau ac argymhellion dilys a dibynadwy i ni ynghylch y camau nesaf. Rwy'n meddwl bod data a data da yn sylfaenol i hyn’*

- Dylai'r gwerthusiad o'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod (a'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid) geisio nodi pa mor effeithiol y bu gwaith partneriaeth amlasiantaethol wrth helpu i gyflawni nodau'r Glasbrint.

*‘ ... mae cymaint o ddibyniaeth ar bartneriaid gwahanol yn dod at ei gilydd i wneud eu rhan ... mae'n elfen eithaf diddorol o'r gwerthusiad i ddeall a yw'r gwaith partneriaeth hwnnw wedi gweithio cystal ag y gallai ... a fu unrhyw rwystr yn ystod y gwaith o gyflawni pethau, beth oedd y rhain a pham nad ydym wedi gallu eu goresgyn naill ai drwy lywodraethu neu drwy weithio mewn partneriaeth yn unig? Oherwydd mai un o'r pethau cyffrous am y darnau hyn o waith yw, mae'n eithaf amlasiantaethol mewn gwirionedd ... Y cwestiwn ehangach i mi yw, a yw hyn yn enghraifft dda o weithio mewn partneriaeth ai peidio?’*

- Dylid buddsoddi mewn gwerthusiadau tymor hwy oherwydd y bydd llawer o ganlyniadau yn cymryd amser i ddod i’r amlwg.

*‘ ... mae angen i ni wneud rhywbeth o gwmpas darnau mwy hydredol o waith. Oherwydd yr hyn yr ydym yn sôn amdano yma [yw] mynd i'r afael ag achosion sylfaenol materion sy'n bodoli ers tro ... Ac, yn yr un modd, mae angen i ni allu*

*deall sut yr effeithir ar hynny dros amser. Yn aml, rydym yn rhoi 12 mis i newid er mwyn sicrhau ei fanteision. Ond rydym i gyd yn gwybod, hyd yn oed os yw'n arferion bwyta neu'n ymarfer corff ... nid yw o reidrwydd yn hawdd ei gynnal ac nid yw'n fesur amser gwerthfawr na chywir…'*

- Mae angen cydnabod cymhlethdodau unrhyw werthusiad sy'n cynnwys unigolion â llawer o gymhellion, anghenion a chanlyniadau dymunol gwahanol.
- Unwaith eto, nodwyd y bydd yn anodd ynysu effeithiau'r Glasbrint oddi wrth rai mentrau sydd eisoes yn bodoli (fel y Cynllun Braenaru i Fenywod) - ond hefyd y bydd nodi cyflawniadau'r ymyriadau eraill hyn yn bwysig ar gyfer unrhyw werthusiad o Lasbrintiau oherwydd *'rydym am honni bod hyn yn ein helpu i gyflwyno'r Glasbrintiau hefyd…'*

*Beth sy'n gweithio'n dda wrth gynnal ymchwil gyda menywod?*

5.78 Argymhellodd y rhanddeiliaid y dulliau, technegau a'r ystyriaethau canlynol y dylid eu cadw mewn cof wrth gynllunio gwerthusiad(au) o'r Glasbrint.

- Cynnwys cyn-droseddwyr benywaidd fel ymchwilwyr a mentoriaid cymheiriaid i wneud ymchwil gyda menywod / cefnogi menywod yn y system cyfiawnder troseddol a gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol ac ysbrydoledig.

*'Does neb yn deall beth rydych chi'n mynd drwyddo cystal â rhywun sydd eisoes wedi bod drwyddo. Ac rwy'n meddwl, os ydym am gael canlyniadau gwell, bod angen i ni ddefnyddio sgiliau'r rhai sy'n gwybod beth sydd ei angen arnynt ... beth fyddai wedi gwneud gwahaniaeth iddynt'*

- Yn unol ag arfer wedi'i lywio gan drawma, cael unigolyn y gellir ymddiried ynddo i gyflwyno ymchwilwyr, a chefnogi menywod i ymgysylltu â'r ymchwil. Dylai hyn gynnwys helpu i friffio cyfranogwyr ymlaen llaw i sicrhau eu bod yn deall y cwmpas a'r gofynion yn llawn, ac i leddfu unrhyw bryderon.

*‘ … yn fy marn i, mae'n gwbl hanfodol gweithio drwy asiantaethau y mae ganddynt gydberthynas y gellir ymddiried ynddi.'*

- Mae ymchwilwyr yn sicrhau bod menywod yn teimlo eu bod yn cael eu dilysu trwy gymryd rhan mewn ymchwil, ac yn deall y bydd eu hadborth yn cael ei ddefnyddio i helpu i wella cefnogaeth i eraill sydd yn eu sefyllfa yn y dyfodol.

*‘Yr hyn sy'n digwydd yn aml yw bod y menywod wedi rhoi'r wybodaeth, ond ... nid yw canlyniad yr ymchwil yn cael ei rannu'n ôl gyda'r menywod. Mae hynny'n beth enfawr ... Ac o ystyried eu bod wedi cymryd yr amser i roi eu llais, ac mae pawb yn siarad am gael llais, nid ydynt yn ei rannu'n ôl eto.’*

- Dulliau creadigol, gweledol fel gwneud fideos i ddod â phrofiadau menywod yn fyw.

*‘ ... mae gennym fideo a gafodd ei wneud ar brawf gwaith creadigol yng Nghaint a Sussex a Surrey ... mae'n gwneud i mi deimlo'n emosiynol iawn ac yn rhoi cryd arnaf. Ac yna, mae gennym fideo arall sydd o'r dull system gyfan, sef ... 'Dyma beth ddigwyddodd, dyma sut newidiodd fy mywyd' ... Does dim byd yn eich addysgu chi yn fwy na rhywun sy'n dweud, 'Dyma fy mhrofiad i' ...’*

- Dewis y menywod 'cywir' i roi'r darlun mwyaf cyflawn o’r angen.

*‘ ... mae'r cyfan yn dibynnu ar sefydlogrwydd y menywod rydych chi'n ymgysylltu â nhw ... mae rhai ohonyn nhw [sydd] yn agosáu at eu dyddiad rhyddhau [yn] eithaf tawel, wedi dadwenwyno ac ... yna mae eraill [yn] eithaf anhrefnus o hyd ... Ac mae angen y cydbwysedd hwnnw arnoch oherwydd bod angen i chi wybod am y pwysau uniongyrchol, ond mae angen i chi hefyd allu siarad â'r rhai yr ydych yn mynd i gael y safbwynt eithaf clir hwnnw o'r hyn sy'n digwydd’*

- Mae cynnig cymhellion yn bwysig er mwyn cydnabod amser ac ymdrech.

5.79 Holwyd rhanddeiliaid hefyd ynghylch dichonoldeb cynnwys menywod yn y carchar neu fenywod sydd ar drwydded yn y gwaith ymchwil a gwerthuso. Ar gyfer y cyntaf, credwyd mai mynediad oedd y brif ystyriaeth, a dywedwyd bod yr olaf (yn naturiol) yn blaenoriaethu eu hailsefydlu dros wahoddiadau ymchwil. Fodd bynnag, er mwyn ceisio gwneud hynny, pwysleisiwyd eto y dylid cysylltu â gweithiwr y gellir ymddiried ynddo naill ai yn y carchar neu yn y gymuned.

*Adborth menywod a rhanddeiliaid ar ymchwil a gwerthuso*

5.80 Pan ofynnwyd iddynt a oes unrhyw ffyrdd sydd eisoes ar waith y gall menywod roi adborth ar eu profiadau o'r llysoedd a dedfrydu, nododd rhanddeiliaid y canlynol:

- Grwpiau ffocws a gweithdai gyda menywod yn y ddalfa – gan gynnwys gyda menywod o leiafrifoedd ethnig i ddeall eu profiadau penodol.
- Fforymau 'profiad byw' o droseddwyr benywaidd.
- Prosiectau'r trydydd sector sy'n siarad â'r menywod y maent yn gweithio gyda nhw i ddeall beth sy'n gweithio a beth arall sy'n angenrheidiol.
- Rhestrau gwirio 'mannau cyswllt' lle gall sefydliadau wirio bod troseddwr benywaidd wedi cael y cymorth priodol ar wahanol adegau pwysig ar ei thaith.
- 'Cyfweliadau wrth ymadael' gyda'r rhai sydd wedi bod yn ymwneud â menywod sydd wedi bod ar gynlluniau Rheoli Integredig Troseddwyr (rheolwyr troseddwyr a swyddogion yr heddlu er enghraifft).

5.81 Dywedodd dau randdeiliad eu bod yn y broses o greu cronfa ddata / rhwydwaith o fenywod â phrofiadau byw o gyfiawnder troseddol, y gofynnir iddynt o bryd i'w gilydd i roi eu barn ar wahanol agweddau ar y system. Mewn gwirionedd, ystyriwyd bod datblygu modelau cyfranogi mwy strwythuredig a systematig fel y rhain yn nodwedd allweddol o'r Glasbrint a fydd yn caniatáu i fenywod gynnig adborth yn rheolaidd.

5.82 Roedd rhanddeiliaid hefyd yn ystyried bod adroddiadau cyn dedfrydu yn fath o ddull o roi adborth, ar yr amod bod y swyddog prawf sy'n eu hysgrifennu yn ymgysylltu'n briodol â'r fenyw i ymgorffori ei phrofiadau a gwneud argymhellion ystyrlon i'r llys.

5.83 Dywedodd y rhan fwyaf o'r menywod y buom yn siarad â nhw nad oedd ots ganddynt gael eu holi am eu nodweddion gwarchodedig gan asiantaethau cyfiawnder troseddol a gwasanaethau cymorth. Teimlent fod hyn yn angenrheidiol i ddeall eu hanghenion yn llawn ac i ddarparu cymorth wedi'i deilwra mewn ymateb iddynt.

> *'Roeddwn yn teimlo mai dyna oedd y drefn arferol. Dyma beth sy'n digwydd pan fyddwch chi'n mynd am fudd-daliadau, felly roeddwn i'n meddwl ei fod yn normal*

*oherwydd bod angen iddynt gael y proffil cyfan ohonoch chi. Nid wyf yn eu barnu am ofyn yr holl gwestiynau hynny.'*

5.84 Fodd bynnag, dywedodd un fenyw ei bod yn gyndyn o ddatgelu ei bod wedi gadael gofal wrth wneud cais am swyddi oherwydd ei fod wedi ei rhoi dan anfantais wrth wneud hynny yn y gorffennol.

*'Dydw i ddim yn edrych arno fel rhywbeth negyddol o gwbl, ond … pan fyddwch chi'n siarad â phobl ac yn dweud, "Ie, rydw i'n unigolyn sydd wedi gadael gofal", maent yn edrych arnoch ac yn meddwl 'Dydych chi ddim yn cael swydd yma'. Rwy'n ei chael hi'n ddiflas weithiau.'*

5.85 Ychydig iawn o'r menywod a gyfwelwyd oedd wedi cael eu holi am eu barn ar yr hyn a allai fod wedi gwella eu profiadau o'r system cyfiawnder troseddol, ac nid oeddent erioed wedi cymryd rhan mewn unrhyw ymchwil ar y pwnc cyn hyn.

5.86 Dywedodd un fenyw, sydd yn y ddalfa ar hyn o bryd, ei bod wedi siarad â llawer o ymchwilwyr yn ystod ei blynyddoedd lawer yn y system cyfiawnder troseddol. Er ei bod yn ei chael yn anodd trafod ei phrofiadau, roedd yn ystyried ei bod yn bwysig gwneud hynny er mwyn sicrhau bod ei llais yn cael ei chlywed. Yn bwysig hefyd, cynigiwyd cymorth iddynt yn ystod ac ar ôl y cyfweliad.

*' … roeddent yn wych. Buont yn eistedd gyda ni am ychydig oriau bob dydd i fod yn deg, nes bod ganddynt bopeth yr oedd ei angen arnynt ac ar ôl hynny dywedon nhw, 'Os oes angen mwy o gefnogaeth arnoch, rhowch wybod i ni, a byddwn yn siarad â'r un sydd wedi trefnu hyn i gyd i weld a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud ar eich cyfer …'*

5.87 Dywedodd y rhan fwyaf o'r menywod y siaradwyd â nhw eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i roi adborth ar eu profiadau a phwysleisiwyd pwysigrwydd cynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn ymchwil. Dywedwyd y byddai hyn yn helpu'r rhai sydd â phrofiad o'r system cyfiawnder troseddol i deimlo eu bod wedi helpu i wella pethau drostynt eu hunain ac i fenywod eraill mewn sefyllfaoedd tebyg yn y dyfodol.

*'Rwy'n meddwl ei fod yn beth anhygoel. Rydym i gyd eisiau teimlo bod rhywun ei angen neu fod rhywun ei eisiau a theimlo ein bod ni'n chwarae rhyw ran yn y gymdeithas ac yn cyfrannu ati a dwi'n credu bod hynny'n wir i bawb. Pe baem*

*ni'n byw mewn byd delfrydol, bydden ni gyd yn helpu ein gilydd. Mae'n deimlad da.'*

*' … er mwyn i chi gyd ddeall fy mhrofiad o fod yn y carchar, felly mae gennych chi'r darlun ohono …'*

*Hoffwn feddwl y byddai'n eithaf pwysig ... Os bydd unrhyw ymchwil yr wyf yn ei wneud yma gyda chi nawr neu hyd yn oed yn y dyfodol yn helpu i atal un unigolyn yn unig, mae'n un unigolyn sydd wedi cael cymorth. Ac os oes yna bobl eraill sy'n gallu gwneud yr un peth a dim ond helpu un unigolyn, mae'n troi'n llawer o bobl wedyn.'*

5.88 Dywedodd sawl menyw yn y ddalfa eu bod yn arbennig o awyddus i adrodd eu 'straeon' wrth lunwyr polisi er mwyn rhoi llais i'r nifer fawr o fenywod sydd yn y carchar ar hyn o bryd.

*'Byddai hynny'n fy ngwneud i'n hapus, ac rwy'n meddwl y bydd yn gwneud y merched eraill sydd yn fy math o sefyllfa yn hapus hefyd; felly, deall yr hyn y mae menywod yn mynd drwyddo oherwydd … bod mwy o fenywod nag y bu erioed.'*

5.89 At hynny, roedd un fenyw, a oedd wedi'i dedfrydu fel plentyn dan oed, yn ystyried ei bod yn arbennig o bwysig bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n ymwybodol o'i phrofiadau: teimlai nad oedd neb wedi ei helpu pan oeddwn i'n blentyn, ac er gwaethaf ysgrifennu at Aelodau Seneddol sawl gwaith, nid oedd yn teimlo bod rhywun yn gwrando arni. Teimlai y byddai ymchwil ffurfiol yn cael ei gymryd yn fwy difrifol gan y rhai a all effeithio ar newid.

*'Rwy'n meddwl bod angen gwneud llawer mwy i blant mewn sefyllfaoedd tebyg i'r un yr oeddwn i ynddi. Doedd neb wedi fy helpu. Ysgrifennais at yr Aelodau Seneddol nifer o weithiau, dwi wedi trio gwneud hyn a does neb yn gwrando arna i … ond dwi'n meddwl pan fo'n dod i ymchwil, mae'n gwneud mwy o wahaniaeth …'*

5.90 Dywedodd rhai menywod, er eu bod yn annhebygol o chwilio am gyfleoedd i roi adborth, y byddent yn hapus i'w ddarparu pe gofynnir iddynt, gan fynegi'n syml mai'r ffordd orau o fesur profiadau menywod o'r system cyfiawnder troseddol yw siarad â nhw.

*‘Yr unig beth y gallwch chi ei wneud yw gwneud yr hyn rydych chi'n ei wneud heddiw, a chael adborth gennym.'*

5.91 Dywedodd rhai y byddai'n well ganddynt gymryd rhan mewn ymchwil ar ffurf un-i-un, tra byddai'n well gan eraill gymryd rhan mewn trafodaeth grŵp bach, anffurfiol gyda lluniaeth.

*‘Rwy'n meddwl efallai y byddai'n beth da cael trafodaeth grŵp ... byddai’n syniad cael cacen yn y neuadd, a gallem eistedd o gwmpas a chael cyfarfod …’*

*‘Yn bersonol ... dwi ddim yn dda mewn grwpiau. Dwi'n iawn os oes pump neu chwech o bobl, ond os oes mwy na hynny yna mae gen i bryder ac ni allaf ei wneud.’*

*‘ … byddai'n well eistedd mewn grŵp gyda merched sydd wedi cael profiadau tebyg.’*

5.92 Dywedodd rhai o'r menywod fod siarad â defnyddwyr gwasanaeth yn uniongyrchol yn well na chynnal arolwg neu ymchwil meintiol arall. Dywedodd un cyfranogwr yn benodol y byddai’n well ganddi ymgysylltu wyneb yn wyneb ag y gall emosiynau gael eu mesur yn haws o lawer.

*‘Siarad â nhw. Dwi ddim yn siŵr am dicio pethau i ffwrdd ar raddfeydd. Mae'n bosibl y byddai’n gweithio i greu darlun ystadegol, ond rwy’n meddwl mai cael sgyrsiau un-i-un yw'r ffordd orau o ddysgu ac adeiladu ar y profiadau mae pobl wedi’u cael ac yn eu cael… yr elfen ddynol.’*

*‘Mae'n well gen i gael trafodaeth wyneb yn wyneb, dim ond oherwydd y gallwch sylwi pan fydd rhywbeth wedi cyffwrdd rhywun a sylwi ar eu hwyliau, ond os ydych ar y ffôn, nid oes modd gofyn "Ydych chi'n crio?" Rwyf wedi cymryd rhan mewn pethau ar-lein ac mae'n ofnadwy!'*

5.93 Roedd eraill y buom yn siarad â nhw yn fwy agored i gynnal arolygon. Pwysleisiodd y rhai a oedd o blaid y dull hwn y dylai arolygon fod yn ddienw, ac y gallai’r cyfryngau cymdeithasol fod yn ffordd dda o roi cyhoeddusrwydd a / neu gynnal arolygon. Pwysleisiwyd hefyd pwysigrwydd cynnal anhysbysrwydd mewn perthynas ag ymchwil gyda menywod yn ehangach.

*'…Does dim rhaid i chi gael eich enwi na dim byd, a dwi'n meddwl bod hynny'n dda, oherwydd weithiau pan fydd pobl yn dweud 'yr unigolyn yma o'r ardal hon', ac rwyt yn meddwl "Wir? Oedd rhaid iddynt roi hynny?"'*

5.94 Awgrymwyd hefyd y dylid gwahodd menywod i gwblhau arolwg byr am eu profiadau o ddalfeydd yr heddlu yn dilyn eu hamser yno, ac y gellid gosod blychau awgrymiadau mewn gorsafoedd heddlu i gasglu adborth.

5.95 Roedd cadw dyddiadur ysgrifenedig yn apelio at rai merched:

*'Dwi ddim yn meddwl y gallaf gadw dyddiadur fideo, ond byddwn yn cadw dyddiadur [ysgrifenedig]. Rwy'n hoff o ysgrifennu a theipio a phethau'*

*'Rwy'n meddwl pan fyddaf yn mynd adref, er enghraifft, pe bai rhywun o Fenywod Cymru yn dod ataf ac yn dweud, "Dyma ddyddiadur am flwyddyn, a allech ysgrifennu'r heriau yr ydych yn eu hwynebu wrth fod yn garcharor sydd newydd ei ryddhau?" yna nid yw hynny'n broblem. Byddwn yn ei roi i chi ymhen blwyddyn, dim problem.'*

5.96 Dywedodd eraill, fodd bynnag, y byddai'n well ganddynt lunio dyddiadur fideo oherwydd y byddai'n cymryd llai o amser.

*'Y fideo o bosibl, ond dwi ddim yn rhy siŵr am ddyddiadur ysgrifenedig achos, weithiau, nad oes gan bobl amser i eistedd ac ysgrifennu rhywbeth, ac nid yw oes llawer o bobl yn ysgrifennu.'*

5.97 Roedd teimlad eithaf cryf nad oedd unrhyw amseroedd 'da' neu 'ddrwg' i gymryd rhan mewn ymchwil. Yn hytrach, pwysleisiodd rhai menywod y dylai ymchwilwyr anelu at siarad â menywod ar bob cam o'u taith drwy'r system cyfiawnder troseddol, hyd yn oed pan fyddant ar eu hisaf. Dywedodd sawl un hefyd y byddent yn hapus i gymryd rhan mewn rhyw fath o ymchwil hydredol er mwyn gallu cofnodi eu profiadau dros amser.

*'Dwi ddim yn meddwl ei fod yn bwysig. Os oes rhywun yn fodlon cymryd rhan, does dim ots ar ba gam y maent. Weithiau, os ydynt mewn sefyllfa hynod fregus neu agored i niwed neu hunanladdol neu unrhyw beth o gwbl, ar y camau mwy cadarnhaol i deimlo eu bod mewn adferiad a bod pethau'n mynd yn dda iddynt,*

*rwy'n meddwl bod y cyfan yn cyrraedd yr un nod yn y pen draw a gall y cyfan bod yn amhrisiadwy ar bob cyfrif hefyd.'*

*'Byddwn yn ddigon hapus i'w wneud dros gyfnod hirach o amser. Os yw'n helpu rhywun arall i'w hatal rhag mynd drwy'r system neu fynd i'r carchar, byddwn yn hapus i gyfrannu.'*

5.98 Yn wir, dywedwyd bod siarad â menywod pan fyddant yn teimlo'n isel yn arbennig o fuddiol, oherwydd eu bod yn fwy agored a gonest.

*'Rwy'n meddwl mai'r amser gorau i bobl gymryd rhan mewn pethau fel hyn yw pan fyddan nhw ar eu hisaf achos eu bod nhw'n ymddangos yn llawer mwy agored ac yn dueddol o rannu llawer mwy …. Mae menywod yn dueddol o fod yr un peth … Pan fyddwch chi ar eich isaf, nid oes gennych ffilter ar ôl … nid oes ots gennych chi - rydych chi'n ei ddweud fel y mae.'*

5.99 Roedd cryn werth mewn cynnal ymchwil gan gymheiriaid, yn ôl y rhan fwyaf o'r menywod y siaradom â nhw. Roedd hyn, yn ôl y sôn, oherwydd bod menywod yn gallu uniaethu'n well â'r rhai oedd wedi bod mewn sefyllfaoedd tebyg iddynt eu hunain. Byddent hefyd yn ei chael yn haws ymddiried ynddynt, ac ni fyddent yn teimlo eu bod yn cael eu barnu, a fyddai'n ffafriol i'r ymchwil.

*'Yr hyn sydd wir yn helpu fwyaf yw cael cyfoedion sydd wedi cael profiadau tebyg. Rwy'n meddwl mai'r profiadau yr ydych wedi bod drwyddynt yw'r pwynt pwysicaf er mwyn i hyn atseinio â rhywun arall, oherwydd, wedyn, y gallwch wir uniaethu â rhywun ac ymddiried ynddynt 100% yr holl ffordd i lawr y llinell yn yr hyn yr ydych yn ei ddweud wrthynt a sut yr ydych yn mynegi eich hun; ni chewch eich barnu.'*

*'Os ydynt wedi profi'r un peth - neu efallai bod aelod o'ch teulu wedi profi'r fath beth – mae'n rhywun sy'n deall. Os nad ydynt wedi profi'r fath beth, nhw yw'r bobl waethaf i siarad â nhw.'*

5.100 Rhybuddiodd un fenyw y dylai ymchwilwyr cymheiriaid fod yn glir ynghylch diben yr ymchwil, a ddylai ganolbwyntio ar helpu eraill mewn sefyllfaoedd tebyg, yn hytrach na bod yn ymwthiol. Teimlai un arall na ddylent ganolbwyntio'n ormodol ar eu profiadau eu hunain ar draul clywed barn pobl eraill, ac y gallai ymchwilydd

proffesiynol fod yn opsiwn mwy priodol oherwydd eu bod wedi’u 'datgysylltu' o'r system.

*‘Rwy'n eithaf bodlon eistedd i'w helpu, ond mae'n wahanol os ydw i'n meddwl eu bod nhw'n eistedd yno yn ceisio cael gwybodaeth a bod yn fusneslyd. Felly, gall fynd y ffordd iawn gyda sefydlu grŵp a gall fynd y ffordd anghywir ar yr un pryd.’*

*‘ … Rwy'n meddwl y byddwch yn diflasu ar ôl gwrando ar rywun yn dweud wrthych, 'dyw'r swyddogion hyn ddim yn gwrando arna i blah, blah, blah' ... Felly, mae ymchwilydd yn well i ofyn y cwestiynau a gwrando ... mae'n debyg.’*

5.101 Safbwynt arall oedd er y gallai menywod fod mewn gwell sefyllfa i gynnal ymchwil gyda menywod eraill sydd wedi bod mewn cysylltiad â’r system cyfiawnder troseddol, nid oedd yn hanfodol i ymchwilwyr fod wedi profi’r system eu hunain. Hefyd mewn perthynas â rhywedd, dywedodd rhai cyfranogwyr na ddylid cymryd yn ganiataol o reidrwydd y byddai’n well gan fenywod sy’n troseddu siarad ag ymchwilydd benywaidd, gan fod rhai yn cysylltu’n well â dynion.

5.102 Yn ogystal, roedd y rhan fwyaf o gyfweledigion wedi pwysleisio nad yw cefndir hiliol neu ethnig yr ymchwilydd yn bwysig.

*‘Byddwn i'n meddwl unrhyw fenyw sydd â'r gallu i'w wneud. Nid yw'n eich diystyru o ba hil ac o ba wlad rydych chi'n dod nac unrhyw beth felly. Nid oes ots a ydych chi wedi cael trafferthion eich hun neu os ydych chi'n gyflogai. Rwy'n teimlo y gall unrhyw fenyw helpu rhywun arall.’*

*Pa mor ymarferol fyddai gwerthuso'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod ochr yn ochr â'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid gyda'i gilydd?*

5.103 Awgrymodd y rhan fwyaf o randdeiliaid y gellid defnyddio dull thematig tebyg o werthuso’r ddau Lasbrint gan eu bod yn cynnwys yr un rhanddeiliaid a sefydliadau i raddau helaeth ac yn targedu canlyniadau tebyg. Fodd bynnag, roeddent yn tueddu i argymell y dylai'r gwerthusiadau aros ar wahân i gydnabod y gwahaniaethau rhwng y Glasbrintiau.

*‘ … Rydym yn ceisio dargyfeirio'r ddau grŵp hynny oddi wrth y system cyfiawnder troseddol, felly efallai y gallech wneud gwerthusiad ar ddargyfeirio, ond mae*

*angen dwy bennod arnoch o hyd oherwydd bod y camau yr ydym yn eu cymryd yn wahanol iawn o gymharu â'r ddwy garfan hynny.'*

5.104 Fel y dywedodd un o'r rhanddeiliaid: *'mae'n debyg y byddai'n ddarn ehangach o waith na dim ond gwneud y naill neu'r llall, ond mae'n debyg yn llai na gwneud y ddau ar wahân. Rwy'n meddwl bod llawer i'w ddysgu o edrych ar y ddau gyda'i gilydd ...'*

5.105 Dywedodd nifer o'r rhanddeiliaid y gellid gwerthuso rhai rhannau o'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod gyda'i gilydd i adlewyrchu eu nodau a'u themâu cyffredin, ond y dylid gwerthuso rhannau eraill ar wahân i adlewyrchu anghenion penodol menywod a phlant a phobl ifanc.

*'Nid wyf yn meddwl y dylid eu hystyried nhw ar wahân oherwydd bod ganddynt egwyddorion bras sy'n gorgyffwrdd yn glir, hyd yn oed os yw'r ffordd o gyflwyno'r gweithgaredd yn wahanol a'r manylion yn wahanol. Yr egwyddor drosfwaol yw atal y troseddu yn y lle cyntaf ac os ydyw, atal aildroseddu ac ailsefydlu. Mae hynny'n rhywbeth mae'r ddau yn eu rhannu.'*

5.106 Awgrymodd un rhanddeiliad y gallai'r dull gwerthuso hwn fod ar ffurf y 'diagram Venn' sy'n cydnabod y tebygrwydd ond eto'n cyfleu'r gwahaniaethau rhwng y Glasbrintiau. Er enghraifft, dylai'r ddau ddull gwerthuso fod wedi'u llywio gan drawma, ond i fenywod, dylai'r dull gydnabod statws yr un sy'n rhoi gofal; trawma a brofir fel plentyn ac fel oedolyn; natur fwy sefydledig eu troseddu o bosibl; a chael ei lywio gan ryw. Ar gyfer plant a phobl ifanc, byddai'r dull yn canolbwyntio ar y plentyn, yn cydnabod y cam datblygiadol; a rôl addysg.

5.107 Dywedodd rhai o'r rhanddeiliaid, pe bai dull o'r fath yn cael ei roi ar waith, y dylai gwerthuswyr gydweithio i rannu ac ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o'u gwerthusiadau priodol.

*'Mae angen i ni gadw llygad ar yr hyn y gellir ei wneud gyda'n gilydd a beth sy'n wahanol, yn hollol wahanol. Mae yna agweddau y gellid eu hystyried gyda'i gilydd. Rwy'n sicr yn meddwl y gallent ddysgu mwy oddi wrth ei gilydd. Felly, hyd yn oed os byddwch yn eu gwerthuso'n hollol ar wahân, credaf y dylai rhannau o'r system i fenywod gael eu cynnwys yn system y plentyn. A dylai dysgu o'r system*

*plant gael ei gynnwys yn y system i fenywod. Rwy'n meddwl pan edrychwch ar yr agweddau o'r themâu mae'r ddau yn eu hystyried, mae'n bosibl y gallent fod wedi dysgu mwy oddi wrth ei gilydd ar hyd y ffordd.'*

5.108 Er bod gan y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod rai blaenoriaethau tebyg, roedd rhai o'r rhanddeiliaid yn teimlo mai dim ond drwy gynnal gwerthusiadau ar wahân y byddai'n bosibl nodi eu blaenoriaethau a'u camau gweithredu penodol yn llawn yn ogystal â'r hyn sy'n gweithio'n dda, a'r hyn nad yw'n gweithio cystal.

*'Efallai bod y dull yr un peth, neu'n debyg, ond rwy'n meddwl bod angen i chi eu cadw ar wahân. Os yw un [o'r Glasbrintiau] yn llwyddiant mawr a'r llall yn llai llwyddiannus, gallwch fesur y llwyddiant ar wahân ar gyfer y naill neu'r llall.'*

5.109 Roedd eraill o'r farn y gall gwerthusiad cyfun o'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod fod yn or-gymhleth, yn ddrud, ac yn anodd ei roi ar waith yn ymarferol. Awgrymwyd hefyd na fyddai gwerthusiad cyfun yn gweithio oherwydd bod strwythur a llywodraethu cyfiawnder ieuenctid a menywod yng Nghymru yn rhy wahanol – ac oherwydd bod y Glasbrintiau eu hunain ar gamau gwahanol yn eu gweithrediad.

*' … efallai ei bod yn ymddangos fel pe bai mwy o ganlyniadau o'r Glasbrint troseddwyr benywaidd [sic.] ... y ganolfan breswyl, y dull system gyfan, pethau felly ... Ond bu trafodaethau ynghylch hynny pan oedd y Glasbrint troseddwyr benywaidd [sic.] yn cael ei ddatblygu. Rwy'n meddwl efallai ei fod yn ymwneud â bod yn hirdymor a thymor byr ... mae llawer o'r canlyniadau cyfiawnder ieuenctid yn llawer mwy hirdymor ...'*

5.110 Yn ôl eraill, gallai cyfuno'r gwerthusiadau anwybyddu gwahaniaethau pwysig yn y gweithgareddau a ddarperir a'r effeithiau a gyflawnir gan y ddau Lasbrint. Roeddent felly'n argymell gwerthusiadau ar wahân sy'n ddigon hyblyg i ganfod y naws ar draws y ddau Lasbrint. Roedd rhai hefyd yn argymell cadw'r gwerthusiadau ar wahân ond cynhyrchu dogfen gyffredinol unwaith y byddant wedi'u cwblhau sy'n cymharu ac yn cyferbynnu canfyddiadau'r ddau er mwyn helpu i lunio polisïau a dysgu ehangach.

*'Rwy'n meddwl y byddai angen i chi wneud [y gwerthusiadau o'r ddau Lasbrint] ychydig yn wahanol ... O ganlyniad i hynny, gallech gynhyrchu rhywbeth sy'n … hygyrch ac sy'n siarad â grwpiau polisi neu weinidogion. Gellid cynnal yr astudiaethau academaidd manylach ar wahân. Mewn gwirionedd, ystyriwch sut y byddech yn mynd i'r afael â hyn o gymharu â gydag oedolion. Rwyf hefyd yn meddwl y byddwn yn colli gormod, gan na fydd [gwerthusiad cyfun] yn ddigon hyblyg.'*

*A oes unrhyw fylchau yn y sylfaen dystiolaeth ynghylch taith menywod drwy'r system cyfiawnder troseddol?*

5.111 Awgrymodd y rhanddeiliaid fod y bylchau canlynol yn bodoli yn y sylfaen dystiolaeth mewn perthynas â thaith menywod drwy'r system cyfiawnder troseddol[39].

- Profiadau menywod o leiafrifoedd ethnig o fewn y System Cyfiawnder Troseddol, i gadarnhau a yw'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod yr un mor effeithiol o ran gwella canlyniadau i'r menywod hyn o gymharu â'u cyfoedion gwyn[40].

*'Rwy'n meddwl ein bod yn eithaf da am ddeall y teithiau, ond byddwn yn dweud bod angen i ni wneud yn siŵr nad ydym yn cael dealltwriaeth unffurf ... mae profiad byw hil ac ethnig lleiafrifol menywod o fod o grŵp Du, Asiaidd, Lleiafrifoedd Ethnig [sic.] a mynd drwy'r system cyfiawnder troseddol ... [Mae] pethau penodol ... am drawma hiliol a fyddai'n wahanol i'n dealltwriaeth o daith menyw wen drwy'r system cyfiawnder troseddol.'*

- Effaith ehangach anghydraddoldeb ar daith menywod (a phlant a phobl ifanc) drwy'r system, e.e., tlodi, gwahaniaethu, iechyd meddwl gwael, effaith nodweddion gwarchodedig a chroestoriadedd.

---

[39] Er bod rhywfaint o dystiolaeth yn bodoli ar y pynciau hyn, mae'n bosibl nad oedd y rhanddeiliaid yn ymwybodol ohoni. Darperir rhywfaint o'r dystiolaeth berthnasol sy'n bodoli eisoes mewn troednodiadau, er nad yw hyn yn hollgynhwysfawr.

[40] Nid oes unrhyw ymchwil gyhoeddedig hyd yma wedi archwilio'n benodol effaith y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod ar wella canlyniadau i fenywod. Mae tystiolaeth gysylltiedig yn cynnwysDatblygu Strategaethau Priodol ar gyfer Cefnogi Menywod â Hil ac Ethnig Lleiafrifol yn y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru Thomas a Miles [ar y gweill]); Adroddiadau Farmer (2017 a 2019); a The Concordat on Women in or at risk of contact with the Criminal Justice System (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2020).

- I ba raddau y mae darpariaeth y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod yn diwallu anghenion menywod sydd â chyflyrau niwrolegol amrywiol, a'r rhai ag anableddau dysgu ac anableddau[41].
- Anghyfartaledd, o ran gor-gynrychiolaeth a than-gynrychiolaeth o grwpiau penodol o fewn elfennau penodol o'r system.
- Dealltwriaeth y cyhoedd o sut olwg sydd ar deithiau menywod (a phlant a phobl ifanc) drwy'r system, er mwyn helpu i leihau stigmateiddio'r rhai sy'n cyflawni troseddau, ac i hwyluso'r ddealltwriaeth bod y sawl sy'n cyflawni trosedd yn aml yn ddioddefwyr hefyd.
- Deall taith menywod Cymru yn benodol.
- Effeithiolrwydd rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau partner i sicrhau bod anghenion menywod yn cael eu deall a'u diwallu.
- Beth sy'n sbarduno ymddygiad troseddol, a beth sy'n ei arwain i stopio.
- Pa gyfleoedd sy'n cael eu colli fel arfer wrth atal troseddu.

*' ... dealltwriaeth o gyfiawnder cyn-droseddol a chyflwyno'r ymchwil a'r gwerthusiad o'r hyn sy'n digwydd i bobl, i ble yr aethant a phwy y maent yn ei gyrchu a'r holl gyfleoedd hyn a gollwyd i wneud rhywbeth ...'*

*Sut gallwn ni wella'r llif gwybodaeth a gesglir am fenywod drwy'r system cyfiawnder troseddol?*

5.112 Argymhellodd y rhanddeiliaid fod modd gwella'r llif gwybodaeth a gesglir am fenywod drwy'r system cyfiawnder ieuenctid drwy'r canlynol:

- Meddu ar ddulliau cyson o gasglu data, systemau a rennir, a phrotocolau rhannu data a chytundebau rhwng yr holl asiantaethau perthnasol.
- Sefydliadau (yr Heddlu yn arbennig) yn goresgyn unrhyw amharodrwydd i rannu data, ac yn datblygu cynlluniau peilot rhannu gwybodaeth sy'n gwella'r

[41] Gweler Niwroamrywiaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol (Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub, 2021), er nad yw hyn yn ymwneud â menywod yn benodol.

broses ac yn lleihau aildrawmateiddio i fenywod trwy leihau'r nifer o weithiau y mae'n rhaid iddynt adrodd eu 'straeon'.

*'Nid wyf yn credu ein bod ni'n rhannu digon o wybodaeth ... weithiau, rydyn ni bron yn rhy ofnus i rannu gormod, a dwi'n meddwl mai sgileffaith hynny yw bod merched yn cael anghymwynas. Rydym wedi bod yn treialu rhannu gwybodaeth ar adeg arestio ac wedi ymgysylltu â'r dull system gyfan i geisio trosglwyddo'r hanes trawma hwnnw, os oes un, a hefyd yr wybodaeth sylfaenol yn unig gan weithwyr achos i dîm y llys ... mae wedi bod yn gadarnhaol iawn yn lleihau aildrawmateiddio ein menywod …'*

- Asiantaethau'n cytuno ar ddangosyddion a rennir i gasglu data arnynt i ddangos tystiolaeth o set glir o gamau gweithredu a chanlyniadau i fenywod, ar amser penodol neu ar bwyntiau 'ymgysylltu'.
- Datblygu 'pasbort' sy'n cynnwys yr wybodaeth allweddol sy'n dilyn menywod (a phlant a phobl ifanc) ar eu taith drwy'r system. Byddai hyn yn dileu'r angen i asiantaethau barhau i ofyn i fenywod (a phlant a phobl ifanc) ailadrodd yr un wybodaeth a byddai'n galluogi asiantaethau i 'amserlennu' eu bywydau a nodi sut y gall anghenion cymorth newid dros amser.

*' ... cael pasbortau ... casglu'r wybodaeth allweddol am unigolyn sy'n mynd gyda fe ar ei daith ... Oherwydd bod ganddo gymaint o brofiad o orfod dechrau o'r dechrau gyda phobl a gwasanaethau ... Ac rydyn ni'n gwybod y gall achosi drawma iddo orfod gwneud hynny ... Felly, rwy'n meddwl bod unrhyw beth sy'n caniatáu rhannu ar draws systemau a theithio gyda'r unigolyn ond hefyd yn cydnabod bod ... profiad unigolyn yn hylifol ac yn gyfnewidiol a bod angen ailedrych arno ...'*

## 6. Modelau gwerthuso

6.1 Yn yr adran hon, rydym yn cyfuno ein hargymhellion sydd wedi'u llywio gan yr ymarfer mapio ystadegol a gynhaliwyd yn ystod Gwanwyn 2021; awgrymiadau a wnaed gan y rhai y siaradwyd â nhw yng nghamau 2 a 3 rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2021; a'r gweithgareddau a nodir yn y cynlluniau gweithredu glasbrint priodol. Wrth wneud hyn, yn y cyfnod ers cyhoeddi'r glasbrintiau yn 2019,

cydnabyddir bod polisi Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi parhau i esblygu a bod cymdeithas a’r system cyfiawnder troseddol wedi gorfod addasu mewn ymateb i bandemig COVID-19.

6.2 Mae nifer o'r gweithgareddau tymor byrrach a nodwyd yn y cynlluniau gweithredu gwreiddiol hyn bellach wedi'u cwblhau tra bod cyfrifoldeb dros eraill wedi'i gynnwys mewn agendâu polisi gwahanol. Cyhoeddwyd cynlluniau gweithredu wedi’u diweddaru ym mis Mai 2022,[42,43] gan ddarparu crynodeb o'r gweithgareddau a gwblhawyd hyd yma, diweddariadau ar gamau gweithredu hirdymor sy'n dal i fynd rhagddynt a lle bo'n berthnasol, diweddarwyd yr amserlenni.

6.3 Mae’r ddau gynllun gweithredu’n cynnwys gweithgareddau sy’n cyfrannu at wella dealltwriaeth o gyfiawnder ieuenctid a throseddau menywod yng Nghymru ac yn dogfennu’r ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ynghyd â phartneriaid strategol allweddol yn cydweithio i drawsnewid gwasanaethau i greu cymdeithas decach a mwy cyfartal â gwell canlyniadau a chyfiawnder i bawb. Mae hyn yn cynnwys alinio strategaeth ar draws gwahanol feysydd polisi; cyflwyno'r system ECM yn dilyn y treial ar draws Timau Troseddwyr Ifanc yn Ne Cymru ac adeiladu ar y modelau dargyfeirio (Model Darparu Gwasanaethau Dull System Gyfan Braenaru Merched ar draws De Cymru a Gwent, a'r Model Checkpoint ar draws Dyfed Powys a Gogledd Cymru); cytuno ar drefniadau llywodraethu a chyfrifoldebau mewn perthynas â goruchwylio systemau.

6.4 Yng nghyd-destun yr AG hwn, rhagwelir y bydd yr hyn a ddysgwyd o’r darnau amrywiol o ymchwil, gwerthusiadau, ac ymarferion mapio y cyfeirir atynt yn y ddau gynllun yn cael ei rannu â’r rhai sydd â’r dasg o gwblhau gwerthusiad o’r glasbrintiau, gan nad yw llawer o’r gwaith hwn yn gyhoeddus. Rydym hefyd yn deall y bydd Llywodraeth Cymru yn gwahodd rhanddeiliaid allweddol i gadarnhau blaenoriaethu’r mesurau canlyniadau yr ydym wedi’u cynnig cyn y gwerthusiad.

**Dull gweithredu a argymhellir**

6.5 Yn fras, roedd rhanddeiliaid o blaid gwerthuso’r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod ar wahân i nodi elfennau penodol pob

---

[42] Cynllun Gweithredu Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid

[43] Cynllun Gweithredu Glasbrint Troseddwyr Benywaidd

Glasbrint, gyda chrynodeb hygyrch cysylltiedig yn nodi'r themâu cyffredin o'r gwerthusiadau, i lywio polisi ac arfer wrth symud ymlaen. Mae ystod o ddata eisoes yn cael ei gasglu y gellid ei ddefnyddio i werthuso'r Glasbrintiau gyda rhanddeiliaid yn darparu enghreifftiau o ble mae data monitro arferol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gweithgaredd ar draws rhai sefydliadau cyfiawnder troseddol e.e., Dangosfwrdd Rheoli Integredig Troseddwyr a dadansoddiad mewnol a wneir gan dîm dadansoddol Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru. Fodd bynnag, byddai angen i berchnogion data ofyn am ganiatâd i hyn gael ei ddefnyddio i gefnogi gweithgarwch gwerthuso[44].

6.6 Mae rhywfaint o ddata yn gyhoeddus ar ffurf tablau wedi'u cydgrynhoi a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Swyddfa Gartref. Fodd bynnag, fel y tystiwyd yng ngham 1 o'r *Asesiad Gwerthusadwyedd ar gyfer Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod Cymru a'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru: Mapio Ystadegol*, mae bylchau yn parhau. Lle na ellir mynd i'r afael â'r rhain trwy ddefnyddio data arferol a ddefnyddir gan sefydliadau unigol at ddibenion monitro perfformiad, mae lle i fynd i'r afael â'r bylchau hyn drwy gasglu data ychwanegol a chysylltu. Byddai hyn yn cefnogi gwerthusiad mwy trylwyr.

6.7 Yn nodedig, mae'r Cynllun Gweithredu Glasbrint Troseddwyr Benywaidd yn amlinellu gweithgareddau i sicrhau bod arferion cofnodi cyson yn cael eu defnyddio ar draws y system cyfiawnder troseddol; datblygu setiau data craidd er mwyn gallu monitro tueddiadau yn well; a gweithio tuag at roi protocolau rhannu gwybodaeth ar waith i hwyluso'r broses o rannu data rhwng sefydliadau partner. Mae'r ddau gynllun yn cydnabod pwysigrwydd nodi anghenion fel PNYP er mwyn cefnogi arfer gyda phlant, pobl ifanc a menywod yn well. Byddai cwblhau'r gweithgareddau hyn,

[44] Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU yn rhoi amddiffyniad ychwanegol i ddata personol troseddwyr neu droseddwyr a amheuir yng nghyd-destun gweithgarwch troseddol, honiadau, ymchwiliadau ac achosion. Mae'n ofynnol i'r rhai sy'n dymuno defnyddio data troseddau at ddibenion ymchwil gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'r gweithgaredd prosesu (e.e., y gyfraith gyffredin ynghylch cyfrinachedd) a nodi'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data. Yn ogystal â sicrhau bod y mesurau diogelwch a llywodraethu data priodol ar waith i brosesu data troseddau, mae'r angen i gael mynediad at eitemau data sensitif mewn perthynas â hil, crefydd, iechyd a chyfeiriadedd rhywiol yn ychwanegu lefel ychwanegol o gymhlethdod.

casglu data ychwanegol a defnyddio cysylltiadau data yn cefnogi gwerthusiad mwy trylwyr, yn enwedig o'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod.

6.8 Felly, rydym yn argymell model gwerthuso ar wahân ar gyfer pob Glasbrint. Yn ddelfrydol, byddai pob model yn ymgorffori llinynnau proses a chanlyniadau sy'n ceisio nodi effeithiau'r Glasbrintiau a'r mecanweithiau ar gyfer cyflawni'r effeithiau hyn drwy goladu a chyfuno mewnwelediad o ddata meintiol â'r hyn a geir o ymgysylltiad ansoddol â defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd, rhanddeiliaid, ac ymarferwyr.

6.9 Byddai llinyn y broses yn cydnabod bod gweithgareddau ac ymyriadau yn dibynnu ar y rhyngweithio rhyngddynt a'u cyd-destun. Byddai hefyd yn ystyried nodweddion defnyddwyr gwasanaeth a gweithgareddau ac ymyriadau eraill y gallent fod yn cymryd rhan ynddynt. Byddai'r llinyn canlyniadau yn nodi newidiadau mewn canlyniadau penodol i ddefnyddwyr gwasanaeth. Byddai cynnwys llinynnau proses a chanlyniadau yn cynyddu dealltwriaeth o sut y cyflawnir canlyniadau ac yn cyfrannu at wella'r gweithgareddau a'r ymyriadau a ddarperir o dan y Glasbrintiau.

6.10 Rydym hefyd wedi ystyried sawl opsiwn arall ar gyfer gwerthuso'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod, a nodir yn y tabl canlynol. Mae gan bob un o'r rhain fanteision ac anfanteision gwahanol, a goblygiadau o ran adnoddau. Opsiwn 6 yw'r model gwerthuso a argymhellir.

**Tabl 1: Modelau posibl o werthuso Glasbrint**

| Opsiwn | Disgrifiad | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|---|
| **Opsiwn 1** | Gwerthuso prosesau a chanlyniadau gan ddefnyddio ffynonellau data presennol yn unig (data lefel achos a setiau data) | Yr opsiwn rhataf a chyflymaf<br>Nid oes angen casglu / cyswllt data sylfaenol<br>Dim ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth sy'n defnyddio llawer o adnoddau | Byddai bylchau / anghysondebau o ran casglu data a materion yn ymwneud â rhannu data (fel yr amlinellir mewn man arall yn yr adran hon) yn galluogi gwerthusiad rhannol yn unig<br>Diffyg data ansoddol 'mwy meddal' gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar broses ac effaith |
| **Opsiwn 2** | Gwerthuso proses yn unig, gan ddefnyddio'r canlynol:<br>- Data lefel achos | Yn llai costus ac yn cymryd llai o amser na o gymharu â gwerthuso prosesau a chanlyniadau | Byddai angen mynediad at ddata lefel achos ac ymgysylltu sylweddol â |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | - Cyfweliadau a / neu grwpiau ffocws gyda merched / plant a phobl ifanc, teuluoedd, rhanddeiliaid, ac ymarferwyr | Byddai'n darparu data meintiol ac ansoddol ar fecanweithiau darparu a ffactorau cyd-destunol, a mewnwelediad i'r effeithiau ar ddefnyddwyr gwasanaeth | defnyddwyr gwasanaeth (goblygiadau adnoddau)<br><br>Diffyg data 'caled' a 'meddal' ar ganlyniadau i fenywod / plant a phobl ifanc |
| **Opsiwn 3** | Gwerthuso canlyniadau yn unig, gan ddefnyddio'r canlynol:<br>- Dadansoddiad o ffynonellau data presennol<br>- Cyfweliadau a / neu grwpiau ffocws gyda merched / plant a phobl ifanc, teuluoedd, rhanddeiliaid ac ymarferwyr | Yn llai costus ac yn cymryd llai o amser o gymharu â gwerthuso prosesau a chanlyniadau<br><br>Byddai'n darparu data meintiol ac ansoddol ar ganlyniadau i fenywod / plant a phobl ifanc<br><br>Nid oes angen casglu / cyswllt data ychwanegol | Diffyg data 'caled' a 'meddal' ar fecanweithiau cyflwyno a ffactorau cyd-destunol, a mewnwelediad i'r ffordd y mae ystod o gynulleidfaoedd yn derbyn y Glasbrintiau<br><br>Byddai bylchau / anghysondebau wrth gasglu data a materion yn ymwneud â rhannu data (fel yr amlinellir mewn man arall) yn arwain at werthusiad anghyflawn ar gyfer y canlyniadau<br><br>Byddai angen ymgysylltiad sylweddol â defnyddwyr gwasanaeth |
| **Opsiwn 4** | Gwerthuso prosesau a chanlyniadau (untro), gan ddefnyddio'r canlynol:<br>- Data lefel achos<br>- Dadansoddiad o ffynonellau data presennol<br>- Cyfweliadau a / neu grwpiau ffocws gyda menywod / plant a phobl ifanc, teuluoedd, rhanddeiliaid ac ymarferwyr | Gwerthusiad mwy cyflawn, gan gyflwyno data meintiol ac ansoddol ar brosesau a chanlyniadau i fenywod / plant a phobl ifanc<br><br>Nid oes angen casglu / cyswllt data ychwanegol | Yn fwy costus ac yn cymryd mwy o amser na'r prosesau unigol neu'r gwerthusiadau effaith<br><br>Byddai'n cynnig 'ciplun' yn hytrach na golwg hirdymor o lwyddiant neu fethiant<br><br>Byddai angen mynediad at ddata lefel achos<br><br>Byddai bylchau / anghysondebau wrth gasglu data a materion yn ymwneud â rhannu data (fel yr amlinellir mewn man arall) yn arwain at werthusiad anghyflawn ar gyfer y canlyniadau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Byddai angen ymgysylltiad sylweddol â defnyddwyr gwasanaeth |
| **Opsiwn 5** | Gwerthusiad llawn ar gyfer prosesau a chanlyniadau (untro), gan ddefnyddio'r canlynol:<br>- Data lefel achos<br>- Dadansoddi ffynonellau data presennol a chasglu data ychwanegol i fynd i'r afael â bylchau<br>- Cyfweliadau a / neu grwpiau ffocws gyda menywod / plant a phobl ifanc, eu teuluoedd, rhanddeiliaid ac ymarferwyr (ansoddol) | Gwerthusiad mwy cyflawn, gan ddarparu data meintiol ac ansoddol ar brosesau a chanlyniadau i fenywod / plant a phobl ifanc<br><br>Byddai'n mynd i'r afael â bylchau / anghysondebau wrth gasglu data (fel yr amlinellir mewn man arall) | Yn fwy costus ac yn cymryd mwy o amser<br><br>Byddai'n cynnig 'ciplun' yn hytrach na golwg hirdymor o lwyddiant neu fethiant<br><br>Byddai angen ymdrech i fynd i'r afael â bylchau / anghysondebau wrth gasglu data (fel yr amlinellir mewn man arall)<br><br>Byddai angen protocolau / cytundebau rhannu data ychwanegol er mwyn cysylltu data<br><br>Byddai angen mynediad at adolygiadau achos<br><br>Byddai angen ymgysylltiad sylweddol â defnyddwyr gwasanaeth |
| **Opsiwn 6 - ARGYMHELLWYD** | Gwerthusiad llawn ar gyfer prosesau a chanlyniadau (hydredol), gan ddefnyddio'r canlynol:<br>- Data lefel achos<br>- Dadansoddi ffynonellau data presennol a chasglu / cysylltu data ychwanegol i fynd i'r afael â bylchau<br>- Cyfweliadau a / neu grwpiau ffocws gyda menywod / plant a phobl ifanc, eu teuluoedd, rhanddeiliaid ac ymarferwyr (ansoddol) | Gwerthusiad mwyaf cyflawn, gan gyflwyno data meintiol ac ansoddol ar brosesau a chanlyniadau i fenywod / plant a phobl ifanc<br><br>Bydd canlyniadau'n cael eu mesur ar wahanol adegau, gan gynnig y gallu i feincnodi a rhoi trosolwg mwy hirdymor o lwyddiant neu fethiant<br><br>Byddai'n mynd i'r afael â bylchau / anghysondebau wrth gasglu data (fel yr amlinellir mewn man arall) | Yr opsiwn drutaf sy'n defnyddio llawer o adnoddau<br><br>Byddai angen ymdrech i fynd i'r afael â bylchau / anghysondebau wrth gasglu data (fel yr amlinellir mewn man arall)<br><br>Byddai angen protocolau / cytundebau rhannu data ychwanegol er mwyn cysylltu data<br><br>Byddai angen mynediad at ddata lefel achos |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Byddai angen ymgysylltiad sylweddol â defnyddwyr gwasanaeth<br><br>Byddai angen cymhelliad i gynnal yr ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth a lliniaru yn erbyn blinder ymchwil |

**Egwyddorion sylfaenol**

6.11 Mae rhai egwyddorion a ddylai fod yn sail i unrhyw werthusiad o'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod, y dylid eu dilyn o fewn unrhyw fodel gwerthuso a ddewisir. Maent fel a ganlyn, ac maent yn seiliedig ar yr ymarfer mapio ystadegol ac adborth gan gyfranogwyr ar gam 2 a 3 o'r AG hwn. Maent hefyd yn cyd-fynd ag egwyddorion y Llyfr Magenta, canllawiau Llywodraeth Ganolog ar werthuso (2020).

- Cyfuno dulliau ansoddol a meintiol i gael darlun llawn o ganlyniadau, gan gael adborth manwl gan blant a phobl ifanc, menywod, a'u teuluoedd. Gallai hyn gynnwys astudiaethau achos defnyddwyr gwasanaeth presennol, adroddiadau llif gwaith Glasbrint, ac adroddiadau Panel Cynghori Cyfiawnder Cymru (WJAP). Dylid archwilio cwynion ac achwyniadau hefyd, ynghyd ag ymatebion gwasanaethau iddynt. Lle bo'n berthnasol, mae casglu adborth gan ddioddefwyr trosedd am briodoldeb ac effeithiolrwydd gwaith gwneud yn iawn hefyd yn bwysig.
- Dylai mesurau canlyniadau adlewyrchu teithiau a chynnydd unigolion a dylent gynnwys cryfderau defnyddwyr gwasanaeth yn ogystal â'u gwendidau. Er enghraifft, gallai mynychu apwyntiad yn unig fod yn gyflawniad enfawr i un plentyn / unigolyn ifanc neu fenyw, ond i un arall, byddai’n gymharol fach.
- Mae sylfaenu ac olrhain cynnydd defnyddwyr gwasanaeth drwy'r elfennau amrywiol o flaenoriaethau'r Glasbrintiau yn hanfodol i ddeall graddau eu llwyddiant. Yn ddelfrydol, dylid datblygu fframwaith perfformiad a monitro amlasiantaethol cyn unrhyw werthusiad, sy'n amlinellu diffiniadau a nodau a rennir dros amser; yn denu cefnogaeth gref a chyfartal gan yr holl

asiantaethau perthnasol; nad yw'n dyblygu ymdrech rhwng asiantaethau; wedi cytuno ar lywodraethu a chydgysylltu ymlaen llaw, yn hytrach na chylch gorchwyl yn unig; ac yn cael archwiliadau ansawdd data.

- Dylai'r fframwaith perfformiad hefyd gael digon o adnoddau o ran gallu ddadansoddol; goruchwylio a llywodraethu; ac atebolrwydd am TG, diogelwch data, hawliau dynol, moeseg, a threfniadau mynediad. Mae cofnodi data cyson ar draws yr holl asiantaethau perthnasol hefyd yn hanfodol.
- Dylai'r gwerthusiad ddefnyddio dull croestoriadol i nodi a deall unrhyw wahaniaethau mewn canlyniadau ar gyfer yr unigolion hynny o'r grwpiau blaenoriaeth a'r rhai â nodweddion gwarchodedig. Dylai'r ystadegau troseddau ieuenctid a'r ystadegau cyffredinol ynghylch troseddau hefyd gael eu gwahanu er mwyn sicrhau y deellir graddfa troseddau ieuenctid. Er mwyn nodi nodweddion gwarchodedig ac aelodaeth grwpiau blaenoriaeth, dylai asiantaethau ofyn cwestiynau cyson mewn ffordd sensitif fel rhan o asesiad cyfannol. Gellir defnyddio'r Mynegai Cyfradd Cymharol i nodi lle mae pobl â nodweddion penodol a / neu aelodaeth o grŵp blaenoriaeth yn cael eu gorgynrychioli. Gellir defnyddio data Cyfrifiad 2021 (sydd ar gael o fis Mawrth 2023) hefyd i ddeall anghenion lleol.
- Dylai ymchwil a gwerthuso gael eu cynnwys yn y gwasanaethau, dulliau gweithredu ac ymyriadau o'r cam comisiynu. Dylid archwilio effeithiolrwydd ac addasrwydd mesurau canlyniadau presennol, megis y rhai mewn fframweithiau hunanasesu presennol, cyn creu rhai newydd.
- Dylai asiantaethau ddiffinio'n glir cyn y gwerthusiad beth sy’n cael ei ystyried yn 'llwyddiant' ar gyfer pob menter a weithredir fel rhan o'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod (e.e., darfyddiad neu leihau ymddygiadau, mynychu sesiynau neu ymgysylltu’n llawn â nhw).
- Dylid sefydlu’r holl gytundebau rhannu data a / neu femorandwm dealltwriaeth perthnasol cyn cynnal gwerthusiad, gan amlinellu’r trefniadau ar gyfer mecanwaith rhannu data, diogelwch data, a llinellau amser.

- Dylai'r gwerthusiad gael ei gefnogi’n weithredol gan y gweithlu cyfiawnder ieuenctid / troseddol, gan gynnwys asiantaethau partner. Er mwyn cyflawni hyn, dylai'r gweithlu deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a bod ganddynt yr amser, y sgiliau, yr hyfforddiant a'r profiad i'w galluogi i ddeall yr angen am werthusiad o ran gwella gwasanaethau a'i rôl. Dylai darparwyr gwasanaeth hefyd ddarparu data perthnasol a harneisio eu cydberthnasau â defnyddwyr gwasanaeth i'w cynnwys yn effeithiol ac yn ystyrlon mewn gwerthuso.
- Dylid datblygu 'pasbort' sy'n cynnwys gwybodaeth allweddol sy'n dilyn plant, pobl ifanc a menywod ar eu taith drwy'r system cyfiawnder ieuenctid / system cyfiawnder troseddol. Dylai'r pasbort gynnwys data perthnasol sy'n ymwneud ag anghenion ac amgylchiadau plant a phobl ifanc a menywod. Dylai fod yn fanwl gywir, a dylid ei ddiweddaru’n rheolaidd, yn enwedig ar adegau allweddol megis cyn mynd i’r ddalfa, cyn rhyddhau, ac ar wahanol adegau ar ôl rhyddhau. Byddai hyn yn helpu i safoni’r broses o gasglu data a byddai’n lleihau’r risg o aildrawmateiddio drwy ofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth ailadrodd gwybodaeth allweddol sawl gwaith.
- Dylai fod gan y Glasbrintiau strategaeth werthuso gydlynol sylfaenol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod canfyddiadau'r gwerthusiad yn llywio darpariaeth y Glasbrint yn barhaus a bod gwerthusiad yn cael ei flaenoriaethu yn unol â hynny.
- Dylai ymchwil a gwerthuso adeiladu ar ganfyddiadau monitro a gwerthuso presennol.
- Dylai'r gwerthusiad gael ei gynnal gan ymchwilwyr annibynnol â'r sgiliau priodol er mwyn sicrhau gwrthrychedd.
- Yn unol â Safonau’r Gymraeg a sefydlwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, dylai pawb sy’n cymryd rhan mewn gwerthusiad a ariennir yn gyhoeddus allu gwneud hynny yn Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
- Dylai'r gwerthusiad fod yn bragmatig a realistig ynghylch i ba raddau y gellir ynysu effeithiau'r Glasbrintiau oddi wrth weithgareddau eraill a allai fod yn

cyfrannu at newid; pa sefydliadau sydd â'r ysgogiadau ar gyfer newid; ac i ba raddau y gall newid ddigwydd mewn cyd-destun datganoledig.

**Model gwerthuso’r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid**

6.12 Rydym yn argymell gwerthusiad cymysg o ddulliau, prosesau a chanlyniadau'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid sy'n canolbwyntio ar hawliau plant ac sydd wedi'i lywio gan drawma. Byddai llinyn y broses yn archwilio sut mae mentrau a gweithgareddau wedi'u rhoi ar waith o dan y Glasbrint, a sut y maent wedi cyfrannu at ganlyniadau amrywiol i blant a phobl ifanc - a fyddai'n cael eu gwerthuso drwy linyn canlyniadau eu hunain.

6.13 O dan linyn y broses, gellid defnyddio dulliau ansoddol, megis cyfweliadau, grwpiau ffocws, ac astudiaethau achos i archwilio safbwyntiau a phrofiadau plant a phobl ifanc, eu teuluoedd, rhanddeiliaid, ac ymarferwyr. Byddai'r llinyn canlyniadau yn cyfuno data meintiol â data ansoddol pellach i asesu newidiadau mewn canlyniadau i blant a phobl ifanc.

6.14 Er enghraifft, gallai cyfweliadau a grwpiau ffocws archwilio sut a pham (os o gwbl) y mae amlder / difrifoldeb troseddu plant a phobl ifanc wedi newid o ganlyniad i fentrau / camau gweithredu a gyflwynwyd o dan y Glasbrint, o safbwynt plant a phobl ifanc, eu teuluoedd, rhanddeiliaid, ac ymarferwyr (llinyn y broses); a pha effaith / effeithiau y mae unrhyw newidiadau mewn amlder / difrifoldeb aildroseddu wedi'i chael ar y plant a'r bobl ifanc a'u teuluoedd (llinyn canlyniadau). Byddai data meintiol (Ystadegau Aildroseddu Profedig y Weinyddiaeth Gyfiawnder) wedyn yn dangos newidiadau gwirioneddol mewn amlder / difrifoldeb aildroseddu yn y garfan hon (llinyn canlyniadau).

6.15 Dylid cynnal cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda phlant a phobl ifanc ar wahanol adegau o'u taith drwy'r system cyfiawnder ieuenctid. Dylid gwahodd plant a phobl ifanc nad ydynt wedi cael mathau penodol o gymorth yn y gymuned hefyd i gymryd rhan yn y gwerthusiad er mwyn deall ei elfennau effeithiol a llai effeithiol.

6.16 Yn unol â hawliau plant a dull wedi’i lywio gan drawma, dylai plant a phobl ifanc sy’n cymryd rhan ar wahanol gamau o’r system cyfiawnder ieuenctid (e.e., atal, dargyfeirio cyn mynd i'r llys, y ddalfa ac ailsefydlu) gyd-gynhyrchu'r offerynnau

ymchwil a'r cwestiynau ar gyfer cyfweliadau / grwpiau ffocws dilynol. Gellid cyflawni hyn trwy gynnal grwpiau dylunio plant a phobl ifanc lle maent yn blaenoriaethu'r materion i'w trafod ac yn awgrymu cwestiynau priodol. Dylai grwpiau dylunio hefyd archwilio hoffterau plant a phobl ifanc o ran sut yr hoffent gymryd rhan mewn gwaith gwerthuso, gan gwmpasu agweddau fel (ond heb fod yn gyfyngedig i) fformat, lleoliad ac amseru. Dylid hefyd archwilio'r defnydd o ddulliau ymchwil amgen megis fideos / dyddiaduron fideo gyda'r plant a'r bobl ifanc.

6.17 Dylid defnyddio'r grwpiau dylunio hefyd i feithrin ymddiriedaeth a chydberthynas rhwng y plant a'r bobl ifanc a chyda'r ymchwilwyr sy'n arwain y gwerthusiad, ac i feithrin ymgysylltiad plant a phobl ifanc â'r gwerthusiad. Byddai ymgysylltu â gweithwyr cymorth dibynadwy i frocera cydberthnasau â phlant a phobl ifanc a chefnogi’r gwerthusiad hefyd yn allweddol i’w lwyddiant.

6.18 Dylid ystyried ymchwil a arweinir gan gymheiriaid ar gyfer rhai elfennau o'r gwerthusiad, lle mae plant a phobl ifanc â phrofiad byw yn arwain rhai cyfweliadau a grwpiau ffocws, er enghraifft. Byddai angen hyfforddiant cychwynnol a pharhaus trylwyr ar ymchwilwyr cymheiriaid, cefnogaeth (gan ymchwilwyr annibynnol a gweithwyr cymorth dibynadwy) a thaliadau cydnabyddiaeth a chydnabyddiaeth briodol.

6.19 Yn ddelfrydol, dylai'r gwerthusiad fod yn hydredol. Dylai hyn gynnwys olrhain canlyniadau plant a phobl ifanc dros gyfnodau penodol o amser ac (yn ddelfrydol) cynnwys yr un plant a phobl ifanc mewn ymchwil ansoddol ar adegau gwahanol, megis ar ddechrau ac ar ddiwedd eu hymgysylltiad â chymorth yn y gymuned, ac ar ôl cyfnod o fyfyrio. Byddai angen cymhellion priodol i sicrhau ymgysylltiad parhaus. Os bydd adnoddau ac amser yn gyfyngedig, gellid cynnal gwerthusiad 'ciplun' untro, ond byddai ei ganfyddiadau'n llai craff. Gellid cwblhau gwerthusiad untro o’r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid ymhen tua chwe mis, ar yr amod yr eir i’r afael â’r holl egwyddorion a nodwyd yn gynharach yn yr isadran hon cyn comisiynu.

6.20 Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, mae data am y rhai sydd o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yn cael ei gasglu’n systematig fel rhan o’r Fframwaith Cymhwyso Cyfiawnder Ieuenctid gyda rhywfaint o’r wybodaeth allweddol yn cael ei choladu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Bwrdd Cyfiawnder

Ieuenctid Cymru. Cedwir gwybodaeth bellach gan y timau priodol a ddefnyddir yn aml i fonitro perfformiad yn lleol. Fodd bynnag, mae trefniadau llywodraethu yn golygu nad yw llawer o hyn ar gael i ymchwilwyr. Yn ogystal, lle mae data cyhoeddedig sydd wedi'i gydgrynhoi ar gael, mae'r niferoedd cymharol isel sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol yn golygu nad yw'n bosibl llunio'r math o ddarlun croestoriadol o ymddygiadau a chanlyniadau sydd ei angen er mwyn gosod llinell sylfaen a gwerthuso'r dyheadau a nodir yn y Glasbrint.

6.21 O ystyried bod data ar lefel unigol yn bodoli, mae hyn yn cynnig nifer o gyfleoedd yn dibynnu ar gyllideb ac amserlenni. Y cyntaf o'r rhain yw neilltuo adnoddau o fewn Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru i gynnal ymarfer systematig sylfaenol a sefydlu'r mecanwaith i alluogi i dueddiadau gael eu monitro dros amser gan ganolbwyntio'n benodol ar nodi gwahaniaethau posibl ac amrywiadau lleol. Yr ail yw cynnal trafodaeth â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i greu adnodd penodol i gynnal yr ymarfer hwn. Pe bai'r naill neu'r llall o'r opsiynau hyn yn cael eu dilyn, byddai angen darparu goruchwyliaeth a chydlyniad priodol i sicrhau bod Timau Troseddau Ieuenctid lleol a'r rheini mewn sefydliadau diogel yn rhannu'r holl wybodaeth angenrheidiol mewn modd amserol a chyson. O'r ddau opsiwn hyn, yr argymhelliad yw mai creu adnoddau pwrpasol o fewn y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddadansoddi data Cymraeg fydd yn rhoi'r cyfleoedd mwyaf gan y byddai hyn yn ategu'r ymrwymiad presennol i Safonau'r Gymraeg ac yn galluogi mynediad at ddata ar draws y system cyfiawnder troseddol ehangach gan gynnwys y llysoedd. O dan yr opsiwn hwn, byddai lle i Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a / neu Lywodraeth Cymru oruchwylio a herio perfformiad. Mae'r unig gostau sy'n gysylltiedig â'r ddau opsiwn hyn yn ymwneud â chostau recriwtio, cyflog a hyfforddiant.

6.22 Mae'r trydydd opsiwn yn dibynnu ar amseriad darparu'r data cyfiawnder troseddol o fewn y gronfa ddata'r Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw fel rhan o raglen Data yn Gyntaf y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Er nad oes cynlluniau ar hyn o bryd i sicrhau bod data'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid ar gael fel rhan o'r rhaglen hon, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi sicrhau bod data llys ynadon, llys y goron a'r llys teulu ar gael ynghyd â data carchardai a'r gwasanaeth prawf. Ac eithrio data'r gwasanaeth prawf, mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am rai o dan 18 oed. Unwaith y byddant wedi'u darparu yng nghronfa ddata'r Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw,

bydd yn bosibl cysylltu’r setiau data hyn â data addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd i ddysgu mwy am anghenion ac amgylchiadau’r rhai sydd wedi dod i gysylltiad â’r system cyfiawnder ieuenctid / system cyfiawnder troseddol gan ddefnyddio maes cyswllt dienw. Mae lle i ddata allanol gael eu cynnwys yng nghronfa ddata'r Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw at ddibenion ymchwil. Mae hyn yn rhoi’r cyfle i olrhain y rheini sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgarwch atal a dargyfeirio - dau fwlch sylweddol yn y sylfaen dystiolaeth bresennol.

6.23 Er bod y cyfoeth o ddata a fydd yng nghronfa ddata'r Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw yn gyfle sylweddol i wella’r sylfaen dystiolaeth, ni fydd ei lawn botensial yn cael ei gydnabod os nad oes y gallu dadansoddol i wneud y gwaith hwn. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yna wyddonwyr data medrus sy'n meddu ar ddealltwriaeth ddigonol o'r system cyfiawnder ieuenctid a'i gysylltiadau â meysydd polisi eraill.

6.24 Mae’n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â’r Weinyddiaeth Gyfiawnder am ystyried ariannu Cymrodoriaethau tebyg i’r rhai a gynigir gan Ymchwil Data Gweinyddol y DU i annog y defnydd o ddata'r prosiect, Data yn Gyntaf unwaith yng nghronfa ddata'r Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw i annog y defnydd ohono gan ymchwilwyr er mwyn mynd i’r afael â materion ymchwil allweddol sy’n gysylltiedig â’r sylfaen dystiolaeth o amgylch Cyfiawnder Ieuenctid Cymru. Gall ymchwilwyr wneud cais am grant cymrodoriaeth am 12 mis o hyd, hyd at uchafswm o £130,000 y flwyddyn ar 100% o gost economaidd lawn. Bydd Ymchwil Data Gweinyddol y DU yn ariannu 80% o gostau economaidd llawn yn amodol ar Bolisi cyllido'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. Y llwybr amgen ar gyfer darparu cyllid ar gyfer ymchwil annibynnol yw Menter Dadansoddi Data Eilaidd y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. Mae hyn yn galluogi timau o ymchwilwyr i wneud cais am uchafswm o £300,000 ar gyfer prosiectau dwy flynedd ar 100% o gost economaidd lawn.

6.25 Mae'r tri opsiwn yn dibynnu ar sicrhau bod data ar gael ar gyfer gwerthuso ac ymchwilio. Ar hyn o bryd, dim ond dau o Dimau Troseddwyr Ifanc Cymru sydd wedi ymrwymo i Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Fodd bynnag, mae pob un o’r pedwar heddlu yng Nghymru a Swyddfeydd Comisiynwyr yr

Heddlu a Throseddu wedi llofnodi ynghyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a'r Gwasanaeth Rheoli Integredig Troseddwyr.

6.26 Mae angen cytuno ar ddiffiniadau cyffredin ar gyfer monitro perfformiad. Fel yr amlygwyd yn adroddiad Cam 1, mae diffiniad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid o bobl sy'n dechrau yn y system am y tro cyntaf yn gallu achosi problemau niferus yng nghyd-destun atal a dargyfeirio gan ei fod yn seiliedig ar droseddu profedig. Argymhellir felly y dylid cytuno ar fetrig newydd sy'n adlewyrchu'r cyswllt cyntaf â'r system. Dylai'r dull a ddefnyddir adlewyrchu'r hyn a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu Hysbysiadau Dulliau Dadansoddol o fewn GIG Cymru. Fel rhan o'r ymarfer hwn, dylid hefyd ystyried priodoldeb y Dangosyddion Cyfiawnder Ieuenctid Cymru presennol, gan gymryd camau i gysoni'r rhain â mesurau presennol a ddefnyddir gan iechyd y cyhoedd. Yn nodedig, yn unol â dyheadau plentyn yn gyntaf y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid, dylid ystyried ehangu'r ystod o fetrigau y tu hwnt i iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a llety, er enghraifft i gynnwys atgyfeiriadau ac amserau aros am driniaeth ar gyfer therapyddion lleferydd a gwasanaethau cymorth arbenigol eraill.

6.27 Mae Tabl 2 yn nodi'r mesurau canlyniadau a awgrymwyd gan randdeiliaid yn erbyn pob un o flaenoriaethau'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'n nodi a yw'r mesurau canlyniadau yn ymwneud â'r broses a / neu linynnau canlyniad y gwerthusiad ac yn rhestru ffynonellau data y gellid eu defnyddio mewn gwerthusiad. Mae'r holl ffynonellau data a restrir ar gael ar hyn o bryd, er ein bod wedi nodi y gellir ychwanegu at y ffynonellau data hyn drwy gysylltiad data neu eu disodli gan ddata mwy craff yn y dyfodol. Byddai ychwanegu at y data presennol yn golygu goblygiadau adnoddau ychwanegol.

6.28 Mae'r mesurau canlyniadau yn cynnwys cymysgedd o fetrigau meintiol ac ansoddol. Oherwydd eu natur, mae'r canlyniadau 'meddalach' yn oddrychol ac yn anoddach eu mesur. Fodd bynnag, mae cymhlethdod y trefniadau llywodraethu data presennol a'r angen i safoni'r ffordd y mae data arferol yn cael ei gasglu gan wahanol sefydliadau hefyd yn effeithio ar ba mor hawdd y gellir monitro canlyniadau 'caletach'. Felly mae Tabl 2 hefyd yn cynnwys syniad o ddichonoldeb mesur y mesurau canlyniadau arfaethedig – ar raddfa dri phwynt lle mae 1 yn anodd a 3 yn

hawdd, yn ogystal ag ymdeimlad o ba mor uchel yw'r flaenoriaeth y dylid ei chynnwys mewn gwerthusiad (Uchel-Canolig-Isel).

**Tabl 2: Mesurau canlyniadau ar gyfer gwerthuso'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid**

| Blaenoriaeth | | Dichonoldeb | |
|---|---|---|---|
| U | Uchel | 3 | Hawdd i'w gyflawni – mae mecanweithiau ar gyfer gwerthuso hyn ar waith |
| C | Canolig | 2 | |
| I | Isel | 1 | Anodd eu gwerthuso - mae metrigau yn oddrychol a / neu mae'r costau dan sylw yn uchel |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid | | | | | Llinyn gwerthus o proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal | Dargyfeirio cyn mynd i'r llys | Cymuned | Y ddalfa | Ailsefydlu a phontio | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth: | Uchel (U) ⟷ Isel (I) | | | | | | | | |
| Dichonoldeb: | Hawdd (3) ⟷ Anodd (1)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* … *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / gostus)* | | | | | | | | |
| **Aildroseddu – nod statudol y system cyfiawnder ieuenctid:** | | | | | | | | | |
| - Lleihau amlder / difrifoldeb y troseddu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | U3 | P/C: Cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc; ymarferwyr; teulu<br>C: Ystadegau Aildroseddu Profedig (y Weinyddiaeth Gyfiawnder); Pecyn Cymorth Aildroseddu (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid)<br>*Gellid defnyddio cysylltu data i wella dealltwriaeth o wasanaethau atal a dargyfeirio, trwy olrhain aildroseddu defnyddwyr |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid: Atal | Dargyfeirio cyn mynd i'r llys | Cymuned | Y ddalfa | Ailsefydlu a phontio | Llinyn gwerthus o proses / canlyniad: Proses | Canlyniad | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth:<br>Dichonoldeb: | Uchel (U) ⟷ Isel (I)<br>Hawdd (3) ⟷ Anodd (1)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* ... *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / gostus)* | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | gwasanaeth dros amser gan ddefnyddio data gweinyddol |
| - Datrysiadau gwahanol | | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | U2 | P/C: Cyfweliadau gyda'r heddlu; Timau Troseddwyr Ifanc<br>C: Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid 2020-21 (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid); Pecyn Cymorth Aildroseddu (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid); Ystadegau Llys Troseddol |
| - Nodweddion gwarchodedig a grwpiau blaenoriaeth | | ✓ | | | | | ✓ | U2 | C: Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid 2020-21 (dim ond data ynghylch hil sydd ar gael ar hyn o bryd)<br>*Byddai cysylltu Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), data gwasanaethau cymdeithasol a llysoedd teulu, data iechyd a'r Fframwaith Cymhwyso Cyfiawnder Ieuenctid / y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynyddu mewnwelediad |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid | | | | | Llinyn gwerthus o proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal | Dargyfeirio cyn mynd i'r llys | Cymuned | Y ddalfa | Ailsefydlu a phontio | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth: | Uchel (U) ⟵⟶ Isel (I) | | | | | | | | |
| Dichonoldeb: | Hawdd (3) ⟵⟶ Anodd (1)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* … *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / gostus)* | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | *Byddai cysylltu data aildroseddu â mesurau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cynyddu mewnwelediad<br>* Bydd defnyddio cyfrifiad 2021 (ar gael o 2023) yn galluogi asesiad mwy cywir o dan-gynrychiolaeth / gor-gynrychiolaeth i gael ei bennu mewn gwahanol ddaearyddiaeth, gan ddefnyddio dull croestoriadol |
| **Hyd / math o ddedfryd:** | | | | | | | | | |
| - Patrymau hyd / math dedfryd | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | U2 | P/C: Cyfweliadau / grwpiau ffocws gyda'r farnwriaeth<br>C: Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid 2020-21; Asesu Anghenion Plant a Ddedfrydwyd yn y System Cyfiawnder Ieuenctid (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid; Adroddiad Ieuenctid yn y Ddalfa<br>C: Ffigurau cwblhau hyfforddiant staff (gan y sefydliad) |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid | | | | | Llinyn gwerthus o proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal | Dargyfeirio cyn mynd i'r llys | Cymuned | Y ddalfa | Ailsefydlu a phontio | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth:<br><br>Dichonoldeb: | Uchel (U)<br>Hawdd (3)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* | | | ⟵⟶<br>⟵⟶ | | | | | Isel (I)<br>Anodd (1)<br>*(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / gostus)* |
| - Mynediad ac ail-fynediad at y ddalfa | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | C2 | P/C: Cyfweliadau / grwpiau ffocws gyda rhanddeiliaid; Y farnwriaeth<br>C: Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid 2020-21; Adroddiad Ieuenctid yn y Ddalfa; Pecyn Cymorth Aildroseddu (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid); Ystadegau Llys Troseddol |
| - Defnydd o'r ddalfa | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | C2 | P/C: Cyfweliadau / grwpiau ffocws gyda rhanddeiliaid; Y farnwriaeth<br>C: Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid 2020-21; Adroddiad Ieuenctid yn y Ddalfa; Pecyn Cymorth Aildroseddu (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid); Ystadegau Llys Troseddol |
| **Monitro niferoedd a nodweddion o'r canlynol:** | | | | | | | | | |
| - Stopio a chwilio | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | C2 | P/C: Cyfweliadau gyda'r heddlu; Timau Troseddwyr Ifanc<br>C: Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid 2020-21 (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid) |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid | | | | | Llinyn gwerthus o proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal | Dargyfeirio cyn mynd i'r llys | Cymuned | Y ddalfa | Ailsefydlu a phontio | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth:<br>Dichonoldeb: | Uchel (U) ⟷ Isel (I)<br>Hawdd (3) ⟷ Anodd (1)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* … *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / gostus)* | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | * Mwy o rannu data rhwng yr heddlu / Swyddfa Gartref a phartneriaid i gynnwys dadansoddiad yn ôl oedran a rhywedd yn ogystal â hil |
| - Arestiadau | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ | U2 | P/C: Cyfweliadau gyda'r heddlu; Timau Troseddwyr Ifanc<br>C: Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid 2020-21<br>* Mwy o rannu data rhwng yr heddlu / Swyddfa Gartref. |
| - Pobl sy'n dechrau yn y system am y tro cyntaf / Pobl sy'n ad-droseddwyr | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | U1 | P/C: Cyfweliadau gyda'r heddlu; Timau Troseddwyr Ifanc<br>C: Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid 2020-21<br>*Dylid ystyried metrig arall i gasglu'r cyswllt cyntaf â'r system cyfiawnder ieuenctid, gan ddefnyddio'r dull a ddefnyddiwyd yn Hysbysiadau Dulliau Dadansoddi Iechyd y Cyhoedd |
| - Dargyfeirio yn erbyn dedfrydu (gan gynnwys ar | | ✓ | | | | ✓ | ✓ | C1 | P/C: Cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc; |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid | | | | | Llinyn gwerthus o proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal | Dargyfeirio cyn mynd i'r llys | Cymuned | Y ddalfa | Ailsefydlu a phontio | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth:<br>Dichonoldeb: | Uchel (U)<br>Hawdd (3)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* | | | | ↔ | | | | Isel (I)<br>Anodd (1)<br>*(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / gostus)* |
| gyfer plant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig) | | | | | | | | | teuluoedd; Timau Troseddwyr Ifanc; Y farnwriaeth<br>P/C: Data lefel gwasanaeth (ar gyfer rhaglenni dargyfeirio)<br>P: Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid 2020-21; Asesu Anghenion Plant a Ddedfrydwyd yn y System Cyfiawnder Ieuenctid; Adroddiad Ieuenctid yn y Ddalfa; Ystadegau Llys Troseddol<br>*Fel y nodwyd, gellid defnyddio cysylltu data i wella dealltwriaeth o wasanaethau atal a dargyfeirio, trwy olrhain aildroseddu defnyddwyr gwasanaeth dros amser gan ddefnyddio data gweinyddol |
| - Datrysiadau y tu allan i'r llys | | ✓ | | | | ✓ | ✓ | U2 | P/C: Cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc; teuluoedd; yr heddlu; Timau Troseddwyr Ifanc<br>C: Ystadegau Cyfiawnder Troseddol |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid | | | | | Llinyn gwerthus o proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal | Dargyfeirio cyn mynd i'r llys | Cymuned | Y ddalfa | Ailsefydlu a phontio | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth:<br><br>Dichonoldeb: | Uchel (U)<br>Hawdd (3)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* | ←→ | | | | | | | Isel (I)<br>Anodd (1)<br>*(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / gostus)* |
| - Torri amodau / Galw'n ôl | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | I2 | P/C: Cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc; teuluoedd; yr heddlu; Timau Troseddwyr Ifanc<br>C: Adroddiad Blynyddol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (ar gyfer y rhai sy'n cael eu rheoli gan y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd); Ystadegau Llys Troseddol<br>* Bydd dadansoddiad o'r data lefel llys sydd ar gael trwy Data yn Gyntaf yn rhoi mewnwelediad ychwanegol am achosion o dorri amodau a'u cysylltiadau o ran bod yn agored i niwed a dedfrydau o garchar. |
| - Lleoliad (Cymru o gymharu â Lloegr) | | | | ✓ | | ✓ | ✓ | I3 | P/C: Cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc; teuluoedd<br>C: Adroddiad Ieuenctid yn y Ddalfa |
| - Angen ailsefydlu | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | I2 | P/C: Cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc; teuluoedd; staff |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid | | | | | Llinyn gwerthus o proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal | Dargyfeirio cyn mynd i'r llys | Cymuned | Y ddalfa | Ailsefydlu a phontio | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth: | Uchel (U) ⟷ Isel (I) | | | | | | | | |
| Dichonoldeb: | Hawdd (3) ⟷ Anodd (1)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* … *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / gostus)* | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | sefydliadau diogel; Timau Troseddwyr Ifanc<br>C: Adroddiad Ieuenctid yn y Ddalfa; Asesu Anghenion Plant a Ddedfrydwyd yn y System Cyfiawnder Ieuenctid |
| **Canlyniadau eraill:** | | | | | | | | | |
| Llai o atgyfeiriadau diogelu gan yr heddlu | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | 2 | P/C: Cyfweliadau gyda'r heddlu<br>C: Data atgyfeirio'r heddlu |
| Ymgysylltu â gwasanaethau / ymyriadau penodol (addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, mynychu gwiriadau iechyd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | CU 2 | P/C: Cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc; ymarferwyr; teulu.<br>P/C: Data lefel gwasanaeth<br>C: Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru 4 (ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth); Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru 5 (mynediad at lety addas); Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru 6 (mynediad at wasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol); Dangosydd Cyfiawnder |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid | | | | | Llinyn gwerthus o proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal | Dargyfeirio cyn mynd i'r llys | Cymuned | Y ddalfa | Ailsefydlu a phontio | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth:<br>Dichonoldeb: | Uchel (U)<br>Hawdd (3)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* | | | | | | | | Isel (I)<br>Anodd (1)<br>*(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / gostus)* |
| | | | | | | | | | Ieuenctid Cymru 7 (mynediad at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol)<br>*Gellid datblygu mesurau cyfatebol i ddata'r Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru i fesur mynediad at wasanaethau / ymyriadau eraill<br>*Mesurau dirprwy, e.e., gellid defnyddio presenoldeb ysgol hefyd i asesu ymgysylltiad â'r ysgol.<br>*Mesurau dilys eraill, e.e., yr Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ), SWEMWBS (Graddfa Llesiant Meddwl Fer Warwig-Caeredin), Y CGAS (Graddfa Asesu Byd-eang Plant), graddfa deg pwynt Cynllun Gofal a Chymorth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a gellid hefyd defnyddio'r CHI-ESQ (Holiadur Profiad Plant o |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid | | | | | Llinyn gwerthus o proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal | Dargyfeirio cyn mynd i'r llys | Cymuned | Y ddalfa | Ailsefydlu a phontio | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth:<br><br>Dichonoldeb: | Uchel (U) ⟷ Isel (I)<br>Hawdd (3) ⟷ Anodd (1)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* — *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / gostus)* | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | Wasanaeth) i fesur gwelliannau i lesiant plant *Fel y nodwyd, gellid defnyddio cysylltu data i wella dealltwriaeth o wasanaethau atal a dargyfeirio, trwy olrhain defnyddwyr gwasanaeth dros amser gan ddefnyddio data gweinyddol |
| Mwy o ymgysylltu gwirfoddol â'r Tîm Troseddwyr Ifanc | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | 3/2 | P/C: Cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc; teuluoedd; Timau Troseddwyr Ifanc<br>C: Data'r Tîm Troseddwyr Ifanc (AssetPlus; Data lefel achos) |
| Defnyddio ymyriadau / ffurfiau ymarfer penodol (y system ECM, asesiadau seicolegol, trawma / ymarfer sy'n seiliedig ar wybodaeth glinigol) | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 3/2 | P/C: Cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc; teuluoedd; Timau Troseddwyr Ifanc; staff gwasanaeth / cymorth<br>C: Data'r Tîm Troseddwyr Ifanc (AssetPlus); Data lefel achos); adroddiadau seicolegol (e.e., Adroddiadau llunio / adolygu achosion y system ECM) |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid | | | | | Llinyn gwerthus o proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal | Dargyfeirio cyn mynd i'r llys | Cymuned | Y ddalfa | Ailsefydlu a phontio | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth: | Uchel (U) | | | | | | | | Isel (I) |
| | Hawdd (3) | | | | | | | | Anodd (1) |
| Dichonoldeb: | *(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* | | | | | | | | *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / gostus)* |
| Llai o ddefnydd o gyffuriau ac alcohol | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | CU 3/2 | P/C: Cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc; teuluoedd; staff gwasanaeth / cymorth; Timau Troseddwyr Ifanc C: Data'r Tîm Troseddwyr Ifanc (AssetPlus); Crynodeb Blynyddol y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi; data lefel gwasanaeth; Set Ddata Camddefnyddio Sylweddau (SMDS). *Mae gan y broses o gysylltu data gan gynnwys y Set Ddata Camddefnyddio Sylweddau (SMDS) y potensial i wella dealltwriaeth o effeithiolrwydd triniaeth a'i heffaith ar ymddygiad troseddol |
| Llai o risg a bod yn agored i gam-fanteisio | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | CU 3/2 | P/C: Cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc; teuluoedd; staff gwasanaeth / cymorth; Timau Troseddwyr Ifanc C: Asesu Anghenion Plant sy'n cael eu Dedfrydu; |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid | | | | | Llinyn gwerthus o proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal | Dargyfeirio cyn mynd i'r llys | Cymuned | Y ddalfa | Ailsefydlu a phontio | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth:<br><br>Dichonoldeb: | Uchel (U) ⟵⟶ Isel (I)<br>Hawdd (3) ⟵⟶ Anodd (1)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* … *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / gostus)* | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | Data'r Tîm Troseddwyr Ifanc (AssetPlus) |
| Llai o drais yn amgylchedd y cartref | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | 1 | P/C: Cyfweliadau â phlant a phobl ifanc; teuluoedd; staff gwasanaeth / cymorth; Timau Troseddwyr Ifanc<br>C: Data Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru (yn ymwneud â'r sawl sy'n cyflawni trais domestig) |
| Gwell iechyd meddwl a chorfforol (gan gynnwys materion lleferydd ac iaith) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 3-2 | P/C: Cyfweliadau â phlant a phobl ifanc; teuluoedd; staff gwasanaeth / cymorth; Timau Troseddwyr Ifanc<br>C: Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru 7 (mynediad at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol); Data'r Tîm Troseddwyr Ifanc (AssetPlus).<br>*Gellid datblygu mesurau cyfatebol i ddata'r Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru i fesur mynediad at wasanaethau / ymyriadau eraill. Fodd bynnag, mae angen |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid: Atal | Dargyfeirio cyn mynd i'r llys | Cymuned | Y ddalfa | Ailsefydlu a phontio | Llinyn gwerthus o proses / canlyniad: Proses | Canlyniad | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth:<br>Dichonoldeb: | Uchel (U)<br>Hawdd (3)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* | | | | ⟷ | ⟷ | | | Isel (I)<br>Anodd (1)<br>*(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / gostus)* |
| | | | | | | | | | alinio'r rhain â metrigau iechyd cyhoeddus presennol |
| Mynediad amserol at wasanaethau | ✓ | | ✓ | | | ✓ | ✓ | 3-2 | P/C: Cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc; teuluoedd; staff gwasanaeth / cymorth.<br>C: Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru 6 (mynediad at wasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol); Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru 7 (mynediad at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol); Mesurau Cyflawni GIG Cymru (amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth) a'r Fframwaith Cyflawni; data lefel gwasanaeth (e.e. cwynion ac achwyniadau) *Gellid datblygu mesurau cyfatebol i ddata'r Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru i fesur mynediad at wasanaethau / ymyriadau eraill |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid | | | | | Llinyn gwerthus o proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal | Dargyfeirio cyn mynd i'r llys | Cymuned | Y ddalfa | Ailsefydlu a phontio | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth:<br>Dichonoldeb: | Uchel (U) ⟷ Isel (I)<br>Hawdd (3) ⟷ Anodd (1)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* ... *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / gostus)* | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | *Gallai cynnwys mesurau amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth helpu i bennu'r cyflenwad yn erbyn y galw am wasanaethau. |
| Galw am wasanaethau dros amser | | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | 2 | P/C: Cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc; teuluoedd; staff gwasanaeth / cymorth.<br>C: Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru 6 (mynediad at wasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol); Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru 7 (mynediad at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol).<br>*Gellid datblygu mesurau cyfatebol i ddata'r Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru i fesur mynediad at wasanaethau / ymyriadau eraill<br>*Gallai cynnwys mesurau amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth helpu i bennu'r |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid | | | | | Llinyn gwerthus o proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal | Dargyfeirio cyn mynd i'r llys | Cymuned | Y ddalfa | Ailsefydlu a phontio | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth:<br><br>Dichonoldeb: | Uchel (U) ⟷ Isel (I)<br>Hawdd (3) ⟷ Anodd (1)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* … *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / gostus)* | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | cyflenwad yn erbyn y galw am wasanaethau. |
| Cymhlethdod yr angen ar ôl dychwelyd i'r system cyfiawnder ieuenctid | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | 1-2 | P/C: Cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc; teuluoedd; staff gwasanaeth / cymorth; Timau Troseddwyr Ifanc<br>C: Data'r Tîm Troseddwyr Ifanc (AssetPlus); data lefel gwasanaeth<br>*Byddai cysylltu Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), data gwasanaethau cymdeithasol a llysoedd teulu, data iechyd a'r Fframwaith Cymhwyso Cyfiawnder Ieuenctid / y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynyddu mewnwelediad |
| Cwblhau ymyriadau | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | 3-2 | P/C: Cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc; staff gwasanaeth / cymorth; Timau Troseddwyr Ifanc<br>C: Data'r Tîm Troseddwyr Ifanc (AssetPlus); data lefel gwasanaeth |
| Llety (argaeledd, addasrwydd, amseroedd | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 3-2 | P/C: Cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc; staff |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid | | | | | Llinyn gwerthus o proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal | Dargyfeirio cyn mynd i'r llys | Cymuned | Y ddalfa | Ailsefydlu a phontio | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth: | Uchel (U) ⟵⟶ Isel (I) | | | | | | | | |
| Dichonoldeb: | Hawdd (3) ⟵⟶ Anodd (1) *(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* … *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / gostus)* | | | | | | | | |
| aros, hyd denantiaeth / lleoliad, pellter o'r cartref) | | | | | | | | | gwasanaeth / cymorth; Timau Troseddwyr Ifanc C: Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru 5 (mynediad at lety addas) |
| Gwariant / arbedion / effaith economaidd | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | 1-2 | P/C: Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid ar lefel strategol C: data lefel gwasanaeth ar wariant; data ar gostau mathau o droseddau (Y Swyddfa Gartref), carchardai (y Weinyddiaeth Gyfiawnder), ac erlyniad (Gwasanaeth Erlyn y Goron) |
| Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar argaeledd, hygyrchedd ac effeithiolrwydd gwasanaethau | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ | 3-2 | P/C: Cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc C: Data lefel gwasanaeth (gan gynnwys arolygon / cyfweliadau gadael, cwynion / achwyniadau) |
| Adborth gan deuluoedd defnyddwyr gwasanaeth ar effeithiolrwydd y gefnogaeth a dderbyniwyd ganddynt | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 1-2 | P/C: Cyfweliadau gyda theuluoedd C: Data lefel gwasanaeth (gan gynnwys arolygon / cyfweliadau gadael, cwynion / achwyniadau) |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid | | | | | Llinyn gwerthus o proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal | Dargyfeirio cyn mynd i'r llys | Cymuned | Y ddalfa | Ailsefydlu a phontio | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth:<br>Dichonoldeb: | Uchel (U) ⟵⟶ Isel (I)<br>Hawdd (3) ⟵⟶ Anodd (1)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* … *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / gostus)* | | | | | | | | |
| Canlyniadau meddalach sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (cydberthnasau teuluol a chyfoedion [a'r rhai gyda phartneriaid yn y dyfodol]; cydberthnasau â staff y ddalfa; mynegiant emosiynol; hapusrwydd; gwneud penderfyniadau a synnwyr o asiantaeth; hunan-barch; teimlo bod rhywun yn gwrando arno ac yn ei ddeall; agweddau a chredoau cymdeithasol-fuddiol; dyheadau; llesiant; cyfathrebu; gwytnwch) | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | 1-2 | P/C: Cyfweliadau gyda phlant a phobl ifanc; teuluoedd; staff gwasanaeth / cymorth; Timau Troseddwyr Ifanc Data lefel gwasanaeth (gan gynnwys arolygon / cyfweliadau gadael, cwynion / achwyniadau); Data'r Tîm Troseddwyr Ifanc (AssetPlus) |
| Canlyniadau meddalach sy'n canolbwyntio ar y gymuned (diogelwch cymunedol, cydlyniad, canfyddiadau, boddhad) | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | 1 | P/C: Cyfweliadau gyda defnyddwyr gwasanaeth; teuluoedd; cymdogion / preswylwyr cymunedau; staff gwasanaeth / cymorth |

**Model gwerthuso'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod**

6.29 Rydym yn argymell gwerthusiad cymysg o ddulliau, prosesau a chanlyniadau'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod sy'n rhoi menywod yn gyntaf ac sydd wedi'i lywio gan drawma. Byddai dull y gwerthusiad yn debyg iawn i'r hyn a gynigir ar gyfer y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid. Byddai llinyn y broses yn defnyddio

cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda menywod, eu teuluoedd, rhanddeiliaid, ac ymarferwyr i archwilio sut mae mentrau a gweithgareddau wedi cael eu rhoi ar waith, a sut maent wedi arwain at ganlyniadau amrywiol i fenywod. Byddai'r llinyn canlyniadau yn cyfuno data meintiol â data ansoddol pellach i asesu newidiadau mewn canlyniadau i fenywod.

6.30 Yn yr un modd â phlant a phobl ifanc, dylid cynnal cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda menywod ar wahanol gamau o'u taith drwy'r system cyfiawnder troseddol. Dylai menywod sydd heb dderbyn mathau penodol o gymorth yn y gymuned hefyd gymryd rhan yn y gwerthusiad i ddeall ei elfennau effeithiol a llai effeithiol.

6.31 Mae dull cydgynhyrchiol o ddatblygu offerynnau ymchwil a chwestiynau cyfweliad / grŵp ffocws priodol hefyd yn cael ei argymell ar gyfer gwerthuso'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod, gan adlewyrchu dull gweithredu wedi'i lywio gan drawma ac yn rhoi menywod yn gyntaf. I'r perwyl hwn, byddai menywod ar wahanol gamau o'u taith drwy'r system cyfiawnder troseddol yn mynychu grwpiau dylunio lle maent yn llywio'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer trafodaeth, dylunio offerynnau ymchwil (gan gynnwys cwestiynau), a dulliau ymgysylltu. Dylid hefyd archwilio'r defnydd o ddulliau ysgrifenedig megis dyddiaduron a ffurflenni adborth gyda menywod mewn grwpiau dylunio cyn cynnal gwerthusiad, ond dylai'r dulliau hyn (os cânt eu defnyddio) ategu yn hytrach na disodli cyfweliadau a / neu grwpiau ffocws er mwyn sicrhau bod digon o fewnwelediad i ddata ansoddol yn cael ei sicrhau.

6.32 Unwaith eto, yn yr un modd â'r Glasbrint Cyfiawnder ar gyfer Ieuenctid, dylid ystyried ymchwil a arweinir gan gymheiriaid, lle mae menywod â phrofiad byw yn arwain rhai cyfweliadau a grwpiau ffocws. Byddai angen hyfforddiant cychwynnol a pharhaus trylwyr ar ymchwilwyr cymheiriaid, cefnogaeth (gan ymchwilwyr annibynnol a gweithwyr cymorth dibynadwy) a thaliadau cydnabyddiaeth a chydnabyddiaeth briodol. Dylai gweithwyr cymorth dibynadwy gyflwyno'r gwerthusiad i fenywod sy'n cymryd rhan a chynorthwyo i'w roi ar waith.

6.33 Yn ddelfrydol, dylai'r gwerthusiad fod yn hydredol. Dylai hyn gynnwys olrhain canlyniadau menywod dros gyfnodau penodol o amser ac (yn ddelfrydol) cynnwys yr un menywod mewn ymchwil ansoddol ar adegau gwahanol, megis ar ddechrau ac ar ddiwedd eu hymgysylltiad â chymorth yn y gymuned, ac ar ôl cyfnod o fyfyrio.

Byddai angen cymhellion a mecanweithiau adborth priodol i sicrhau ymgysylltiad parhaus. Os bydd adnoddau ac amser yn gyfyngedig, gellid cynnal gwerthusiad 'ciplun' untro, ond byddai ei ganfyddiadau'n llai craff. Gellid cwblhau gwerthusiad untro o'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod ymhen tua chwe mis, ar yr amod yr eir i'r afael â'r holl egwyddorion a nodwyd yn gynharach yn yr isadran hon cyn comisiynu.

6.34 O'i gymharu â'r system cyfiawnder ieuenctid, mae'r sylfaen dystiolaeth ynghylch troseddu gan fenywod yng Nghymru yn llai datblygedig. Yn ogystal â'r materion sy'n gysylltiedig ag adnabod menywod o Gymru sy'n cyflawni eu dedfrydau mewn carchardai yn Lloegr, bu nifer o newidiadau yn swyddogaeth y gwasanaeth prawf yn y blynyddoedd diwethaf sydd wedi arwain at ddiffyg parhad yn y data. O ganlyniad, mae'n anoddach monitro tueddiadau dros amser.

6.35 Lle mae data cyhoeddedig ar gael i feintioli'r nifer sy'n dod i mewn ac yn llifo drwy'r system cyfiawnder troseddol, mae'r niferoedd cymharol isel o fenywod, yn enwedig y rhai o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, yn golygu nad yw'n bosibl llunio darlun cynhwysfawr ar hyn o bryd o droseddu gan fenywod yng Nghymru. Mae'r dadansoddiad a wnaed yn adroddiad cam 1 yn tynnu sylw at y ffaith ei bod yn bosibl, mewn rhai achosion, i gydgrynhoi data a gyflwynir ar gyfer gwahanol feysydd gweinyddol (heddluoedd, llysoedd, byrddau cyfiawnder lleol ac ati), i greu darlun cenedlaethol, nid yw bob amser yn bosibl dadgrynhoi'r ffigurau yn ôl rhywedd neu i'r gwrthwyneb. Mae data lefel unigol, gan gynnwys dadansoddiad yn ôl oedran a hil bellach yn cael ei gasglu gan lawer o sefydliadau cyfiawnder troseddol a'i goladu'n ganolog naill ai gan y Swyddfa Gartref neu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r graddau y cesglir data am y nodweddion gwarchodedig eraill ac aelodaeth o grwpiau blaenoriaeth yn amrywio, gan achosi problemau wrth wneud cymariaethau dros amser. Mae gwaith yn cael ei gynnal i gysoni'r ffordd y mae cwestiynau'n cael eu gofyn, ond mae'r niferoedd isel yn golygu ein bod yn debygol o barhau i weld grwpiau cyfun ac ataliad ystadegol yn y data cyhoeddedig.

6.36 O ystyried bod data ar lefel unigol yn bodoli mewn gwasanaethau gwahanol, mae'n bosibl dechrau'r broses o osod llinell sylfaenol a nodi lle mae anghyfartaledd. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r data cyfiawnder ieuenctid, mae bylchau amlwg yn y sylfaen dystiolaeth ynghylch dargyfeirio ac ymyriadau yn y gymuned. Yma, mae lle i

gael mewnwelediad drwy goladu'r data a gasglwyd o fewn ffurflenni sgrinio / cyfeirio. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar ansawdd a chyflawnrwydd yr wybodaeth a gesglir, gyda sefydliadau yn aml yn meddu ar eu metrigau perfformiad eu hunain sy'n adlewyrchu natur y gwasanaeth / anghenion eu cleientiaid. Argymhellir felly bod cwestiynau'n cael eu cysoni a bod diffiniadau cyffredin yn cael eu defnyddio. Felly, argymhellir y dull a ddefnyddir o fewn Iechyd y Cyhoedd i greu Hysbysiadau Dulliau Dadansoddi.

6.37 Fel y nodwyd yn flaenorol, mae cael data ar lefel unigol yn golygu bod nifer o gyfleoedd i ehangu’r sylfaen dystiolaeth a gwerthuso’r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod. Y cyntaf o’r rhain yw cynnal trafodaeth â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i greu adnodd penodol i gynnal llinell sylfaen a monitro perfformiad dros amser, gan greu fersiwn Gymraeg o Fenywod yn y System Cyfiawnder Troseddol o bosibl. Yn ddelfrydol, gellid ymgorffori data a gasglwyd oddi wrth heddluoedd Cymru a gwasanaethau a gomisiynir yn hyn. Fodd bynnag, cydnabyddir y byddai angen datrys materion yn ymwneud â diogelwch data, llywodraethu a throsolwg hefyd. Yn ogystal â'r costau sy'n gysylltiedig â darparu adnoddau ar gyfer y gwaith dadansoddi, rhagwelir y byddai angen penodi arweinydd strategol i drafod mynediad amserol i'r data a sicrhau cydymffurfedd â safonau data.

6.38 Mae'r ail opsiwn yn dibynnu ar ddarparu data o fewn cronfa ddata'r Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw fel rhan o raglen Data yn Gyntaf y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi sicrhau bod data o lysoedd ynadon, llys y goron a llysoedd teulu ar gael ynghyd â data carchardai a'r gwasanaeth prawf. Unwaith y byddant wedi’u darparu yng nghronfa ddata'r Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw, bydd yn bosibl cysylltu’r setiau data hyn â data addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd i ddysgu mwy am anghenion ac amgylchiadau’r rhai sydd wedi dod i gysylltiad â’r system cyfiawnder troseddol gan ddefnyddio maes cyswllt dienw. Mae lle i ddata allanol gael ei gynnwys yng nghronfa ddata'r Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw at ddibenion ymchwil. Mae hyn yn rhoi’r cyfle i olrhain y rheini sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgarwch dargyfeiriol ac ymyriadau yn y gymuned yn hydredol – ym mhob achos, byddai angen darparu rhestrau o ddefnyddwyr gwasanaeth drwy Iechyd a Gofal Digidol Cymru (trydydd parti y mae cronfa ddata'r Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw yn ymddiried ynddo) fel y gellir ei

ddadbersonoli cyn cael ei ddarparu. Mae creu maes cyswllt dienw (yn lle data adnabyddadwy) yn galluogi cofnodion gwrthrych y data i gael eu cysylltu â data sydd eisoes yn cael ei gadw ar gronfa ddata'r Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw. Byddai angen archwilio goblygiadau cost ychwanegu data allanol i gronfa ddata'r Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw.

6.39 Fel yr awgrymwyd yn flaenorol yng nghyd-destun y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am ystyried ariannu Cymrodoriaethau tebyg i'r rhai a gynigir gan Ymchwil Data Gweinyddol y DU i annog ymchwilwyr cymeradwy i ddefnyddio data'r prosiect, Data yn Gyntaf i fynd i'r afael â bylchau yn y dystiolaeth a fydd yn cefnogi gwerthusiad o'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod.

6.40 O ystyried y nifer o wahanol sefydliadau cyfiawnder troseddol sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau i fenywod yn y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, mae angen cytuno ar ddiffiniadau cyffredin ar gyfer monitro perfformiad. Er bod nifer o fetrigau wedi'u nodi yn adroddiad cam 1, gan gynnwys addasu dangosyddion presennol o'r system cyfiawnder ieuenctid ac iechyd y cyhoedd, yr hyn sy'n allweddol i ddeall lle mae galw heb ei ddiwallu am wasanaethau i gefnogi menywod ar wahanol gamau o'r system cyfiawnder troseddol fydd deall beth yw eu hanghenion a nodi lle mae anghyfartaledd. Bydd mynediad at ddata Cyfrifiad 2021 yn helpu gyda hyn, gan roi darlun cywir o nodweddion y boblogaeth sylfaenol ym mhob ardal ddaearyddyddol gan gynnwys yr angen i ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u hanelu at grwpiau lleiafrifol a / neu yn y Gymraeg.

6.41 Mae Tabl 3 yn nodi'r mesurau canlyniadau a awgrymwyd gan randdeiliaid yng nghyfweliadau cam 3 a chan fenywod yn y cyfweliadau cam 2 a 3, yn erbyn pob un o flaenoriaethau'r Glasbrint. Mae'n nodi a yw'r mesurau canlyniad yn ymwneud â'r broses a / neu linynnau canlyniad y gwerthusiad ac yn rhestru rhai ffynonellau data y gellid eu defnyddio mewn gwerthusiad. Mae'r holl ffynonellau data a restrir ar gael ar hyn o bryd, er ein bod wedi nodi lle gall ychwanegu at y ffynonellau data hyn gan gysylltiad data neu eu disodli gan ddata mwy craff yn y dyfodol. Byddai ychwanegu at y data presennol yn golygu goblygiadau adnoddau ychwanegol.

6.42 Yn yr un modd â'r tabl cyfatebol ar gyfer cyfiawnder ieuenctid, mae'n cynnwys syniad o ddichonoldeb mesur y mesurau canlyniadau arfaethedig – ar raddfa dri phwynt lle mae 1 yn anodd a 3 yn hawdd, yn ogystal ag ymdeimlad o ba mor uchel yw'r flaenoriaeth y dylid ei chynnwys mewn gwerthusiad (Uchel-Canolig-Isel).

**Tabl 3: Mesurau canlyniad ar gyfer gwerthuso'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod**

| Blaenoriaeth | | Dichonoldeb | |
|---|---|---|---|
| U | Uchel | 3 | Hawdd i'w gyflawni – mae mecanweithiau ar gyfer gwerthuso hyn ar waith |
| C | Canolig | 2 | |
| I | Isel | 1 | Anodd eu gwerthuso - mae metrigau yn oddrychol a / neu mae'r costau dan sylw yn uchel |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod | | | | Llinyn gwerthuso proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal ac ymyrraeth gynnar | Llysoedd a dedfrydu | Cymuned | Y ddalfa ac ailsefydlu | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth: | Uchel (U) ⟷ Isel (I) | | | | | | | |
| Dichonoldeb: | Hawdd (3) ⟷ Anodd (1)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* … *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / costus)* | | | | | | | |
| **Aildroseddu:** | | | | | | | | |
| - Lleihau amlder / difrifoldeb y troseddu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | U3 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; ymarferwyr; teulu<br>C: Ystadegau Aildroseddu Profedig; Menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol (y Weinyddiaeth Gyfiawnder)<br>* Bydd sefydliadau unigol gan gynnwys gwasanaethau a gomisiynir yn cadw data mewnol y gellid ei goladu i fonitro tueddiadau dros amser<br>*Gellid defnyddio cysylltu data i wella dealltwriaeth o wasanaethau atal a dargyfeirio, trwy olrhain aildroseddu defnyddwyr gwasanaeth dros amser gan ddefnyddio data gweinyddol |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod | | | | Llinyn gwerthuso proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal ac ymyrraeth gynnar | Llysoedd a dedfrydu | Cymuned | Y ddalfa ac ailsefydlu | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth: Dichonoldeb: | Uchel (U) ⟷ Isel (I)<br>Hawdd (3) ⟷ Anodd (1)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* … *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / costus)* | | | | | | | |
| - Datrysiadau gwahanol | | ✓ | | | ✓ | ✓ | U2 | P/C: Cyfweliadau gyda'r heddlu, y llysoedd a'r gwasanaeth prawf<br>C: Ystadegau Cyfiawnder Troseddol; Ystadegau Rheoli Troseddwyr; Menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol (y Weinyddiaeth Gyfiawnder) |
| - Nodweddion gwarchodedig a grwpiau blaenoriaeth | | ✓ | | | | ✓ | U1 | * Mae sefydliadau unigol gan gynnwys gwasanaethau a gomisiynir yn cadw data mewnol y gellid ei goladu i fonitro tueddiadau dros amser. Er mwyn galluogi hyn, bydd angen cysoni a chasglu cwestiynau i bennu aelodaeth grwpiau blaenoriaeth a nodweddion gwarchodedig fel mater o drefn.<br>* Bydd defnyddio cyfrifiad 2021 (ar gael o 2023) yn galluogi asesiad mwy cywir o dan-gynrychiolaeth / gor-gynrychiolaeth i gael ei bennu mewn gwahanol ardaloedd daearyddol, gan ddefnyddio dull croestoriadol<br>* Dadansoddiad pwrpasol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i efelychu Menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol i Gymru. |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod | | | | Llinyn gwerthuso proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl<br>(* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal ac ymyrraeth gynnar | Llysoedd a dedfrydu | Cymuned | Y ddalfa ac ailsefydlu | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth:<br><br>Dichonoldeb: | Uchel (U)<br>Hawdd (3)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* | | | ⟵⟶<br>⟵⟶ | | | | Isel (I)<br>Anodd (1)<br>*(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / costus)* |
| | | | | | | | | * Gellid defnyddio cysylltu data i sefydlu aelodaeth ôl-weithredol o grwpiau blaenoriaeth |
| **Hyd / math o ddedfryd:** | | | | | | | | |
| - Mynediad ac ail-fynediad at y ddalfa | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | U2 | P/C: Cyfweliadau / grwpiau ffocws gyda'r farnwriaeth<br>C: Ystadegau Rheoli Troseddwyr (y Weinyddiaeth Gyfiawnder) a data mewnol a gedwir gan y Gwasanaeth Prawf. Fodd bynnag, mae anawsterau o ran nodi carcharorion Cymraeg o hyd.<br>* Gellid defnyddio cysylltu data i wella dealltwriaeth ynghylch mynediad ac ail-fynediad at y ddalfa gan ddefnyddio data gweinyddol |
| - Y rhai sy'n cael dedfrydau cymunedol sy'n cael dedfrydau o garchar yn ddiweddarach | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | U2 | P/C: Cyfweliadau / grwpiau ffocws gyda'r farnwriaeth<br>* Gellid defnyddio cysylltu data i wella dealltwriaeth o batrymau dedfrydu dros amser |
| - Defnydd o'r ddalfa | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | U2 | P/C: Cyfweliadau / grwpiau ffocws gyda'r farnwriaeth a'r gwasanaeth prawf<br>C: Ystadegau Cyfiawnder Troseddol<br>* Dadansoddiad pwrpasol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i efelychu Menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol i Gymru a / |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod: Atal ac ymyrraeth gynnar | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod: Llysoedd a dedfrydu | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod: Cymuned | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod: Y ddalfa ac ailsefydlu | Llinyn gwerthuso proses / canlyniad: Proses | Llinyn gwerthuso proses / canlyniad: Canlyniad | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth:<br>Dichonoldeb: | Uchel (U) ⟵⟶ Isel (I)<br>Hawdd (3) ⟵⟶ Anodd (1)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* … *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / costus)* | | | | | | | |
| | | | | | | | | neu i ddarparu dadansoddiad o ran rhywedd yn Ystadegau'r Llys Troseddol.<br>* Gellid defnyddio cysylltu data i wella dealltwriaeth o batrymau dedfrydu dros amser |
| - Tueddiadau rhwng / ar draws y llysoedd | | ✓ | | | ✓ | ✓ | C2 | P/C: Cyfweliadau / grwpiau ffocws gyda'r farnwriaeth a'r gwasanaeth prawf<br>* Gellid defnyddio cysylltu data i wella dealltwriaeth o batrymau dedfrydu dros amser mewn gwahanol ardaloedd, gan ystyried y math o drosedd a rhywedd y diffynnydd. |
| **Monitro niferoedd a nodweddion o'r canlynol:** | | | | | | | | |
| - Arestiadau | | ✓ | | | ✓ | ✓ | U2 | P/C: Cyfweliadau gyda'r heddlu a'r gwasanaeth prawf<br>* Mae heddluoedd unigol yn cadw data mewnol y gellid ei goladu i fonitro tueddiadau dros amser.<br>* Dadansoddiad pwrpasol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i efelychu Menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol i Gymru a / neu i ddarparu dadansoddiad o ran rhywedd o fewn Pwerau a Gweithdrefnau'r Heddlu (Y Swyddfa Gartref) |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod | | | | Llinyn gwerthuso proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal ac ymyrraeth gynnar | Llysoedd a dedfrydu | Cymuned | Y ddalfa ac ailsefydlu | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth: Dichonoldeb: | Uchel (U) ⟷ Isel (I) Hawdd (3) ⟷ Anodd (1) *(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / costus)* | | | | | | | |
| - Pobl sy'n dechrau yn y system am y tro cyntaf / Pobl sy'n ad-droseddwyr | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | U1 | C: Cyfres Chwarterol Ystadegau'r System Cyfiawnder Troseddol (y Weinyddiaeth Gyfiawnder) * Dylid ystyried metrig arall i gasglu'r cyswllt cyntaf â'r system cyfiawnder troseddol, gan ddefnyddio'r dull a ddefnyddiwyd yn Hysbysiadau Dulliau Dadansoddi Iechyd y Cyhoedd. * Gellid defnyddio cysylltu data i wella dealltwriaethau croestoriadol gan ddefnyddio data gweinyddol. |
| - Dargyfeirio yn erbyn dedfrydu | | ✓ | | | ✓ | ✓ | C1 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; teuluoedd; y Gwasanaeth Prawf; gwasanaethau a gomisiynir / y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu; Y farnwriaeth P/C: Data lefel gwasanaeth ar gyfer dargyfeirio rhaglenni. C: Ystadegau Aildroseddu (y Weinyddiaeth Gyfiawnder) * Gellid defnyddio cysylltu data i wella dealltwriaeth o effeithiolrwydd gwasanaethau dargyfeirio, trwy olrhain aildroseddu defnyddwyr gwasanaeth dros amser gan ddefnyddio data gweinyddol * Gellid defnyddio cysylltu data i wella dealltwriaeth o anghenion |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod | | | | Llinyn gwerthuso proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal ac ymyrraeth gynnar | Llysoedd a dedfrydu | Cymuned | Y ddalfa ac ailsefydlu | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth: Dichonoldeb: | Uchel (U) ⟷ Isel (I); Hawdd (3) ⟷ Anodd (1); *(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* … *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / costus)* | | | | | | | |
| | | | | | | | | ac amgylchiadau'r ddau grŵp hyn, gan ddefnyddio data gwasanaethau cymdeithasol, llys teulu, iechyd ac addysg |
| - Datrysiadau y tu allan i'r llys | | ✓ | | | ✓ | ✓ | C2 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; teuluoedd; y Gwasanaeth Prawf; yr heddlu a'r farnwriaeth C: Ystadegau Cyfiawnder Troseddol; Ystadegau Llys Troseddol |
| - Torri amodau / Galw'n ôl | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | C2 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; teuluoedd; yr heddlu a'r gwasanaeth prawf C: Adroddiad Blynyddol Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (ar gyfer y rhai sy'n cael eu rheoli gan y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd); C: Data lefel gwasanaeth a gedwir gan y gwasanaeth prawf * Dadansoddiad pwrpasol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i efelychu Menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol i Gymru a / neu i ddarparu dadansoddiad o ran rhywedd yn Ystadegau'r Llys Troseddol * Bydd dadansoddiad o'r data lefel llys sydd ar gael trwy Data yn Gyntaf yn rhoi mewnwelediad |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod | | | | Llinyn gwerthuso proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal ac ymyrraeth gynnar | Llysoedd a dedfrydu | Cymuned | Y ddalfa ac ailsefydlu | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth:<br><br>Dichonoldeb: | Uchel (U)<br>Hawdd (3)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* | | | | ⟷ | | | Isel (I)<br>Anodd (1)<br>*(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / costus)* |
| | | | | | | | | ychwanegol am achosion o dorri amodau a'u cysylltiadau o ran bod yn agored i niwed a dedfrydau o garchar. |
| - Dedfrydau cymunedol yn erbyn y ddalfa | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | U2 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; teuluoedd; yr heddlu a'r gwasanaeth prawf<br>C: Data lefel gwasanaeth a gedwir gan y gwasanaeth prawf; Ystadegau Cyfiawnder Troseddol (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder)<br>* Bydd dadansoddiad o'r data lefel llys sydd ar gael trwy Data yn Gyntaf yn rhoi cipolwg ychwanegol ar batrymau dedfrydu |
| - Lleoliad (Lloegr o gymharu â Chymru) (Unigolyn Ifanc) | | | | ✓ | ✓ | ✓ | C1 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod ifanc; teuluoedd ac ymarferwyr<br>C: Adroddiad Ieuenctid yn y Ddalfa |
| **Canlyniadau eraill:** | | | | | | | | |
| Adroddiadau Cyn Dedfrydu: niferoedd; cynnwys / cynigion; cydymffurfedd | | ✓ | | | ✓ | ✓ | 3 | P/C: Cyfweliadau gyda'r gwasanaeth prawf a'r farnwriaeth<br>C: Wedi'i gynnwys yn flaenorol fel rhan o'r gyfres Perfformiad Cymunedol (y Weinyddiaeth Gyfiawnder); data lefel gwasanaeth; Adroddiadau arolygu'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod | | | | Llinyn gwerthuso proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal ac ymyrraeth gynnar | Llysoedd a dedfrydu | Cymuned | Y ddalfa ac ailsefydlu | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth:<br><br>Dichonoldeb: | Uchel (U)<br>Hawdd (3)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* | | | ⟷<br>⟷ | | | | Isel (I)<br>Anodd (1)<br>*(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / costus)* |
| Cymesuredd troseddau a dedfrydau | ✓ | | | | ✓ | ✓ | U<br>1-2 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; teuluoedd, y gwasanaeth prawf, a’r farnwriaeth<br>* Fel y nodwyd, bydd dadansoddiad o’r data lefel llys sydd ar gael trwy Data yn Gyntaf yn darparu mewnwelediad ychwanegol am batrymau dedfrydu ar gyfer troseddau gwahanol ac yn galluogi cymariaethau i gael eu gwneud yn ôl rhywedd |
| Cymharu canlyniadau rhwng menywod sy’n derbyn gwasanaethau yn y gymuned a’r rhai nad ydynt yn derbyn y gwasanaethau hynny | | | ✓ | | ✓ | ✓ | 1-2 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; teuluoedd, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau a gomisiynir, a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu<br>* Arolygiadau thematig a rheolaeth gadarn ar gontract yn erbyn mesurau perfformiad a bennwyd ymlaen llaw sy’n adlewyrchu nodau ac amcanion yr ymyriad.<br>* Bydd cysylltu data yn galluogi menywod i gael eu holrhain dros gyfnod hwy i benderfynu a gyflawnwyd mesurau gwrthrychol. Yn ogystal ag ystyried aildroseddu, gallai hyn gynnwys ystod ehangach o fesurau megis cael gwaith, cael mynediad at |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod | | | | Llinyn gwerthuso proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal ac ymyrraeth gynnar | Llysoedd a dedfrydu | Cymuned | Y ddalfa ac ailsefydlu | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth: Uchel (U) ↔ Isel (I)<br>Dichonoldeb: Hawdd (3) ↔ Anodd (1)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* ↔ *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / costus)* | | | | | | | | |
| | | | | | | | | hyfforddiant; tai sefydlog, canlyniadau iechyd cadarnhaol, dim ymyriadau pellach gan y gwasanaethau cymdeithasol ac ati |
| Llai o ddefnydd o gyffuriau ac alcohol | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | U/C 2 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; teuluoedd; staff gwasanaeth / cymorth; y Gwasanaeth Prawf<br>C: Data'r Gwasanaeth Prawf (System Asesu Troseddwyr); Crynodeb Blynyddol y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi; data lefel gwasanaeth; Set Ddata Camddefnyddio Sylweddau (SMDS).<br>*Mae gan gysylltu data, gan gynnwys y Set Ddata Camddefnyddio Sylweddau (SMDS), y potensial i wella dealltwriaeth o effeithiolrwydd triniaeth a'i effaith ar ymddygiad troseddol<br>* Mae lle i ddatblygu mesur sy'n cyfateb i Ddangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru 6 (mynediad at wasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol) gan ddefnyddio'r dull a ddefnyddiwyd yn Hysbysiadau Dulliau Dadansoddi Iechyd y Cyhoedd. |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod | | | | Llinyn gwerthuso proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl<br>(* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal ac ymyrraeth gynnar | Llysoedd a dedfrydu | Cymuned | Y ddalfa ac ailsefydlu | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth:<br><br>Dichonoldeb: | Uchel (U) ⟷ Isel (I)<br>Hawdd (3) ⟷ Anodd (1)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* … *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / costus)* | | | | | | | |
| Gwell iechyd meddwl a chorfforol | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | 2 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; teuluoedd; staff gwasanaeth / cymorth; y Gwasanaeth Prawf<br>C: Data'r Gwasanaeth Prawf (System Asesu Troseddwyr); Crynodeb Blynyddol y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi; data lefel gwasanaeth<br>*Mae gan gysylltu data â setiau data iechyd y potensial i wella dealltwriaeth o effeithiolrwydd ymyriadau cyfiawnder troseddol a’u heffaith ar iechyd.<br>* Mae lle i ddatblygu mesur sy'n cyfateb i Ddangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru 7 (mynediad at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol) gan ddefnyddio'r dull a ddefnyddiwyd yn Hysbysiadau Dulliau Dadansoddi Iechyd y Cyhoedd.<br>* Defnyddio mesurau wedi’u dilysu fel SWEMWBS (Graddfa Llesiant Meddwl Fer Warwig-Caeredin) a graddfa deg pwynt Cynllun Gofal a Chymorth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i fesur canlyniadau personol |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod | | | | Llinyn gwerthuso proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl<br>(* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal ac ymyrraeth gynnar | Llysoedd a dedfrydu | Cymuned | Y ddalfa ac ailsefydlu | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth:<br><br>Dichonoldeb: | Uchel (U)<br>Hawdd (3)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* | | | ← → | | | | Isel (I)<br>Anodd (1)<br>*(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / costus)* |
| Mwy o atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau cymorth cyn mynd i'r llys | | | ✓ | | ✓ | ✓ | 1-2 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; teuluoedd; staff gwasanaeth / cymorth; y Gwasanaeth Prawf<br>* Mae gan gysylltu data â setiau data dysgu gydol oes, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol y potensial i wella dealltwriaeth o anghenion ac amgylchiadau menywod yn system cyfiawnder troseddol.<br>* Mapio llwybrau atgyfeirio i sefydlu cyflenwad yn erbyn galw mewn ardaloedd gwahanol; defnydd o ddata atgyfeirio a gedwir ar lefel gwasanaeth i ystyried tueddiadau dros amser. |
| Gallu cynyddol i ffurfio cydberthnasau iachach / gallu cynyddol i hunan-ddiogelu | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | 1-2 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; teuluoedd; staff gwasanaeth / cymorth; y Gwasanaeth Prawf<br>* Defnyddio mesurau wedi'u dilysu fel SWEMWBS (Graddfa Llesiant Meddwl Fer Warwig-Caeredin) a graddfa deg pwynt Cynllun Gofal a Chymorth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i fesur canlyniadau personol |
| Ymgysylltu â gwasanaethau / ymyriadau penodol (addysg, hyfforddiant a | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 2 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; ymarferwyr; teulu.<br>P/C: Data lefel gwasanaeth |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod | | | | Llinyn gwerthuso proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal ac ymyrraeth gynnar | Llysoedd a dedfrydu | Cymuned | Y ddalfa ac ailsefydlu | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth: Dichonoldeb: | Uchel (U) ←→ Isel (I)<br>Hawdd (3) ←→ Anodd (1)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* … *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / costus)* | | | | | | | |
| chyflogaeth, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl) | | | | | | | | * Mae lle i fesurau cyfatebol i Ddangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru 4 (ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth); Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru 5 (mynediad at lety addas); Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru 6 (mynediad at wasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol); Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru 7 (mynediad at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol)<br>*Mesurau dilys eraill, e.e., gellid defnyddio'r SWEMWBS a'r raddfa deg pwynt Cynllun Gofal a Chymorth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant hefyd i fesur canlyniadau personol<br>*Fel y nodwyd, gellid defnyddio cysylltu data i wella dealltwriaeth o anghenion ac amgylchiadau'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn, gyda chanlyniadau'n cael eu canfod trwy olrhain defnyddwyr gwasanaeth dros amser gan ddefnyddio data gweinyddol |
| Defnyddio ymyriadau / ffurfiau ymarfer penodol (y | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 2 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; ymarferwyr; teulu. |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod | | | | Llinyn gwerthuso proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal ac ymyrraeth gynnar | Llysoedd a dedfrydu | Cymuned | Y ddalfa ac ailsefydlu | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth: | Uchel (U) | | | ⟵ | | ⟶ | | Isel (I) |
| Dichonoldeb: | Hawdd (3) *(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* | | | ⟵ | | ⟶ | | Anodd (1) *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / costus)* |
| system ECM, asesiadau seicolegol, ymarfer sy'n seiliedig ar wybodaeth glinigol) | | | | | | | | C: Data lefel gwasanaeth |
| Mynediad amserol at wasanaethau a'u derbyn | | | ✓ | | ✓ | ✓ | 2 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; ymarferwyr; teulu.<br>C: Mesurau Cyflawni GIG Cymru (amseroedd aros) a'r Fframwaith Cyflawni; Data lefel gwasanaeth (e.e. cwynion ac achwyniadau) |
| Gwell gwybodaeth am wasanaethau cymorth | | | ✓ | | ✓ | | 1-2 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; ymarferwyr<br>* Mapio llwybrau atgyfeirio i sefydlu cyflenwad yn erbyn galw mewn ardaloedd gwahanol gan gynnwys y meini prawf ar gyfer atgyfeirio. Mae lle i goladu hwn a'i rannu gyda phartneriaid.<br>* Datblygiad Proffesiynol Parhaus i godi ymwybyddiaeth o ddarpariaeth leol. |
| Cymhlethdod yr angen ar ôl dychwelyd i'r system cyfiawnder troseddol | ✓ | | | | ✓ | ✓ | 1-2 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; teuluoedd; staff gwasanaeth / cymorth; y Gwasanaeth Prawf<br>C: Data'r Gwasanaeth Prawf (Data'r System Asesu Troseddwyr) offer sgrinio lefel gwasanaeth<br>* Byddai cysylltu data'r CYBLD, gwasanaethau cymdeithasol a llysoedd teulu, iechyd a data'r |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod | | | | Llinyn gwerthuso proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal ac ymyrraeth gynnar | Llysoedd a dedfrydu | Cymuned | Y ddalfa ac ailsefydlu | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth: Uchel (U) ⟷ Isel (I)<br>Dichonoldeb: Hawdd (3) ⟷ Anodd (1)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* ... *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / costus)* | | | | | | | | |
| | | | | | | | | rhaglen Data yn Gyntaf yn cynyddu mewnwelediad. Fodd bynnag, nid yw data'r System Asesu Troseddwyr yn rhan o'r broses rhannu data ar hyn o bryd. * Er mwyn coladu data o'r offer sgrinio lefel gwasanaeth amrywiol, bydd angen defnyddio cwestiynau wedi'u cysoni ynghyd â diffiniadau cyffredin. |
| Galw am wasanaethau dros amser | ✓ | | | | ✓ | ✓ | 2 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; teuluoedd; staff gwasanaeth / cymorth gan gynnwys rhai o wasanaethau a gomisiynir; y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu * Gallai cynnwys mesurau amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth helpu i bennu cyflenwad yn erbyn y galw am wasanaethau |
| Cwblhau ymyriadau | ✓ | | | | ✓ | ✓ | 2-3 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; teuluoedd; staff y Gwasanaeth Prawf, staff gwasanaeth / cymorth gan gynnwys y rheini o wasanaethau a gomisiynir; y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu C: Data'r Gwasanaeth Prawf (System Asesu Troseddwyr); data lefel gwasanaeth * Ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir, mae lle i reoli perfformiad cadarn i gefnogi hyn. |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod | | | | Llinyn gwerthuso proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal ac ymyrraeth gynnar | Llysoedd a dedfrydu | Cymuned | Y ddalfa ac ailsefydlu | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth:<br><br>Dichonoldeb: | Uchel (U) ↔ Isel (I)<br>Hawdd (3) ↔ Anodd (1)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* | | | | | | | *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / costus)* |
| Cynnal y gefnogaeth a dderbyniwyd / sgiliau a ddatblygwyd pan yn y ddalfa | | | | ✓ | ✓ | ✓ | 1-2 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; teuluoedd; staff y Gwasanaeth Prawf a staff gwasanaeth / cymorth yn y gymuned<br>* Gan ddibynnu ar natur y gefnogaeth a dderbyniwyd / sgiliau a ddatblygwyd, efallai y bydd modd defnyddio data gweinyddol i olrhain hyn dros amser. |
| Pontio effeithiol i'r gymuned o'r ddalfa | | | | ✓ | ✓ | ✓ | 1-2 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; teuluoedd; staff y Gwasanaeth Prawf a staff gwasanaeth / cymorth yn y gymuned<br>C: Data lefel gwasanaeth (e.e. cwynion ac achwyniadau) |
| Llety (argaeledd, addasrwydd, amseroedd aros, hyd tenantiaeth / lleoliad) | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 2 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; teuluoedd; staff y Gwasanaeth Prawf a staff gwasanaeth / cymorth yn y gymuned<br>C: Data lefel gwasanaeth<br>*Casglwyd peth gwybodaeth fel rhan o'r Proffil Canlyniad Triniaeth / Set Ddata Camddefnyddio Sylweddau am y risg o gael eich troi allan a all roi mewnwelediad. |
| Gwariant / arbedion / effaith economaidd | ✓ | | | | ✓ | ✓ | 1-2 | P/C: Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid ar lefel strategol<br>C: data lefel gwasanaeth ar wariant; data ar gostau trosedd (y |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod | | | | Llinyn gwerthuso proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal ac ymyrraeth gynnar | Llysoedd a dedfrydu | Cymuned | Y ddalfa ac ailsefydlu | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth:<br>Dichonoldeb: | Uchel (U) ⟵⟶ Isel (I)<br>Hawdd (3) ⟵⟶ Anodd (1)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* … *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / costus)* | | | | | | | |
| | | | | | | | | Swyddfa Gartref); lleoedd carchar (y Weinyddiaeth Gyfiawnder) ac erlyniad (Gwasanaeth Erlyn y Goron) |
| Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar argaeledd, hygyrchedd ac effeithiolrwydd gwasanaethau; ac i ddeall cyd-destun troseddu | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | 3-2 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod<br>C: Data lefel gwasanaeth (gan gynnwys arolygon / cyfweliadau gadael, cwynion / achwyniadau); Gwerthusiadau wedi'u comisiynu (lle y'u cynhelir ac ar gael i'r cyhoedd) ac Arolygiadau. |
| Adborth gan deuluoedd defnyddwyr gwasanaeth | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 1 | P/C: Cyfweliadau gyda theuluoedd<br>C: Data lefel gwasanaeth (gan gynnwys arolygon / cyfweliadau gadael, cwynion / achwyniadau) |
| Effeithiau ar / canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd [archwilio gwahaniaethau yn ôl math o ddedfryd] (gostyngiad yn y niferoedd sy'n cael eu cymryd i ofal pan fydd y fam yn y ddalfa; teimlo bod eu hanghenion yn cael eu diwallu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | U1 | P/C: Cyfweliadau gyda theuluoedd a phlant; Cyfweliadau / grwpiau ffocws gyda rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli buddiannau plant a / neu famau sydd wedi'u carcharu; gweithwyr cymdeithasol<br>* Dadansoddiad pwrpasol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder o Ryddhau ar Drwydded Dros Dro a cheisiadau / cymeradwyaeth i unedau mamau a babanod (a gyhoeddir ar hyn o bryd fel rhan o adroddiad Cydraddoldeb y |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod | | | | Llinyn gwerthuso proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal ac ymyrraeth gynnar | Llysoedd a dedfrydu | Cymuned | Y ddalfa ac ailsefydlu | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth: Dichonoldeb: | Uchel (U) ↔ Isel (I)<br>Hawdd (3) ↔ Anodd (1)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* … *(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / costus)* | | | | | | | |
| | | | | | | | | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi) * Gellid defnyddio data lefel gwasanaeth i nodi ble mae dibynyddion. Fodd bynnag, nid oes mecanwaith sefydledig ar hyn o bryd ar gyfer cyfrif y niferoedd a gymerir i ofal o ganlyniad i garcharu rhieni. * Gellid defnyddio cysylltu data i wella dealltwriaeth o'r effaith ar blant a theuluoedd, gan ddefnyddio data o'r llysoedd teulu yn ogystal â chyfuniad o addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i olrhain plant yr effeithir arnynt gan garchariad mamol dros amser. |
| Canlyniadau meddalach sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (cydberthnasau [gan gynnwys cynnal cydberthnasau pan yn y ddalfa], gwneud penderfyniadau, asiantaeth / cymryd cyfrifoldeb am eu bywydau a'u gweithredoedd eu hunain, mynegiant emosiynol, llesiant, y gallu i nodi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 1-2 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod; teuluoedd; staff gwasanaeth / cymorth; y Gwasanaeth Prawf Data lefel gwasanaeth (gan gynnwys arolygon / cyfweliadau gadael, cwynion / achwyniadau); Data'r Gwasanaeth Prawf (System Asesu Troseddwyr) |

| Mesurau canlyniadau | Blaenoriaeth Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder i Fenywod | | | | Llinyn gwerthuso proses / canlyniad | | Arwydd o Flaenoriaeth / Dichonoldeb | Ffynonellau data posibl (* yn nodi ffynonellau ar gyfer y dyfodol / ffynonellau posibl) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Atal ac ymyrraeth gynnar | Llysoedd a dedfrydu | Cymuned | Y ddalfa ac ailsefydlu | Proses | Canlyniad | | |
| Blaenoriaeth:<br>Dichonoldeb: | Uchel (U)<br>Hawdd (3)<br>*(Mae mecanweithiau eisoes ar waith i hwyluso gwerthusiad)* | | | | ⟷<br>⟷ | | | Isel (I)<br>Anodd (1)<br>*(Nid yw mecanweithiau'n bodoli ar hyn o bryd / tasg gymhleth / costus)* |
| anghenion cymorth, sgiliau magu plant, diogelwch personol, cynnydd wrth fynd i'r afael ag anghenion troseddogenig; hunanwerth a hunan-barch | | | | | | | | |
| Canlyniadau meddalach sy’n canolbwyntio ar y gymuned (diogelwch cymunedol, cydlyniant, canfyddiadau, boddhad) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 1 | P/C: Cyfweliadau gyda menywod a'u teuluoedd; cymdogion / preswylwyr cymunedau; staff gwasanaeth / cymorth; Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Deilliannau yn ymwneud ag ymarferwyr (penderfynu ar ddedfrydu; trosglwyddo gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | 2 | P/C: Cyfweliadau gydag ymarferwyr o bob rhan o’r system cyfiawnder troseddol ehangach a’r farnwriaeth |

**Cyfeiriadau**


Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar gyfer Plant ac Oedolion Wedi Ffoi ac Ar Goll (2020). No Place at Home. Llundain: Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar gyfer Plant ac Oedolion Wedi Ffoi ac Ar Goll. Ar gael yn: Children's Society

Barnardo's Cymru (2021). Ymddygiad rhywiol niweidiol: Canllaw i gefnogi dealltwriaeth ac ymatebion o ran ymarfer yng Nghymru. Caerdydd: Barnardo's Cymru. Ar gael yn: Barnardo's

Cymdeithas Feddygol Prydain (2014). Young Lives Behind Bars: The health and human rights of children and young people detained in the criminal justice system. Llundain: Cymdeithas Feddygol Prydain. Ar gael yn: British Medical Association

Brunner, R., Craig, P., a Watson (2019). Evaluability assessment: an application in a complex community improvement setting. Gwerthusiad, 25 (3), 349-365. Ar gael yn: Sagepub

Canolfan Arloesi Cyfiawnder (2022). Six steps forward for diversion in the youth justice system. Llundain: Canolfan Arloesi Cyfiawnder. Ar gael yn: Justice Innovation

Cordis Bright (2017). Gwerthusiad o'r dull ECM. Llundain: Cordis Bright. Ar gael yn: Cordis Bright

Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf (2021). Relationship Based Practice Guidance: A trauma and ACE (TrACE) informed approach. Pontypridd: Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf. Ar gael yn: YJ Resource Hub

Digital Marketplace (2021) *Discovery Delivery Partner for the Better Outcomes through Linked Data (BOLD) programme*. Ar gael yn: Digital Market Place.

Farmer (2019). The Importance of Strengthening Female Offenders' Family and other Relationships to Prevent Reoffending and Reduce Intergenerational Crime. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar gael yn: Ministry of Justice

Farmer (2017). Pwysigrwydd Cryfhau Teulu Troseddwyr Benywaidd a Pherthnasoedd Eraill i Atal Aildroseddu a Lleihau Troseddau Pontio'r Cenedlaethau. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar gael yn: Ministry of Justice

Glendinning, F., Rodriguez, G., Newbury, A., a Wilmot, R. (2021). Adverse childhood experience (ACE) and trauma-informed approaches in youth justice services in Wales: An evaluation of the implementation of the enhanced case management (ECM) project. Bangor: Prifysgol Bangor. Ar gael yn: TRM Academy

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (2021). Niwroamrywiaeth yn y System Cyfiawnder Troseddol. Ar gael yn: Justice Inspectorates

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (2014). Girls in the Criminal Justice System. Manceinion: Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (2014. Ar gael yn: Justice Inspectorates

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (2020). Annual report: inspection of youth offending services (2019-2020). Manceinion: Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (2020. Ar gael yn: Justice Inspectorates

Hodgson, J. (2022). Girls and Youth Justice. yn: Gender, Power, and Restorative Justice, Critical Criminological Perspectives t.21-43. Palgrave Macmillan, Cham. Ar gael yn Springer Link

Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin (2020). Plant a Phobl Ifanc yn y Ddalfa (Rhan 1): Mynediad i'r system cyfiawnder ieuenctid. Llundain: Tŷ'r Cyffredin. Ar gael yn: Parliament UK

Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin (2021). Plant a Phobl Ifanc yn y Ddalfa (Rhan 2). Yr Ystâd Ddiogel Ieuenctid ac Adsefydlu: Ymateb y Llywodraeth i Unfed Adroddiad ar Bymtheg y Pwyllgor o Sesiwn 2019-21. Llundain: Tŷ'r Cyffredin. Ar gael yn: Parliament UK

Cynghrair Diwygio Cosb Howard (2017). Rhoi terfyn ar droseddoli plant mewn gofal preswyl. Llundain: Cynghrair Diwygio Cosb Howard Ar gael yn: The Howard League

Ingeus (2021). Trauma-Informed Practice Evaluation. Llundain: Ingeus (2021. Ar gael yn: Ingeus

JUSTICE (2021). Tackling Racial Injustice: Children and the Youth Justice System. Llundain: JUSTICE. Ar gael yn: JUSTICE

Lammy D. (2017). Adolygiad Lammy: Adroddiad Terfynol. Adolygiad annibynnol o'r driniaeth a gaiff unigolion Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y System Cyfiawnder Troseddol, a'u canlyniadau Llundain: Gov.UK.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder(2020). The Concordat on Women in or at risk of contact with the Criminal Justice System. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar gael yn: Ministry of Justice

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2020c). Ystadegau ar Fenywod a'r System Cyfiawnder Troseddol 2019. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Gartref, a Llywodraeth Cymru (2022). Protocol Cymru Gyfan: Lleihau nifer y plant ac oedolion ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael eu troseddoli. Caerdydd: Llywodraeth Cymru Ar gael yn: Protocol Cymru Gyfan

National Information Centre on Children of Offenders (2018). Waliau Anweledig Cymru. Ar gael yn: Invisible Walls Wales - NICCO

NSPCC (2017). Briff ymchwil: ymddygiad rhywiol niweidiol. Llundain: NSPCC. Ar gael yn: NSPCC

Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai. (2016). *Keeping Children in Care out of Trouble: An Independent Review (Executive Summary)*. Llundain: Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai. Ar gael yn: Prison Reform Trust.

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021). Pecyn Cymorth ar gyfer Sefydliadau sy'n Wybodus ynghylch Trawma ac ACE (TrACE) Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru Ar gael yn: Iechyd Cyhoeddus Cymru

Robin-D'Cruz C, Whitehead, S. Disparities in youth diversion – an evidence review. Llundain: Canolfan Arloesi Cyfiawnder. Ar gael yn: Justice Innovation

Panel Adolygu Arferion Diogelu Plant (2020). It was hard to escape: Safeguarding children at risk from criminal exploitation. Llundain: Adran Addysg. Ar gael yn: Department for Education

Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith (2017). Sylfaen Tystiolaeth Cyfiawnder. Cydgrynhoi: 2017. Llundain: Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith. Ar gael yn: Royal College of Speech and Language Therapists

Thomas, M., a Miles, C. [Ar y gweill]. Datblygu Strategaethau Priodol ar gyfer Cefnogi Menywod â Hil ac Ethnig Lleiafrifol yn y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

Llywodraeth y DU (2020). Llyfr Magenta: Canllawiau Llywodraeth Ganolog ar werthuso. Llundain: Trysorlys Ei Mawrhydi.

Awdurdod Ystadegau'r DU (2010). *Overcoming Barriers to Trust in Crime Statistics: England and Wales*. Llundain: Awdurdod Ystadegau'r DU. Ar gael yn: UK Statistics Authority.

User Voice (2021). “Black is guilty in their eyes”: Experiences of black and mixed heritage boys in youth justice services. Llundain: User Voice. Ar gael yn: Justice Inspectorates

Llywodraeth Cymru (2019). Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd yng Nghymru Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2019). Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2021). Cynllun Gweithredu Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2022). Protocol Cymru Gyfan: Lleihau nifer y plant ac oedolion ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael eu troseddoli. Ar gael yn: Protocol Cymru Gyfan

Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (2022). Cynllun Gweithredu Glasbrint Troseddwyr Benywaidd. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (2022). Cynllun Gweithredu Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru a Gwasanaethau Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (2017). Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (2020). ECM: Gweithredu'r Dull. Llundain: Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Ar gael yn: YJ Resource Hub

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (2021). Diffiniadau ar gyfer Atal a Dargyfeirio. Llundain: Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Ar gael yn: YJ Resource Hub